Cofrestrfa Tir EM

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

2015/16



# Cofrestrfa Tir EM
# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015/16

Cyflwynir yr adroddiad i'r Senedd yn unol ag Adran 101 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002. Cyflwynir y cyfrifon i'r Senedd yn unol ag Adran 4(6)(a) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Masnachu'r Llywodraeth 1990 Atodlen 1, paragraff (6A), (b).

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 19 Gorffennaf 2016.

HC 245

© Hawlfraint y Goron 2016

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio os datgenir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd rhaid i chi geisio caniatâd y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications.

Os oes gennych chi ymholiadau am y cyhoeddiad hwn ffoniwch ein tîm Cymorth Cwsmeriaid ar 0300 006 0411 neu e-bostiwch customersupport@landregistry.gov.uk; ar gyfer ymholiadau'r wasg ffoniwch Swyddfa'r Wasg ar 0300 006 7543.

Print ISBN 9781474133159

Gwe ISBN 9781474133166

ID 18051603 07/16

Argraffwyd ar bapur gyda 75 y cant o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu fan lleiaf.

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad perfformiad** | **5** |
| (a) Trosolwg | 5 |
| (b) Dadansoddiad perfformiad | 21 |
| **Adroddiad atebolrwydd** | **35** |
| Adroddiad llywodraethu corfforaethol | 35 |
| (a) Adroddiad y Cyfarwyddwyr | 35 |
| (b) Atebolrwydd arall | 38 |
| (c) Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 39 |
| (ch) Datganiad llywodraethu | 40 |
| Adroddiad tâl a staffio | 49 |
| Atebolrwydd seneddol ac adroddiad archwilio | 65 |
| **Datganiadau ariannol** | **69** |
| Atodiad A Maint o waith a llwythi gwaith | 97 |
| Atodiad B Pridiannu Tir a Chredydau Amaethyddol | 99 |
| Atodiad C Ymateb i'r hinsawdd economaidd | 101 |
| Atodiad Ch Cofnod y Trysorlys | 103 |
| Atodiad D Data hanesyddol cynaliadwyedd | 105 |
| Atodiad Dd Crynodeb o drafodion indemniad | 107 |

# Adroddiad perfformiad

## (a) Trosolwg

### Datganiad gan y Cadeirydd Dros Dro



Tim Franklin

Mae'n bleser gennyf gyfrannu at Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y flwyddyn hon.  Fel Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol y sefydliad roedd yn fraint cael fy ngwahodd i wasanaethu fel y Cadeirydd Dros Dro yn dilyn ymadawiad ein cyn Gadeirydd Mark Boyle, ac mae'n un o nifer o dasgau pleserus imi eu cael yn y rôl honno.

I gychwyn hoffwn dalu teyrnged i Mark a gymerodd yr awenau fel Cadeirydd annibynnol cyntaf y Gofrestrfa Tir ym mis Hydref 2011.  O dan ei oruchwyliaeth ef cafwyd llawer o newidiadau cadarnhaol yn y ffordd y caiff y sefydliad ei rhedeg a'i gweld yn ystod ei gyfnod o bedair blynedd a hanner yn y swydd.   Hoffwn ddiolch iddo am ei waith, teimlad y gwn y caiff ei adlewyrchu gan ei gydweithwyr ar Fwrdd y Gofrestrfa Tir.  O dan arweinyddiaeth Mark, datblygodd y Gofrestrfa Tir i fod yn sefydliad mwy effeithlon, mwy cynhyrchiol a mwy arloesol.

Fel Cadeirydd Dros Dro fy rôl yw arwain fy nghydweithwyr ar y Bwrdd wrth inni geisio gwireddu ein gweledigaeth a nodau cyffredin ar gyfer y Gofrestrfa Tir hyd nes y penodir Cadeirydd parhaol. Rwy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir, Graham Farrant, i gynrychioli a hyrwyddo'r sefydliad wrth inni drafod busnes gyda'n cwsmeriaid, ein budd-ddeiliaid a'n gweinidogion.

Mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori ar yr opsiynau i symud gweithrediadau'r Gofrestrfa Tir i'r sector preifat o 2017.  Beth bynnag fydd penderfyniad y Llywodraeth ynghylch perchnogaeth y Gofrestrfa Tir yn y dyfodol, bydd y Bwrdd yn chwarae ei ran wrth ddatblygu unrhyw opsiynau gweithredol a pherchnogaeth yn y dyfodol ac yn llunio strategaeth i wireddu'r ffordd ymlaen a ddewisir gan y Llywodraeth. Bydd hwn yn benderfyniad allweddol i'r sefydliad a'n tasg ni fydd bwrw'r maen i'r wal mewn ffordd sy'n rhoi sicrwydd a hyder i'r cyhoedd a phrif gwsmeriaid a budd-ddeiliaid y Gofrestrfa Tir.

O ran yr olaf o'r rhain roeddem i gyd yn falch o lwyddiant y digwyddiad i fudd-ddeiliaid a gynhaliwyd yn y Gymdeithas Frenhinol fis Tachwedd diwethaf. Edrychwn ymlaen at wneud hyn yn draddodiad blynyddol a pharhau i wneud y Gofrestrfa Tir yn sefydliad mwy agored a chynhwysol.  Mae'r Gofrestrfa Tir yn fusnes sy'n gwrando fwyfwy ar ei gwsmeriaid, ei fudd-ddeiliaid a'i bobl.  Fel Bwrdd rydym yn awyddus iawn i helpu'r diwylliant hwn i dyfu ymhellach a gwella ein safle ar draws y sector eiddo ehangach.

Gwn y bydd ein Cadeirydd newydd, pan gaiff ei benodi, yn gweld sefydliad sydd â hanes cyfoethog a hir o lwyddo a gweithlu ymroddedig a phroffesiynol.



Tim Franklin
Cadeirydd Dros Dro

# Rhagair gan y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir

Mae'n bleser gennyf adrodd bod fy mlwyddyn gyntaf fel y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus arall yn hanes y Gofrestrfa Tir.

Pan ges i fy mhenodi fel y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir fis Mehefin diwethaf, un o'm blaenoriaethau cyntaf oedd adolygu ein Strategaeth Fusnes. Estynnais wahoddiad i bob un o'n cydweithwyr gymryd rhan ac roedd eu syniadau a'u barn nhw wedi dylanwadu ar ein dewis o weledigaeth a gwerthoedd newydd ar gyfer y Gofrestrfa Tir sydd, rwy'n credu, yn adlewyrchu'n well y rôl hanfodol sydd gennym i'w chwarae yn y farchnad eiddo a'r economi ehangach

**Eich hawliau tir ac eiddo: wedi eu gwarantu a'u gwarchod**

| | |
|---|---|
| **Rydym yn rhoi sicrwydd** | **Mae gennym unplygrwydd** |
| **Rydym yn ysgogi arloesedd** | **Rydym yn broffesiynol** |

Mae ein gweledigaeth a'n gwerthoedd newydd yn adlewyrchu ein hymrwymiad craidd i unplygrwydd y Gofrestr Tir, sy'n parhau i fod yn un o'r blaenoriaethau pennaf. O ran ein cydweithwyr mae hyn yn gyfle da i ailddatgan y pwrpas canolog y mae nifer ohonynt wedi ymrwymo eu bywydau gwaith i'w gyflawni ac yn rhoi eglurdeb pwrpas i'n recriwtiaid newydd. Yn wir, rydym wedi ailddatgan ein cenhadaeth ganolog o gynnal unplygrwydd y gofrestr a chynyddu'r adnoddau a ymrwymwn i sicrhau bod prynwyr a gwerthwyr tai yn gallu dibynnu ar ein proffesiynoldeb a'n harbenigedd. Credwn hefyd y bydd hyn yn cael ei groesawu gan ein cwsmeriaid a'n budd-ddeiliaid.

Y llynedd derbyniwyd mwy na 30 miliwn o geisiadau, yn amrywio o geisiadau electronig syml am wybodaeth a chwiliadau swyddogol sy'n ffurfio rhan hanfodol o'r broses drawsgludo i geisiadau i newid y gofrestr. Mae'r cynnydd hwn yn y llwyth gwaith dros y flwyddyn wedi bod yn her enfawr i'n timau gwaith achos sydd wedi ymateb drwy ragori ar ein targedau ar gyfer boddhad cwsmeriaid ac ansawdd ein cofrestriadau. Cynyddodd nifer y teitlau yn y Gofrestr Tir i bron 24.5 miliwn gyda bron 88 y cant o Gymru a Lloegr wedi'i gofrestru erbyn hyn. Fodd bynnag, rydym yn dal i gymryd yn hwy i brosesu rhai mathau o geisiadau nag y byddem yn ei hoffi neu mae ein cwsmeriaid wedi dod i'w ddisgwyl erbyn hyn, ac rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wella ein cyflymder gwasanaeth.

Cydnabuwyd y byddai angen inni recriwtio i ymateb i'r cynnydd yn ein llwyth gwaith ac rydym wedi recriwtio ar raddfa fawr am y tro cyntaf ers bron i ddegawd.



Graham Farrant

Gan adeiladu ar y 150 o recriwtiaid newydd a groesawyd y llynedd, gan gynnwys 80 o brentisiaid, eleni roedd 330 o gydweithwyr newydd wedi ymuno â'r Gofrestrfa Tir, gan gynnwys 57 o brentisiaid eraill.

Ond dydyn ni ddim wedi aros yn y fan honno; rydym yn blaenoriaethu'r ceisiadau mwyaf brys ac wedi lansio dyfais tracio ar-lein newydd, Application Enquiry, er mwyn i gwsmeriaid allu gweld sut mae eu cais yn mynd rhagddo.

Mae Application Enquiry yn un enghraifft yn unig o'r cynnydd a wnaethpwyd i ddigideiddio'r gofrestr a gwasanaethau cofrestru. Erbyn hyn rydym yn delio â bron pob un o'n ceisiadau yn electronig, gyda 94 y cant yn cael eu derbyn trwy e-wasanaethau Busnes, ac rydym yn sganio'r ceisiadau papur sy'n weddill er mwyn i'n timau allu eu trin yn yr un ffordd.

Yn ystod 2015/16 gwnaethpwyd cynnydd da ar greu gwasanaeth Pridiannau Tir digidol, gwasanaeth gweld y gofrestr ddigidol a gwasanaeth morgais digidol yn ogystal â dechrau gweithio ar blatfform technoleg newydd i ffurfio'r sail ar gyfer pob un o'n gwasanaethau. Mae'r rhain wedi cael eu lansio bellach naill ai fel cynhyrchion byw neu 'betas' ac rydym eisoes yn cael adborth cadarnhaol gan ein cwsmeriaid - gan wella ein galluoedd digidol a TG ymhellach.

Ar y nodyn hwnnw cefais y pleser o fod yng nghwmni aelodau o'r tîm a ddatblygodd ein gwasanaeth arloesol MapSearch ym Mhalas Buckingham i dderbyn Gwobr Gwasanaeth Sifil 2015 yn y categori Digidol, gan adeiladu ar y wobr a enillom yn y categori Arloesi y flwyddyn flaenorol. Roedd yn anrhydedd siarad ag

Ei Mawrhydi y Frenhines am MapSearch a sut y mae'n ei gwneud hi'n gyflymach, yn haws ac yn rhatach i'n cwsmeriaid busnes wirio'r gofrestr a chael manylion am eiddo. Rydym yn falch iawn hefyd i fod yn rhan o Civil Service Live eleni lle y byddwn yn rhannu ein profiadau o MapSearch â gweision sifil o bob cwr o'r wlad.

Gwnaethpwyd cynnydd da hefyd ar adeiladu cofrestr ddigidol sengl ar gyfer Pridiannau Tir lleol o dan y pwerau a roddwyd inni gan Ddeddf Seilwaith 2015, ac rydym newydd lansio ail ymgynghoriad i geisio barn ein budd-ddeiliaid ar fanylion ei gweithredu. Gan weithio gyda'r 326 o awdurdodau lleol yn Lloegr sydd â data Pridiannau Tir Lleol, bwriadwn wella'n sylweddol cyflymder a chysondeb y gwasanaeth i'n cwsmeriaid. Rydym yn ariannu'r rhaglen £190 miliwn o'n cronfeydd wrth gefn ac roedd yn bleser cwrdd â nifer o'r budd-ddeiliaid yn ein cynhadledd Pridiannau Tir Lleol gyntaf ym mis Tachwedd.

Rydym eisoes yn brif ddaliwr a chyhoeddwr data diolch i faint a chyfoeth y Gofrestr Tir. Rhyddhawyd pedwar set ddata newydd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys set ddata Cwmnïau Tramor sy'n cyflawni addewid y Prif Weinidog i gael mwy o dryloywder ar eiddo yn y DU sydd ym mherchnogaeth dramor.

Darparwyd mwy o sefydlogrwydd i'r Tîm Gweithredol drwy benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol parhaol, John Abbott. Ymunodd John â ni o'r Arolwg Ordnans ym mis Ionawr gan olynu Jon Parry yn y rôl honno, ac mae hefyd yn cymryd drosodd y cyfrifoldebau lefel Bwrdd ar gyfer Systemau Gwybodaeth yn dilyn ymddeoliad Rowland Coombs. Hoffwn i gofnodi fy niolch i Rowland a Jon am eu cyfraniadau i'r Gofrestrfa Tir.


Hoffwn i ddiolch i'n Cadeirydd Anweithredol sy'n ein gadael, Mark Boyle, am ei ymdrechion diflino i lywio'r Gofrestrfa Tir a chyflawni rhai mesurau effeithlonrwydd a gwelliannau go iawn yn ein gwasanaethau, gan gynnwys yr ymdrech i fod yn fwy digidol, ac am ei gymorth personol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Erbyn hyn mae ein safle ar bob lefel o'r sefydliad wedi cryfhau er mwyn inni allu wynebu'r heriau sydd o'm blaenau. Mae pawb o'n prentisiaid i'n cyfarwyddwyr yn cydweithio gydag ymdeimlad newydd o bwrpas i wireddu ein gweledigaeth a'n gwerthoedd.

Yn dilyn Datganiad yr Hydref y Canghellor, mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar yr opsiynau i symud gweithrediadau'r Gofrestrfa Tir i'r sector preifat o 2017. Mae'r cyfarwyddwyr a minnau wedi gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar weithrediadau arferol y Gofrestrfa Tir a gweithio yr un pryd gyda'r llywodraeth ar asesu'r opsiynau ac ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbynnir.

Mae'n bosib mai hwn fydd y newid mwyaf i'r Gofrestrfa Tir ers iddi gael ei chreu yn 1862 ond wrth fwrw golwg ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni eleni rwy'n ffyddiog ein bod yn barod ar gyfer pa bynnag opsiwn y bydd y Llywodraeth yn ei ddewis.

Roedd canlyniad y refferendwm a gynhaliwyd ar 23 Mehefin o blaid y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae effaith y penderfyniad hwn ar economi'r DU yn ansicr. Mae incwm busnes a ffïoedd y Gofrestrfa Tir yn gysylltiedig â lefelau gweithgarwch yn y farchnad eiddo ehangach yn ogystal â phrisiau eiddo ac felly bydd rhaid inni ystyried sut y gallai hyn effeithio ar ein cynllunio ariannol yn y tymor canolig a phenderfynu a oes angen inni addasu ein strategaeth adnoddau a lefelau ffïoedd er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau fel cronfa fasnachu. Yn y tymor byr mae digon o gronfeydd arian parod gan y busnes i reoli effaith uniongyrchol unrhyw ostyngiad mewn incwm.



**Graham Farrant**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
28 Mehefin 2016

# Datganiad o bwrpas a gweithgareddau'r sefydliad

Sefydlwyd Cofrestrfa Tir Ei Mawrhydi yn 1862. Rydym yn adran anweinidogol o'r llywodraeth, yn asiantaeth weithredol (er 1990) ac yn gronfa fasnachu (er 1993) nad yw'n defnyddio unrhyw arian a ddyfarnwyd gan y Senedd. Yn ôl statud mae'n ofynnol inni sicrhau bod ein hincwm o ffïoedd yn cwmpasu ein holl wariant o dan amodau gweithredu arferol.

O 2011 mae rhai swyddogaethau statudol yn ymwneud â'r Gofrestrfa Tir wedi'u breinio yn yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau. O fewn ei adran ein gweinidog nawdd yw'r Gweinidog dros Fusnesau Bach, Diwydiant a Menter.

Ein prif swyddogaeth yw cadw cofrestr o deitl i dir a phridiannau rhydd-ddaliol a phrydlesol yng Nghymru a Lloegr a chofnodi deliadau â thir pan fydd wedi'i gofrestru. Ar ran y Goron rydym yn gwarantu teitl i ystadau cofrestredig a buddiannau mewn tir.

Mae'r adroddiad hwn yn delio â'r adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol ar wahân i'n prif fusnes ond mae'r cyfrifon wedi'u rhoi ar gyfer y Gofrestrfa Tir gyfan (gweler nodyn 2 yn y cyfrifon).

Mae ein swyddogaethau yn statudol yn llwyr. Nid oes unrhyw bwerau uchelfreiniol gennym. Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi'r pŵer inni ddelio â'r "busnes o gofrestru o dan y Ddeddf hon" a hwn yw ein prif statud llywodraethol.

Mae Deddf Seilwaith 2015 yn golygu mai'r Gofrestrfa Tir yw'r unig awdurdod cofrestru ar gyfer Pridiannau Tir Lleol.  Ar hyn bryd rydym yn gweithio ar ddarparu gwasanaeth digidol canoledig sengl ar gyfer Pridiannau Tir Lleol a bydd pwerau ehangach gennym na'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Cofrestru Tir 2002 i ddatblygu gwasanaethau newydd er budd y farchnad eiddo ehangach.

Y Prif Gofrestrydd Tir yw pennaeth y Gofrestrfa Tir, wedi'i benodi o dan statud gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau. Mae'r Prif Gofrestrydd Tir hefyd yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Gofrestrfa Tir. Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am reoli'r Gofrestrfa Tir yn effeithiol ac yn effeithlon o ddydd i ddydd, yn amodol ar ffiniau ariannol a deddfwriaethol. Rhoddir manylion llawn am rolau a chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Prif Gofrestrydd Tir yn ein dogfen fframwaith 2012.

Mae gwybodaeth am faint ein gwaith, gan gynnwys y gwaith a dderbynnir ar gyfer gwasanaethau statudol, i'w gweld yn Atodiad A ac Atodiad B.

# Incwm ffïoedd a pherfformiad busnes

**Incwm**
Cynhyrchwn incwm o'n gwasanaethau statudol a gwasanaethau masnachol.

Mae adran 102 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn datgan y gall ffïoedd gael eu rhagnodi ar gyfer 'deliadau' â'r Gofrestrfa Tir. Mae hyn yn cwmpasu ffïoedd ar gyfer ein gwasanaethau statudol, sef y ceisiadau hynny i'r Gofrestrfa Tir mewn perthynas â chofrestru tir, fel ceisiadau i gofrestru trosglwyddiad neu arwystl eiddo neu i gael copi swyddogol o'r gofrestr.

Mae'r awdurdod ar gyfer lefel y ffïoedd ar geisiadau i'r Gofrestrfa Tir yn deillio o'r gorchymyn ffi a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau o dan adran 102 ac a roddwyd gerbron y Senedd. Mae gorchmynion yn cael eu gwneud gyda chyngor a chymorth Pwyllgor Rheolau Cofrestru Tir (corff cyhoeddus anadrannol cynghorol sy'n cynrychioli buddiannau budd-ddeiliaid a chyfreithiol) a chydsyniad Trysorlys EM. Sefydlwyd ein ffïoedd cyfredol o dan Orchymyn Ffi Cofrestru Tir 2013.

Mae'r gorchymyn ffi yn gymwys i geisiadau ar gyfer: cofrestru teitl i dir am y tro cyntaf ('cofrestriadau cyntaf'); prydlesi gwaredol cyntaf; trosglwyddiadau o ran o dir cofrestredig; ceisiadau sy'n effeithio ar deitl cofrestredig ('deliadau'); ac amrywiaeth o wasanaethau sy'n ymwneud ag archwilio, copïau a chwiliadau o'r gofrestr.

Yn unol â'r egwyddorion a sefydlwyd yn Rheoli Arian Cyhoeddus mae'r Gofrestrfa Tir yn cynnal adolygiad o ffïoedd a thaliadau yn ystod 2016/17, gan ystyried y gwargedion ariannol diweddar a'n cynlluniau ariannol yn y dyfodol.

**Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol**
O dan y Ddeddf Pridiannau Tir 1972, cadwn gofrestri o Bridiannau Tir, gweithredoedd sy'n aros, gwritiau a gorchmynion sy'n effeithio ar dir a llyffetheiriau eraill wedi'u cofrestru yn erbyn enwau perchnogion eiddo, sydd heb eu cofrestru o dan y Deddfau Cofrestru Tir. O dan adran 16 o'r Ddeddf, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau yr awdurdod i osod ffïoedd trwy gyfrwng offeryn statudol gyda chydsyniad Trysorlys EM. Mae'r ffïoedd cyfredol wedi'u pennu yn Rheolau Ffïoedd Pridiannau Tir 1990 fel y'u diwygiwyd gan Reolau Ffïoedd Pridiannau Tir (Diwygiad) 1994.

Yn ogystal, o dan Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928 cadwn gofrestr o bridiannau amaethyddol a wnaed o dan Ran II o'r Ddeddf. O dan Adran 9 o'r Ddeddf, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau yr awdurdod i osod ffïoedd trwy gyfrwng offeryn statudol gyda chydsyniad Trysorlys EM. Mae'r ffïoedd cyfredol wedi'u gosod yng Ngorchymyn Ffïoedd Credydau Amaethyddol 1985.

**Incwm masnachol**
Rhoddodd adran 105 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 awdurdod i'r Prif Gofrestrydd Tir "ddarparu, neu drefnu i ddarparu, gwasanaethau ymgynghori neu gynghori ar gofrestru tir yng Nghymru a Lloegr neu fan arall". Mae adran 35 o Ddeddf Seilwaith 2015 yn ehangu'r pwerau hyn er mwyn galluogi'r Gofrestrfa Tir i ddarparu (a) gwasanaethau ymgynghori a chynghori ar dir ac eiddo arall yng Nghymru a Lloegr neu fan arall a (b) gwasanaethau gwybodaeth a gwasanaethau sy'n ymwneud â dogfennau neu gofrestri, sy'n gysylltiedig â thir neu eiddo arall yng Nghymru a Lloegr.

Sefydlwyd ein swyddogaeth Gwasanaethau Masnachol yn 2004 o dan awdurdod adran 105 at y dibenion o nodi ffyrdd o roi mynediad mwy effeithiol i'n data a hefyd ychwanegu gwerth trwy greu gwasanaethau penodol.

Yn dilyn hyn mae ffocws gweithgarwch masnachol wedi newid o ddatblygu gwasanaethau masnachol newydd a chynhyrchu refeniw i ddarparu mynediad gwell i ddata trwy gyhoeddi setiau data.

Ar hyn o bryd cynigiwn 17 o gynhyrchion o fewn ein portffolio masnachol, o dan fodel prisio cymysg, gan gynnwys amrywiaeth o wasanaethau glanhau data, dilysu gofodol a dilysu data.

Cydymffurfiwn â'n dyletswydd i beidio â chroes-gymorthdalu ein gwasanaethau masnachol gydag incwm ffïoedd mewn perthynas â'n gwasanaethau statudol. Gall costau datblygu ar gyfer cynhyrchion newydd gael eu cyllido gan enillion arian parod ond mae'r costau hyn yn cael eu hadennill o refeniw yn y dyfodol. Yn unol â *Rheoli Arian Cyhoeddus Atodiad 6.2 Codi Tâl am Wybodaeth*, mae'r taliadau ar gyfer y rhan fwyaf o'n gwasanaethau masnachol yn cael eu gosod ar sail 'cost plws', ond mae rhai yn adlewyrchu cyfradd y farchnad. Mae prisio cyhoeddi data yn seiliedig ar dair egwyddor data agored: am ddim, adennill costau a threialu mynediad.

## Strategaeth

Cymeradwywyd ein Strategaeth Fusnes gan weinidogion yn Rhagfyr 2012 ond rydym wedi bod yn diweddaru'r elfennau cost yn ystod y flwyddyn hon. Mae'r amcanion wedi'u hamlinellu o fewn y datganiadau Llywodraethu yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

Ein gweledigaeth a'n gwerthoedd

# Eich hawliau tir ac eiddo: wedi eu gwarantu a'u gwarchod

### Rydym yn rhoi sicrwydd

Rydym yn gwarantu'n gwasanaethau ac yn rhoi hyder i'r farchnad eiddo

### Mae gennym unplygrwydd

Rydym yn gweld gwerth mewn gonestrwydd, ymddiriedaeth a gwneud y peth iawn yn y ffordd iawn

### Rydym yn ysgogi arloesedd

Rydym yn flaengar, yn croesawu newid ac yn gwella ein prosesau'n barhaus

### Rydym yn broffesiynol

Rydym yn gwerthfawrogi ac yn meithrin ein gwybodaeth a'n harbenigedd proffesiynol

# Ein targedau strategol 2013-2018

Roedd Strategaeth Fusnes 2012 wedi gosod 12 targed i'w cyflawni dros y cyfnod o bum mlynedd.

| Targed gwreiddiol | Perfformiad disgwyliedig hyd at 2018 |
|---|---|
| 99 y cant o wasanaethau gwybodaeth a 60 y cant o wasanaethau cofrestru i'w cyflwyno'n electronig erbyn 2017/18 | Wedi'i gyflawni |
| Digideiddio data chwilio tir lleol a lleihau cost gyfartalog chwiliadau lleol gan 20 y cant, gan wella cyflymder cyfartalog y gwasanaeth gan ddau ddiwrnod erbyn 2017/18 | Digideiddio data chwilio tir lleol a lleihau cost gyfartalog chwiliadau lleol gan 20 y cant, gan wella cyflymder cyfartalog y gwasanaeth gan ddau ddiwrnod erbyn 2017/18, ar gyfer yr awdurdodau hynny lle mae'r Prif Gofrestrydd Tir wedi rhoi rhybudd o gyfrifoldeb |
| Cynnydd o 60 y cant mewn cynhyrchiant wedi'i ysgogi gan ddigidol yn ddiofyn erbyn 2017/18 | Cynnydd o 45 y cant mewn cynhyrchiant erbyn 2017/18 |
| Talu difidend arbennig o £100m yn 2013/14 a chynllunio i dalu £100m pellach yn 2014/15 yn dibynnu ar gyflwr y farchnad | Wedi'i gyflawni |
| Gweithredu model cynaliadwy i wneud 100 y cant o ddata trwyddadwy ar gael i bawb erbyn 2017/18 naill ai am ddim neu am gost ymylol | Yn parhau i fod yn darged allweddol ond yr amseru'n cael ei adolygu nes daw penderfyniad ynghylch y posibilrwydd o breifateiddio |
| Mynediad i ddata wedi'i ddarparu i bob cwsmer trwy gais ar-lein yn 2013/14 | Wedi'i gyflawni |
| 100 y cant o'r holl ddata trwyddedig ar gael i safon data W3 lefel 4 erbyn 2017/18 | Yn parhau i fod yn darged allweddol ond yr amseru'n cael ei adolygu nes daw penderfyniad ynghylch y posibilrwydd o breifateiddio |
| Boddhad cwsmeriaid i'w gynnal ar ddim llai na 96 y cant | Cynnal y targed ar 90 y cant |
| Sgôr Hyrwyddwr Net i'w gynnal ar ddim llai na 50 y cant erbyn 2017/18 | Targed wedi'i ddileu |
| Cyflwyno gwasanaeth rhybudd eiddo am ddim i'r cyhoedd erbyn 2013/14 | Wedi'i gyflawni (fel Property Alert) |
| Recriwtio i gryfhau'r Tîm Gweithredol a gwell cyfatebiaeth mewn atebolrwydd er mwyn cyflawni'r Strategaeth Fusnes erbyn diwedd 2013/14 | Wedi'i gyflawni |
| Lefelau ymgysylltu â gweithwyr yn hanner uchaf y Gwasanaeth Sifil erbyn diwedd 2014/15 | Heb ei gyflawni |

Cyflawnwyd pump o'r targedau strategol. Dilëwyd y targed ar gyfer y sgôr hyrwyddwr net ac addaswyd y targed boddhad cwsmeriaid, y ddau yng nghyd-destun darparu gwasanaeth digidol, yn hytrach na darparu gwasanaeth cwsmeriaid pwrpasol.

Gwnaethpwyd cynnydd da ar ein targedau strategol eraill a thrwy fesur ein hunedau a broseswyd fesul swydd fesul diwrnod yn erbyn cyllideb Cynllun Busnes 2012/13 cyflawnwyd gwelliant effeithlonrwydd o 35.8 y cant hyd at 31 Mawrth 2016.



Gweithwyr achos yn archwilio cais am brydles waredol gyntaf.  Mae cofrestru'r brydles yn cynnwys creu cynllun teitl a chofrestr newydd

## Materion a risgiau allweddol

Yn yr Adolygiad Gwariant a Datganiad yr Hydref 2015, cyhoeddodd y Llywodraeth ei bwriad i "ymgynghori ar yr opsiynau i symud gweithrediadau'r Gofrestrfa Tir i'r sector preifat o 2017" ac ailadroddwyd yr ymrwymiad hwn yn y Gyllideb ym mis Mawrth 2016.  Mae'r Gofrestrfa Tir yn gwneud paratoadau priodol ar gyfer unrhyw bontio a newid statws, gan barhau i ganolbwyntio yr un pryd ar weithgareddau cofrestru tir beunyddiol.

Ar hyn o bryd mae 15 risg strategol, pedwar ohonynt o fewn yr archwaeth risg penodedig o ran effaith a thebygolrwydd.  Y risg mwyaf arwyddocaol yw nad oes gennym y nifer iawn o bobl sydd â'r sgiliau iawn i ateb anghenion busnes nawr ac yn y dyfodol.  Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â staff rheng-flaen a'r angen i leihau'r gwaith sy'n aros i'w wneud a'r heriau i uwch aelodau o staff sy'n ymwneud â'r ffrydiau gwaith sy'n codi o'r pontio a newid statws.  Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn y datganiad Llywodraethu.

## Esboniad o'r sail busnes gweithredol a rhwymedigaethau arwyddocaol

Y Gofrestrfa Tir yw darparwr statudol gwasanaethau cofrestru tir ac mae galw parhaus am y gwasanaethau hynny; ar gofrestru tir statudol, ar Gredydau Amaethyddol ac ar Bridiannau Tir.


Y rhagolygon ar gyfer maint y gwaith ar gyfer 2016/17 yw 31.4 miliwn o geisiadau sy'n cyfateb i 12.6 miliwn o unedau, sy'n fwy nag yn 2015/16; ac nid oedd unrhyw anawsterau ariannol yn 2015/16 o dan y gorchymyn ffïoedd sydd yn ei le.

Gall darparu gwasanaethau'r Gofrestrfa Tir newid o ran model gweithredu ond nid oes unrhyw risg mwy i weithgareddau parhaus y sefydliad.  Nid yw ein cynlluniau ariannol tymor canolig yn rhoi unrhyw arwydd bod risg cynyddol ar hyn o bryd i'r galw am wasanaethau cofrestru tir.

# Ffigurau'r flwyddyn hon

## Nifer y gweithwyr ar 31 Mawrth

**4,486**




Cyfwerth ag amser llawn cyfartalog 4,035


gan gynnwys **119** o brentisiaid

## Sgôr boddhad cwsmeriaid

**94%**



## Nifer y gwobrau



ar gyfer **amrywiaeth** (Rhwydwaith Cyflogwyr ar gyfer Cydraddoldeb a Chynhwysiant), **MapSearch** (Gwobr Digidol y Gwasanaeth Sifil) a **Lean** (y Sefydliad dros Welliant Parhaus mewn Gwasanaethau Cyhoeddus)

## Cyfanswm y ceisiadau am wasanaethau

Cyfanswm 30,020,012

Electronig 28,224,225

Teitlau cofrestredig

# 24.5 miliwn



Tir cofrestredig

# 87.9%

O 15.4m hectar yng Nghymru a Lloegr



Incwm

## £295m

Costau gweithredu

## £254m

Gwarged a gedwir

## £21.1m

Difidend

## £13.6m

# Golwg ar y flwyddyn hon

## Rydym yn rhoi sicrwydd

Mae marchnad eiddo fywiog yn golygu bod cofrestriadau wedi codi am y chweched flwyddyn yn olynol. I geisio ymdopi â'r cynnydd yn ein llwyth gwaith rydym wedi:

- ymgymryd â'n rhaglen recriwtio fwyaf ers yn hwyr yn y 2000au, gan groesawu mwy na 250 o recriwtiaid parhaol a 57 o brentisiaid
- galw ar arbenigedd ac ymroddiad ein staff a ymatebodd drwy gynyddu cynhyrchiant swyddfeydd lleol gan 1.6 y cant
- cynyddu oriau goramser a symud staff sydd â phrofiad addas yn ôl i rolau gwaith achos
- canoli'r gwaith o brosesu rhai mathau o geisiadau i'w gwneud yn fwy effeithlon
- gwella a datblygu ein dewis o wasanaethau digidol.

**Llai costus, mwy effeithlon**
Mae darparu copïau swyddogol o'r gofrestr a gweithredoedd cysylltiedig yn rhan hanfodol o'r broses drawsgludo, gyda thua 10 miliwn o geisiadau'r flwyddyn. Trwy ganoli'r gwaith o brosesu mathau o geisiadau mewn timau arbenigol, cyfuno ffeiliau wedi'u storio gan gyflenwyr lluosog i greu un cyflenwr, cyflwyno technoleg sganio newydd a hyrwyddo dewisiadau digidol eraill ar gyfer cwsmeriaid, rydym wedi lleihau nifer y staff o 116 o bobl ar draws 14 lleoliad o 2012/13 i 56 o bobl mewn un swyddfa heddiw. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â phapur, argraffu a thâl post wedi gostwng o £1.57m y flwyddyn i £0.57m. Cynyddodd ceisiadau digidol ar gyfer gweithredoedd cysylltiedig o 68 y cant i 96 y cant.

Wynebodd rhai cwsmeriaid amserau cwblhau cofrestru hwy na'r hyn a gawsant yn y gorffennol wrth inni weld cynnydd yn ein gwaith ar y gweill, yn enwedig gwaith oedd yn cynnwys cofrestru teitlau newydd, ac wrth i'r galw gynyddu. Rydym wedi:

- parhau i flaenoriaethu ceisiadau sy'n ofynnol ar gyfer trafodion eiddo a cheisiadau morgais, gyda 98 y cant o'r ceisiadau am wasanaethau gwybodaeth wedi'u prosesu o fewn dau ddiwrnod
- lansio ein gwasanaeth newydd, am ddim Application Enquiry sy'n golygu y gall ein cwsmeriaid busnes weld sut mae eu ceisiadau ar-lein yn mynd rhagddynt
- rhagori ar ein targed o 98 y cant ar gyfer ansawdd ein cofrestriadau.

Roedd boddhad cwsmeriaid o 94 y cant am y flwyddyn wedi rhagori ar ein targed yn gyffyrddus.

Mae'r Gofrestr Tir wedi tyfu'n raddol ers iddi gael ei chreu yn 1862 ond yn y blynyddoedd diwethaf mae nifer y teitlau a ychwanegwyd bob blwyddyn wedi cyflymu. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi:

- ychwanegu 1 y cant o ehangdir Cymru a Lloegr bob chwe mis, gan symud yn agosach i 88 y cant
- cynyddu nifer y teitlau yn y gofrestr i bron 24.5 miliwn

Rydym wedi parhau i gryfhau ein gweithgarwch a mesurau atal twyll, gyda:

- nifer y cyfrifon Property Alert gweithredol wedi dyblu bron i ychydig llai na 30,000
- ein Llinell Twyll Eiddo yn dathlu ei drydydd ben-blwydd ar ôl derbyn bron 3,000 o alwadau a negeseuon e-bost gan y cyhoedd oedd yn ceisio cymorth i ddiogelu eu cartrefi
- cynhadledd atal twyll allanol gyda siaradwyr yn cynnwys yr Heddlu Metropolitan
- Wythnos Ymwybyddiaeth Twyll fewnol yn hyrwyddo negeseuon allweddol
- staff yn ymuno â'r heddlu i ddosbarthu taflenni i'r cyhoedd fel rhan o'r ymgyrch Operation Rogue Trader.

Mae ein cyfreithwyr wedi gweithio gyda Chomisiwn y Gyfraith ar adolygiad o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 a allai fod â goblygiadau arwyddocaol i'n harferion yn y dyfodol, ac roeddent wedi cynrychioli'r Gofrestrfa Tir yn achos anaml yn y Llys Apêl, *Swift 1st Limited v Prif Gofrestrydd Tir*, a eglurodd agweddau pwysig ar y gyfraith indemniad.

**Trawsgludo cyflymach**
Mae ein Rhaglen Pridiannau Tir Lleol yn cael ei hystyried yn elfen bwysig gan y Llywodraeth yn yr ymdrech i wella'r broses drawsgludo a rhoi sicrwydd i'r farchnad eiddo. Gall chwilio am Bridiannau Tir Lleol - sy'n rhwymedigaethau cyfrwymol, gwaharddiadau neu gyfyngiadau ar eiddo - cyn gwerthu fod yn araf ac yn gostus. Drwy ddarparu cofrestr Pridiannau Tir Lleol sengl ar gyfer Lloegr o dan y pwerau a roddwyd inni gan Ddeddf Seilwaith 2015, byddwn yn rhoi hyder a chysondeb i gwsmeriaid. Rydym wedi dechrau adeiladu'r gofrestr, gan weithio gyda'r 326 o awdurdodau lleol yn Lloegr sy'n cadw'r data ar hyn o bryd.

## Mae gennym unplygrwydd

Hon oedd y flwyddyn gyntaf i bob un o'n ceisiadau gael eu trin yn electronig, naill ai fel cyflwyniadau digidol neu drwy flaen-sganio, heblaw cofrestriadau cyntaf oherwydd nid ydym yn sganio gweithredoedd. Cyflawnwyd hyn diolch i:

— effeithiolrwydd e-wasanaethau Busnes

— poblogrwydd ein disgownt o 50 y cant ar gyfer ceisiadau electronig

— llwyddiant ein gwasanaeth sganio o ran troi ceisiadau papur yn ddogfennau electronig

— datblygu rôl ein system 'llif gwaith' rheoli achosion i ddosbarthu gwaith symudol electronig o gwmpas y sefydliad.

Adolygwyd ein cynnydd yn erbyn ein Strategaeth Fusnes a diweddarwyd ein gweledigaeth a'n gwerthoedd i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn gyson trwy'r sefydliad cyfan. Cafodd pob aelod o staff gyfle i leisio barn ar eu datblygiad a chynhaliwyd rhaglen hyfforddi gynhwysfawr i sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol o'r weledigaeth a'r gwerthoedd.

**Amgylchedd gwaith modern**
Symudodd Swyddfa Coventry o'i chartref 20 mlynedd yn Leigh Court er mwyn i ysgol rydd allu cymryd ei lle. Symudodd ein gweithrediadau i Earlsdon Park yng nghanol y ddinas a thrawsffurfiwyd yr amgylchedd gwaith i'r 200 a mwy o staff trwy ddefnyddio dulliau gweithio mwy modern, gan gynnwys desgiau poeth a gwella technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Cynhelir cyfarfodydd tîm dyddiol ar sgriniau plasma gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn hytrach nag o flaen wal o allbrintiau papur. Rhannwn yr adeilad a'r cyfleusterau â chydweithwyr Gwasanaeth Sifil o'r Adran Addysg a'r Ombwdsman Llywodraeth Leol.

**Gwelliant parhaus**
Mae ein hadnodd dysgu 'Coventry GoSee' yn helpu staff i ddeall sut i gymhwyso egwyddorion gwelliant parhaus yn effeithiol. Mae taith tywys o Coventry yn dangos prosesau 'darbodus' mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn. Drwy roi cyfranogwyr yn rôl y cwsmer gallant weld lle mae gwastraff yn digwydd, arsylwi ar y llif gwaith a chanfod ffyrdd o wella boddhad cwsmeriaid. Maent yn gweld achosion da a drwg o feddwl trwy systemau, rheolaeth weledol a delio ag oedi, yn ogystal â llawer o enghreifftiau o reoli llif gwaith ac amrywiad yn y galw a gwastraff. Enillodd y prosiect Wobr Arloesi Arbennig 2016 y Sefydliad dros Welliant Parhaus mewn Gwasanaethau Cyhoeddus.

Roedd cydweithredu ar draws y sefydliad wedi helpu i ganfod arbedion gwerth miliynau o bunnoedd i gwrdd â'n targed o weld gostyngiad o 5 y cant mewn costau rhedeg. Roedd ein mesurau effeithlonrwydd yn cynnwys:

— gostyngiad o £1.7m mewn costau hurio, cynnal a chadw a dibrisio cyfrifiaduron drwy ganfod ffyrdd mwy cost-effeithiol o newid ein hoffer

— gostyngiad o £0.6m mewn costau cyfleustodau a diogelwch wrth inni leihau maint ein hystad o dan ein Strategaeth Ystadau

— gostyngiad o £0.5m yn ein gwariant ar gontractau gyda'r rhwydwaith cyflenwi DX

— gostyngiad o £0.9m mewn gwariant ar sganio dogfennau papur wrth i'w nifer barhau i leihau.



Press Association Images

Ei Mawrhydi y Frenhines yn siarad am ein gwasanaeth arobryn MapSearch yng nghwmni'r Arweinydd Newid Gweithrediadau a Chyflenwi Keith Hurst, y Dadansoddwr Busnes Amanda Light, y Perchennog Cynnyrch Ian Howe a'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Graham Farrant.

## Rydym yn ysgogi arloesedd

Rydym wedi gwella ein gallu a pherfformiad digidol wrth inni symud yn agosach at ein huchelgais o fod yn ddigidol yn ddiofyn.  Rydym wedi:

- datblygu gwasanaethau newydd drwy egwyddorion ystwyth mewn timau amlddisgyblaethol sy'n dod â'u harbenigedd ynghyd i ddatrys problemau a chymryd y gwasanaeth trwy ymchwil a phrofi cwsmeriaid, adeiladu prototeip a lansio
- gweithio gyda Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth i brofi ein prototeipiau yn erbyn y safonau uchaf
- sicrhau bod ein cwsmeriaid yn gallu gwneud cais yn electronig bob tro drwy sicrhau perfformiad sydd bron yn berffaith ar argaeledd e-wasanaethau, a'u bod yn rhedeg 99.96 y cant o'r amser pan ddisgwylir iddynt weithredu
- dechrau adeiladu platfform technoleg newydd sy'n gallu cynnal gwasanaethau digidol cynhwysfawr y dyfodol.

Roedd ein gwasanaethau digidol newydd i wella'r broses drawsgludo yn cynnwys ein:

- Cofrestr Methdaliad, sy'n darparu gwasanaeth chwilio gwell i roddwyr benthyg morgeisi ac eraill (lansiwyd Ebrill 2016)
- y gwasanaeth Find Property Information, sy'n golygu y gall unrhyw un chwilio'r gofrestr ar-lein yn ôl eiddo a mewngofnodi i gael manylion pellach (yn cael ei ddatblygu)
- y gwasanaeth Morgais Digidol, sy'n golygu y gall benthycwyr lofnodi eu gweithredoedd morgais yn ddigidol (yn cael ei ddatblygu).

**Cydnabyddiaeth frenhinol**
Arbedodd cwsmeriaid busnes ychydig dros £2 filiwn mewn ffïoedd yn 2015/16 trwy ddefnyddio ein gwasanaeth am ddim MapSearch yn hytrach na chwiliad traddodiadol o'r map mynegai.  Crëwyd yr offeryn mapio ar-lein hwn i alluogi cwsmeriaid busnes i wirio a yw eiddo wedi'i gofrestru, gweld ei leoliad a chael ei rif teitl a manylion y denantiaeth. Gwnaethpwyd ychydig dros bedair miliwn o chwiliadau yn ystod y flwyddyn ond nid ein cwsmeriaid ni oedd yr unig rai i ddangos diddordeb.  Enillodd MapSearch Wobr y Gwasanaeth Sifil yn y categori digidol a chafodd y tîm sy'n cynrychioli'r Gofrestrfa Tir yr anrhydedd o siarad ag Ei Mawrhydi y Frenhines am y gwasanaeth.

Mae rhyddhau data yn ateb y galw am lywodraethu agored a thryloyw ac yn darparu'r deunyddiau crai ar gyfer busnesau arloesol i greu cynhyrchion a gwasanaethau newydd.  Rhyddhawyd pedair set ddata newydd, gan gynnwys:

- Data Pris a Dalwyd Ychwanegol, sy'n golygu bod gwybodaeth am adfeddiannau, eiddo prynu i osod a throsglwyddiadau i unigolion di-breifat ar gael am ddim
- Disgrifydd Polygonau a Theitlau Cenedlaethol, sy'n golygu y gall cwsmeriaid weld, llwytho i lawr a holi ein map mynegai cyfan am y tro cyntaf
- Cwmnïau Tramor, sy'n dangos bod mwy na 100,000 o deitlau rhydd-ddaliol a phrydlesol ym mherchnogaeth cwmnïau corfforedig dramor.

**Mynd i'r afael â llygredd trwy dryloywder**
Roedd rhyddhau'r set ddata Cwmnïau Tramor yn gam pwysig i gyflawni addewid y Prif Weinidog i fynd i'r afael â llygredd ac osgoi talu treth drwy gael mwy o dryloywder corfforaethol.  Rydym yn cofnodi'n gyson a yw cwmni sy'n prynu eiddo wedi cofrestru yn y DU neu dramor.  Fodd bynnag, roedd darparu manylion mwy na 100,000 o deitlau rhydd-ddaliol a phrydlesol yn gamp enfawr i'r tîm, a hynny o fewn amserlen dynn iawn.  Nodwyd mwy na 20,000 o deitlau oedd angen eu hymchwilio a diweddarwyd eu cofnodion ar y gofrestr lle y bo angen, gan gynhyrchu set ddata o safon uchel.

## Rydym yn broffesiynol

Er mwyn gwireddu gweledigaeth ein Strategaeth Fusnes o gael gweithlu o "weithwyr gwybodus hynod broffesiynol a brwdfrydig", rydym wedi:

— buddsoddi yn ein staff presennol, ein recriwtiaid newydd a'n prentisiaid, gan gynyddu'r nifer cyfartalog o ddiwrnodau hyfforddi fesul gweithiwr o 5.2 i 7.1

— mabwysiadu Strategaeth Bobl gyda mewnbwn o bob rhan o'r sefydliad, gan sicrhau bod y gweithlu yn glir ynghylch eu blaenoriaethau ac yn canolbwyntio ar gyflawni, a bod y gallu, y capasiti a'r diwylliant gennym i drawsnewid yn ddigidol ac yn dechnegol

— cael llawer mwy o ddealltwriaeth fanwl o'n hanghenion adnoddau drwy ddatblygu cynllun ar gyfer y gweithlu a chynllun recriwtio tactegol

— creu fframwaith newid sy'n rhoi pobl wrth wraidd prosesau newid

— annog amrywiaeth, gan gyrraedd safle 61 yn rhestr 100 Uchaf Stonewall ac ennill yn y categori Gweithlu Cynrychioliadol yng Ngwobrau Rhwydwaith Cyflogwyr ar gyfer Cydraddoldeb a Chynhwysiant

— cydnabod unigolion eithriadol yng Ngwobrau cyntaf LR Leisure People, gyda'r rheolwyr yn gweithio gyda Phwyllgor LR Leisure

Yn sgil y cynnydd mewn llwythi gwaith, nifer fawr o staff yn agosáu at oedran ymddeol a'r angen am sgiliau digidol newydd, ni fu erioed mor bwysig i gynllunio ar gyfer recriwtio yn y dyfodol. Roedd ein recriwtiaid yn cynnwys:

— swyddogion gweithredol gwaith achos parhaol o fewn a'r tu allan i'r Gwasanaeth Sifil

— 57 o brentisiaid i ymuno â'r 78 a gyrhaeddodd y flwyddyn flaenorol. Ein cynllun yw un o'r mwyaf a mwyaf cynhyrchiol yn y llywodraeth gyda'r prentisiaid yn gweithio ar waith achos byw o'r cychwyn cyntaf yn eu prentisiaeth ddwy flynedd. Maent wedi dangos eu gwerth nid yn unig o ran gwaith achos ond hefyd o ran eu profiad o weithio'n ddigidol ac ym maes datblygu systemau. Mae rhai eisoes wedi cael swyddi gweithredol parhaol

— 16 cyfreithiwr newydd i wella ein harbenigedd cyfreithiol. Roedd eu hyfforddiant yn broses ddwyffordd wrth iddynt ddod â sgiliau a gwybodaeth newydd i'r Gofrestrfa Tir, fel ymwybyddiaeth ddigidol a phrofiad diweddar o ymgyfreitha mewn practis preifat.

**Diweddaru hyfforddiant**
Mae bwlch hir wedi bod ers ein rhaglen recriwtio ddiwethaf ar raddfa eang felly roedd angen inni ailwampio'r cwrs hyfforddi yn llwyr ar gyfer ein gweithwyr achos newydd. Roedd llawer o'r deunyddiau hyfforddi presennol wedi dyddio ac roedd technoleg wedi datblygu. Roedd tîm traws-swyddfa wedi cynllunio ac adeiladu pecyn newydd o fewn dyddiad cau tynn o ddau fis. Roedd rheolwyr, hyfforddwyr a 'chyfeillion' ym mhob swyddfa recriwtio wedi ei ddefnyddio fel sail ar gyfer eu rhaglen hyfforddi gan ddysgu yr un pryd o'u profiadau eu hunain a phrofiadau eu cymheiriaid wrth iddynt roi'r pecyn hyfforddi ar waith.

Roedd ein lefelau ymgysylltu â staff wedi gwella'n gyson er gwaethaf heriau'r flwyddyn. Rydym wedi:

— cynnal arolygon Pwls bob chwarter

— cyhoeddi blogiau rheolaidd gan y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr

— annog staff i gynnig sylwadau yn rhydd ac yn gyhoeddus mewn ymateb i'r blogiau

— creu system Cyfathrebiadau Unedig sy'n cynnig modd i staff gyfathrebu a chydweithio â'i gilydd o'u desgiau drwy fideo, dulliau clywedol neu negeseua uniongyrchol a rhannu ar-sgrin.

# (b) Dadansoddiad perfformiad

## Dangosyddion perfformiad allweddol a cherrig milltir blynyddol

Cymeradwywyd y dangosyddion perfformiad a'r cerrig milltir gan y Gweinidog ac maent yn cyfateb â'r gwerthoedd strategol newydd a sefydlwyd fel rhan o ddiweddaru'r Strategaeth Fusnes. Maent yn mesur agweddau allweddol ar y busnes beunyddiol ynghyd â'r cerrig milltir newid arfaethedig sy'n cefnogi'r Strategaeth Fusnes.

| Dangosydd perfformiad allweddol/amcan blynyddol | | Perfformiad |
|---|---|---|
| **Rydym yn rhoi sicrwydd** | | |
| S1 | Canran y cwsmeriaid sy'n dweud bod ein gwasanaeth cyffredinol yn dda, yn dda iawn neu'n ardderchog i gyrraedd 90 y cant | 94% |
| S2 | Cofrestriadau safonol i basio o leiaf 98 y cant o'r gwiriadau ansawdd diffiniedig | 98.06% |
| **Mae gennym unplygrwydd** | | |
| U1 | Gostyngiad o 5 y cant mewn costau cynnal o'i gymharu â'r gyllideb ar gyfer 2014/15 | Wedi'i gyflawni |
| U2 | Cost yr uned i fod yn £19.91 (yn seiliedig ar niferoedd arfaethedig o 11.8 miliwn o unedau) | £19.49 |
| U3 | Prosesu o leiaf 12 uned fesul swydd cyfwerth ag amser llawn fesul diwrnod yn seiliedig ar niferoedd arfaethedig o 11.8 miliwn o unedau | 12.09 |
| **Rydym yn ysgogi arloesedd** | | |
| A1 | Argaeledd e-wasanaethau allanol cyfartalog yn 99.6 y cant neu'n uwch yn ystod oriau gwasanaeth cyhoeddedig | 99.96% |
| A2 | Byddwn yn sefydlu dau wasanaeth beta cyhoeddus yn gweithredu ar wefan GOV.UK erbyn diwedd Mawrth 2016 | Heb ei gyflawni |
| A3 | Byddwn yn rhyddhau pedair set ddata arall erbyn 31 Mawrth 2016 gan gynnwys gwybodaeth pris a dalwyd ar eiddo ym mherchnogaeth fasnachol | Wedi'i gyflawni |
| **Rydym yn broffesiynol** | | |
| P1 | Cynnal sgôr mynegai cyson wedi'i gyfrifo o fasged o bedwar mesur sy'n bwriadu mesur cymhelliant a pherfformiad ein gweithlu[1] | Wedi'i gyflawni |
| P2 | Sicrhau gwelliant yn y sgôr ymgysylltu ar gyfer arweinyddiaeth a rheoli newid dros ddwy flynedd o 15 y cant o'i gymharu â gwaelodlin 2014/15 | Targed dwy flynedd |
| P3 | Carreg Filltir Galluogrwydd 1 - Yn 2015/16 i gyflawni cynnydd cyffredinol yn y sgôr ymgysylltu o 2 y cant, gyda gwelliant o 4 y cant mewn arweinyddiaeth a rheoli newid yn Arolwg y Gwasanaeth Sifil a gwelliant o 4 y cant mewn ymateb i uwch reolwyr yn gweithredu ar ganlyniadau'r arolwg | 3%<br>6%<br>12% |
| P4 | Carreg Filltir Galluogrwydd 2 - 75 y cant neu fwy o'r prentisiaid a recriwtiwyd yn dal i fod ar y cynllun ar 31 Mawrth 2016 | 93% |
| P5 | Carreg Filltir Galluogrwydd 3 - Erbyn diwedd Mawrth 2016 byddwn wedi adfywio'r gweithlu trwy gyfradd dechreuwyr newydd o 4 y cant | 7.4% |

Nodyn 1: Mae'r dangosydd yn mesur dangosyddion iechyd sefydliadol fel diwrnodau datblygu, salwch a thegwch o ran dosbarthu marciau perfformiad ar draws grwpiau nodweddion gwarchodedig. Y sgôr pasio yw llai nag 11.

Rydym wedi cyflawni:

- pob un o'r saith dangosydd perfformiad allweddol perthnasol gan gynnwys targed ychwanegol i leihau ein costau rhedeg gan 5 y cant a osodwyd gan y Gweinidog ar ôl i'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol gael eu cytuno, a
- phedwar o'r pum targed carreg filltir.

Gwnaethpwyd cynnydd da hefyd ar y targed dwy flynedd i wella'r sgôr ymgysylltu ar gyfer arweinyddiaeth a newid gan 15 y cant.

Y garreg filltir na chafodd ei chyflawni oedd darparu dau wasanaeth beta cyhoeddus newydd ar GOV.UK. Yn wir datblygwyd tri (nid dau) wasanaeth digidol y flwyddyn ddiwethaf - gwasanaeth methdaliad digidol ar gyfer y Gwasanaeth Ansolfedd, gwasanaeth gweld y gofrestr ddigidol a phridiannau digidol. Datblygwyd y cynhyrchion hyn ac roeddent ar gael erbyn 31 Mawrth ond nid ar GOV.UK, ond er na fodlonwyd yr union ofynion, mae hyn yn dal i fod yn gynnydd sylweddol iawn.

# Dadansoddiad perfformiad y Cyfarwyddwr Cyllid


**Refeniw**
Roedd ein cyfanswm refeniw yn £295.4m (2014/15: £297.1m), i lawr £1.7m (0.6 y cant) flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn bennaf roedd hyn o ganlyniad i effaith barhaus ein disgownt ar gyfer cyflwyno deliadau yn electronig, ond gwnaethpwyd iawn am hyn yn rhannol gan gynnydd ym maint o waith a chynnydd mewn prisiau tai gan roi ffïoedd mewn bandiau uwch. Roedd niferoedd y trafodion ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus o 11.7m o unedau (2014/15: 10.9m o unedau) i fyny 0.8m (7.3 y cant) ar y flwyddyn flaenorol. Roedd nifer y diweddariadau cofrestr swmpus yn gymharol isel yn 2015/16.



Catherine Vaughan

## Refeniw

£'000




**Costau gweithredu**
Roedd ein costau gweithredu o £254.2m (2014/15: £249.5m) yn cynnwys costau staff o £168.2m (2014/15: £165.2m). Cododd costau cyflogau gan £3m (1.8 y cant), er bod cyfrif pennau cyfartalog cyfwerth ag amser llawn wedi cynyddu o 4,033 i 4,035 dros y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys ein cynllun prentisiaid, a ddatgelir ar wahân, yn nodyn 4.2, sy'n dangos cynnydd i 99 cyfwerth ag amser llawn cyfartalog (2014/15: 39). Mae'r cynnydd hwn mewn cyflogau yn adlewyrchu cyfuniad o oramser, codiad cyflog a newidiadau i yswiriant gwladol.

Mae costau gweithredu yn cael eu heffeithio gan gynnydd i'r ddarpariaeth hawliadau heb eu talu y gronfa indemniad o £2.1m (2014/15: £2.8m o ostyngiad) a chynnydd i'r ddarpariaeth sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (IBNR) o £9.1m (2014/15: £11.5m, gweler y manylion ar dudalen 24).

**Costau eraill**
Cafwyd taliadau prydles cyllid o £0.7m (2014/15: £0.9m) a chostau amorteiddio a dibrisio systemau e-wasanaeth o £3.5m (2014/15: £3.5m). Cafodd costau eu gwrthbwyso gan incwm buddsoddi o £1.8m (2014/15: £1.9m). Ein hamhariad o asedau anghyfredol ar adeiladau oedd £6.5m (2014/15: £1.1m). Mae hyn yn dilyn ymarfer prisio llawn i adolygu prisiadau ein hadeiladau ac mae'n adlewyrchu tystiolaeth y farchnad ddiweddaraf.

Y cyfanswm costau yw £260.7m (2014/15: £260.5m). Mae hyn yn gynnydd o £0.2m (llai na 0.1 y cant). Mae'r duedd sylfaenol yn adlewyrchu'r ymdrech i sicrhau effeithlonrwydd, ac yn 32 y cant cronnus er 2008/9, sef blwyddyn y cwymp yn y farchnad eiddo, ar y gost gwasanaeth gan anwybyddu chwyddiant (40.7 y cant ar ôl cyfrif am chwyddiant). Y gwarged cyn difidend ar gyfer y flwyddyn yw £34.6m (2014/15: £36.6m).

**Y Gronfa Indemniad**
Mae Atodlen 8 i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn ei gwneud hi'n ofynnol inni indemnio trydydd partïon yn erbyn colledion a achosir gan gamgymeriadau yn y gofrestr, camgymeriadau mewn canlyniadau chwilio a cholli dogfennau. Mae'r rhan fwyaf o'n hawliadau indemniad yn codi o ganlyniad i gamgymeriadau yn y gofrestr, ac mae rhai o'r camgymeriadau hyn yn ganlyniad i ffugio dogfennau fel pridiannau. Darparwn ar gyfer yr hawliadau hyn o dan ein Cronfa Indemniad, sy'n cwmpasu hawliadau hysbys a'r atebolrwydd ar gyfer hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (IBNR). Mae adolygiad a phrisiad allanol o'r darpariaethau hyn yn cael eu cynnal yn flynyddol gan Lane Clark & Peacock LLP, ein hactiwarïaid.

Yn 2015/16 talwyd £8m ar gyfer 1,003 o hawliadau, o'i gymharu ag £8.3m ar gyfer 968 o hawliadau yn 2014/15. Yr hawliad mwyaf a dalwyd eleni oedd ar gyfer arwystl ffug, a setlwyd am £530,000. Roedd oedi cyn setlo'r hawliad mawr hwn (yn debyg i nifer o rai eraill) yn dilyn canlyniad gwrandawiad Llys Apêl Swift, lle y gorchmynnwyd i'r Gofrestrfa Tir dalu rhoddwr benthyg indemniad am ei golled yn codi o arwystl ffug, gan sefydlu'r gyfraith yn y maes hwn o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002. Twyll (fel arfer trwy gyfrwng ffugio) sy'n parhau i fod yr achos mwyaf arwyddocaol unigol o daliadau indemniad ac mae hyn yn adlewyrchu'r duedd gyffredinol dros y degawd diwethaf.

Uchafswm gwerth gwreiddiol yr hawliadau safonol a dalwyd oedd £8.6m ond cafodd y rhain eu setlo am £6.4m, sef gostyngiad o £2.2m. Yn ystod y flwyddyn cafodd 365 o hawliadau eraill gwerth £5.5m eu setlo am ddim gwerth. O'r rhain roedd 22 ohonynt ar gyfer twyll ac yn werth £3.7m. Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd 1,384 o hawliadau newydd gan roi cyfanswm o £15.8m, gan gynnwys 57 o hawliadau twyll gwerth £7.2m.

Adenillwyd £0.2m o dan ein hawliau digolledu statudol, o'i gymharu â £0.1m y flwyddyn ddiwethaf. Mae ffigurau digolledu yn tueddu i amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn, gan adlewyrchu rhyngweithio anrhagweladwy yr elfennau cyfreithiol a ffeithiol a fydd yn pennu dichonoldeb sicrhau unrhyw ddigolledu (gweler Atodiad Dd).

**Darpariaeth y Gronfa Indemniad**
Mae gwerth darpariaeth hawliadau heb eu talu y flwyddyn hon wedi cynyddu i £10.5m (2014/15: £8.4m). Effaith y cynnydd hwn yn y ddarpariaeth oedd tâl o £2.1m i'n gwarged gweithredu (2014/15: £2.8m o ostyngiad). Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys dadansoddiadau sensitifrwydd, i'w gweld yn nodyn 16.2 yn y cyfrifon.

**Darpariaeth IBNR y Gronfa Indemniad**
Mae gwerth darpariaeth IBNR y Gronfa Indemniad y flwyddyn hon wedi cynyddu i £74.3m (2014/15: £65.2m). Effaith y cynnydd hwn yn y ddarpariaeth oedd tâl o £9.1m i'n costau gweithredu (2014/15: £11.5m). Mae'r newid wedi'i achosi gan dri ffactor, y newid yng nghyfradd disgownt hirdymor ragnodedig Trysorlys Ei Mawrhydi gan gynyddu'r ddarpariaeth gan £14.9m, wedi'i wrthbwyso gan ostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer hawliadau Swift heb eu hadrodd/wedi'u hailagor o £4.5m a gostyngiad wedi'i achosi gan newidiadau mewn patrymau adrodd a chostau hawliadau cyfartalog o £1.3m. Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys dadansoddiadau sensitifrwydd sy'n adlewyrchu natur amcangyfrifedig yr atebolrwydd IBNR a'r tueddiad iddo gael ei effeithio gan godiad a gostyngiad, i'w gweld yn nodyn 16.2 yn y cyfrifon.

**Difidendau**
Mae difidend o £13.6m (2014/15: £19.1m) yn seiliedig ar enillion ar gyfalaf a ddefnyddiwyd o 3.6 y cant (2014/15: 4.6 y cant). Mae hyn yn gadael gwarged a gedwir o £21.1m (2014/15: diffyg o £82.5m, ar ôl difidend arbennig o £100m).

**Datganiad o'r sefyllfa ariannol**
Mae'r datganiad o'r sefyllfa ariannol yn parhau'n gadarn. Cododd asedau net i £373.6m (2014/15: £360.3m). Y gweddill arian parod wrth gau oedd £443.9m (2014/15: £397.8m).

**Asedau anghyfredol**
Darparodd yr 14 swyddfa roeddem yn eu defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn gyfanswm o 67,078 metr sgwâr o le swyddfa. Ein cyfanswm gwariant ar eiddo (gan gynnwys rhent, ardrethi busnes a thaliadau gwasanaeth) a rheoli cyfleusterau (gan gynnwys

cyfleustodau, post a reprograffeg) oedd tua £23m. Ein gwariant ar wasanaethau contractau allanol gyda'r darparwr rheoli cyfleusterau Carillion oedd £10.1m.

Gwerthwyd Swyddfa Coventry i'r Asiantaeth Cyllido Addysg am £4.6m. Adleoliwyd staff i adeilad ar brydles ym Mharc Earlsdon yn Coventry.

Yn Nottingham gwerthwyd llain ogleddol ein cyn safle ar Chalfont Drive i Bellway Homes ar gyfer datblygiad preswyl am £9.4m, i'w dalu mewn rhandaliadau gyda blaendal wedi'i dderbyn yn 2015/16 o £4.75m a £4.65m i'w dalu yn Ionawr 2017.

Gadawyd ein hadeilad ar brydles ar gyfer ein cyn Swyddfa Caerefrog, a oedd wedi cael ei is-osod, a therfynwyd y brydles.

Rydym yn parhau i rannu lle dros ben yn ein heiddo ag adrannau eraill o'r llywodraeth a thenantiaid masnachol a gwelwyd cyd-leoliadau pellach eleni gan gynnwys gyda BAE Systems yn Swyddfa Weymouth. Erbyn hyn mae ein tenantiaid yn meddiannu 22,725 metr sgwâr (25.5 y cant) o'r ystad gyfan. Mae hyn wedi creu lleihad pellach yn yr ystad rydym yn ei meddiannu fesul gweithiwr amser llawn, sydd wedi disgyn o 13.67 metr sgwâr i 11.46 metr sgwâr. Mae'r ystad weithredol wedi'i meddiannu 69 y cant ar hyn o bryd.


Erbyn hyn, gwerth ein hystad yw £55.6m heb unrhyw asedau wedi'u dosbarthu fel rhai a ddelir i'w gwerthu (2014/15: £85m, oedd yn cynnwys asedau a ddelir i'w gwerthu o £12.2m). Mae'r gostyngiad i'w briodoli i ailbrisiad am i lawr o £5.6m, tâl amhariad o £6.5m, gwarediadau gyda gwerth llyfr net o £16.1m a thâl dibrisiant o £1.2m.

Mae'r graff isod yn crynhoi'r cynnydd a wnaed i leihau maint yr ystad er 2008. Mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i ddangos gwelliannau cyson yn effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ein hystad yn unol ag Agenda Effeithlonrwydd a Diwygio'r Llywodraeth.

Prisiwyd yr ystad yn allanol gan Cushman & Wakefield. Roedd y symudiad cyffredinol yn ostyngiad mewn gwerth o £29.4m yn dilyn gwaredu Leigh Court yn Coventry a llain ogleddol Chalfont Drive, Nottingham. Mae tri eiddo yn bodoli'r diffiniad o eiddo buddsoddi (ail lawr Swyddfa Weymouth, Old Market House ym Mhenbedw ac Estyniad Earl House yn Hull sy'n cael eu gosod ar delerau masnachol).

Ein cyfanswm gwariant cyfalaf, ar offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn bennaf, oedd £5.6m (£5m diriaethol a £0.6m anniriaethol).

## Maint yr ystad gyfan 2008 - 2016 ($m^2$)



**Rheolaeth y Trysorlys**
Mae rheolaeth o asedau hylifol yn cael ei llywodraethu gan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir 1993, y Gorchymyn Asedau Ychwanegol 1996, y Gorchymyn Estyn a Diwygio 2003 a'r ddogfen fframwaith 2012. Mae gweddillion arian anweithredol yn cael eu cadw mewn cyfrifon sy'n dwyn llog yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol gyda'r gweddill yn cael ei gadw gyda banc masnachol y DU.

**Perfformiad**
Mae perfformiad fel yr adroddir ar dudalen 21.

**Gweithgareddau yn y dyfodol: Strategaeth Fusnes a Chynllun Busnes**
Mae ein gweithgareddau yn y dyfodol wedi'u llywio gan y Strategaeth Fusnes a gafodd ei chymeradwyo gan weinidogion yn Rhagfyr 2012. Mae'r strategaeth hon, sydd wedi'i hymgorffori bellach o fewn ein Cynllun Busnes cyffredinol ar gyfer 2013/18, yn cynnwys ein hamcanion a gweledigaeth newydd sy'n amlinellu'r uchelgais i sicrhau newid arwyddocaol. Mae manylion i'w gweld yn yr adran perfformiad ar dudalen 12.

**Y prif dueddiadau sy'n effeithio ar weithgareddau yn y dyfodol**
Y prif duedd sy'n effeithio ar weithgareddau yn y dyfodol yw lefel gweithgarwch y farchnad dai. Caiff hyn ei hadolygu'n gyson gan ddefnyddio amrywiaeth o ddangosyddion o ffynonellau mewnol ac allanol. Ein rhagdybiaeth ar gyfer y flwyddyn 2016/17 yw y bydd gweithgarwch yn 12.9m o unedau, gan gynnwys diweddariadau cofrestr swmpus o 0.4m. Mae hyn yn uwch na'r gweithgarwch ar gyfer 2015/16 (11.9m o unedau gan gynnwys 0.2m o ddiweddariadau cofrestr swmpus).

**Cyfarwyddiaethau a buddiannau arwyddocaol**
Mae cyfarwyddiaethau a buddiannau arwyddocaol i'w gweld yn yr adroddiad llywodraethu corfforaethol ar dudalen 37.

**Cysylltiadau allweddol**
Mae cysylltiad agos yn parhau â'n cyflenwyr trwy ein prosesau caffael a rheoli contractau. Roedd ein prif gyflenwyr am y flwyddyn yn cynnwys TNT, Carillion ac IBM. Mae perfformiad y prif gyflenwyr hyn yn cael ei fonitro'n agos i sicrhau bod y gwasanaeth dan gontract yn cael ei ddarparu'n effeithiol, bod cyfleoedd gwella yn cael eu ceisio a'n bod yn parhau i gael gwerth da am arian.

Mae ein prif gyflenwyr yn cael eu monitro yn unol â'r risg strategol perthnasol ac rydym yn cymryd camau pellach i wella ein gweithgaredd rheoli contractau llyfr agored.

Mae'r defnydd arwyddocaol o gontractau trawslywodraethol yn parhau, yn unol â pholisi caffael Swyddfa'r Cabinet.

**Cyllid a Thollau EM**
Yn dilyn archwiliad cydymffurfiaeth treth a gynhaliwyd gan Gyllid a Thollau EM, mae darpariaeth o £1.2m wedi cael ei wneud. Mae manylion am y darpariaethau i'w gweld yn nodyn 16.1.

**Pensiynau**
Mae manylion sy'n dangos sut y caiff costau a rhwymedigaethau pensiwn eu trin yn y cyfrifon i'w gweld yn nodiadau 1.7 a 4.4 yn y cyfrifon ac yn yr adroddiad tâl a staffio.

**Taliadau**
Cydymffurfiwn â Deddf Hwyrdalu Dyled Masnachol (Llog) 1998 a'r Cod Ymarfer Talu'n Well. Yn ystod y flwyddyn talwyd 92.5 y cant o anfonebau diamheuol a gafwyd gan gyflenwyr o fewn pum niwrnod gwaith (2014/15: 93.1 y cant).

**Prif risgiau ac ansicrwydd**
Wynebwn heriau a risgiau i gyflawni ein hamcanion strategol a busnes. Mae'r risgiau strategol cyfredol allweddol yn ymwneud â'n Strategaeth Fusnes a'r gallu a'r capasiti sydd eu hangen i gyflenwi ein rhaglen uchelgeisiol o newid busnes.

Mae risgiau strategol yn cael eu rheoli ar lefel Bwrdd y Gofrestrfa Tir. Mae risg i'r Gyfarwyddiaeth yn cael ei reoli gan bob cyfarwyddwr. Mae risg i raglenni a phrosiectau yn cael ei reoli o fewn y ffiniau a osodwyd ar gyfer y byrddau perthnasol. Mae risg i wybodaeth yn cael ei reoli yn unol â chanllawiau CESG (yr awdurdod technegol cenedlaethol ar gyfer sicrwydd gwybodaeth). Mae risg yn cael ei uwchgyfeirio os yw'r archwaeth risg wedi'i ragori a gall fod effaith andwyol ar dargedau, enw da neu weithrediadau.

**Archwilwyr**
Archwiliwyd y cyfrifon gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Y gost ar gyfer gwasanaethau sy'n ymwneud â'r archwiliad statudol ar gyfer 2015/16 oedd £65,000 (2014/15: £65,000).

**Catherine Vaughan**
Cyfarwyddwr Cyllid
28 Mehefin 2016

# Perfformiad ar faterion eraill

## Cofrestru tir

Cofrestrwyd 283,840 hectar am y tro cyntaf, gan gymryd cyfanswm yr arwynebedd cofrestredig i 13,557,628 hectar neu 87.93 y cant o Gymru a Lloegr. Mae hyn er gwaetha'r cyflwr marchnad anodd a'r lleihad yn yr arwynebedd tir sy'n parhau heb ei gofrestru.

Mae cyfrifo'r cyfanswm arwynebedd tir yn gymhleth. Rydym yn gweithio i wella'r fethodoleg sy'n rhaid ystyried nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, yr ôl troed eiddo ar y tir, yr eiddo cofrestredig uwchben lefel llawr gwaelod a chofrestru'r hawliau o dan ddaear, ar gyfer mwyngloddiau a hawliau mwynau, a'r tir ar hyd yr arfordir sy'n amrywio yn ôl y llanw.

## Deiliad Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus

Cyflawnwn ein rôl fel Deiliad Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus drwy ddilyn y Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae diogelu ein gwybodaeth yn fater difrifol ac mae hyfforddiant Cyfrifol am Wybodaeth blynyddol yn orfodol ar gyfer ein staff. Ehangwyd yr hyfforddiant hwn trwy hyrwyddo arferion da ym maes safleoedd cydweithredu cwmwl a diogelwch e-bost. Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn goruchwylio'r broses rheoli risg gwybodaeth, a fesurir trwy achrediad allanol (ISO27001) a hunanasesiad sy'n cael ei herio'n annibynnol (gan ddefnyddio'r Model Aeddfedrwydd Sicrwydd Gwybodaeth - IAMM).

## Newidiadau pwysig

Ar 24 Mawrth 2016 lansiodd y Llywodraeth ymgynghoriad ar yr opsiynau i symud gweithrediadau'r Gofrestrfa Tir i'r sector preifat. Roedd rhaid ymateb erbyn 26 Mai ac ar adeg cyhoeddi nid oedd y Llywodraeth wedi cyhoeddi unrhyw benderfyniad.

## Busnes cyfrifol

Rydym wedi ymrwymo i berfformio fel busnes cyfrifol, a darparu anogaeth a chymorth i'n pobl er mwyn iddynt allu cyfrannu at y nod hwnnw.

Gyda chymorth Busnes yn y Gymuned, a thrwy eu hymdrechion hwy eu hunain, mae pobl y Gofrestrfa Tir wedi parhau i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gwirfoddoli gan gynnwys gwaith gwirfoddol yn y gymuned ac fel ynadon. Rydym yn parhau i'w hannog a'u cefnogi i wneud hynny gyda chymorth ein polisi gwirfoddoli a rheolwyr cefnogol.

Yn 2015/16, roedd 262 o aelodau staff wedi gwirfoddoli ar draws amrywiaeth o weithgareddau, gan roi cymorth i eraill ac ennill profiad a sgiliau gwerthfawr yr un pryd y gallant eu defnyddio yn y Gofrestrfa Tir. Er enghraifft, gan weithio ochr yn ochr â gwirfoddolwyr o sefydliadau eraill yn yr ardal, roedd aelodau staff o Swyddfa Plymouth wedi gwirfoddoli fel hyfforddwyr swyddi gyda Shekinah Mission fel rhan o'r rhaglen Barod am Waith sy'n ceisio helpu pobl i ddychwelyd i fyd gwaith. Mae ein staff hefyd yn gweithio gyda Chyngor Dinas Plymouth fel Aelodau Oedolion Priodol a Phanel Cyfeirio, a gyda Crisis i helpu ei waith gyda phobl ddigartref.

Mae codi arian elusennol wedi parhau i fod yn rhan amlwg o'n hymrwymiad i fusnes cyfrifol, gyda nifer o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal ar draws ein swyddfeydd i godi arian ar gyfer nifer o elusennau cenedlaethol a lleol. Mae'r rhain wedi cynnwys cymryd rhan mewn rasys hwyl a digwyddiadau chwaraeon eraill, gwerthu cacennau a chasglu ar gyfer banciau bwyd, yn ogystal â chefnogi digwyddiadau cenedlaethol fel Sport Relief a Tashwedd. Ym mis Chwefror cododd staff £5,841.23 ar gyfer Diwrnod Canser y Byd trwy amrywiaeth o weithgareddau cydlynol ar draws ein swyddfeydd.

Mae Pwyllgor Iechyd a Lles penodedig ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n annog ac yn cefnogi datblygu mentrau a gweithgareddau i hybu ffyrdd o fyw iach a lles corfforol ac emosiynol ein pobl. Cadwodd Swyddfa Cymru y Safon Iechyd Corfforaethol Aur, sef y marc safon cenedlaethol ar gyfer hyrwyddo iechyd yn y gweithle yng Nghymru.

Rydym yn sicrhau ein bod yn talu anfonebau ein cyflenwyr yn brydlon i helpu gyda'u llif arian a chynllunio busnes a rhannwn syniadau ac arbenigedd ym maes busnes cyfrifol ag adrannau eraill o'r llywodraeth, yn arbennig ym maes yr amgylchedd a chynaliadwyedd.

Mae LR Leisure, ein cymdeithas chwaraeon a chymdeithasol genedlaethol, yn trefnu digwyddiadau trwy gydol y flwyddyn gan gynnwys gŵyl, her gerdded, cystadleuaeth y celfyddydau a ffotograffig, cwis tîm ac amrywiaeth o gystadlaethau chwaraeon yn ogystal â threfnu bod timau yn cymryd rhan yng nghystadlaethau'r Gwasanaeth Sifil. Ym mis Hydref cynhaliwyd seremoni urddo Gwobrau LR Leisure, i gydnabod gwaith caled ac ymroddiad staff sy'n cefnogi gweithgareddau chwaraeon a hamdden ac yn rhoi eu hamser i wirfoddoli a gwneud gwaith elusennol.

## Gwybodaeth agored a llawn

Derbyniwyd 442 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac atebwyd i 433 ohonynt o fewn 20 diwrnod gwaith.

# Adroddiad cynaliadwyedd

Rydym yn rheoli'r gwasanaeth cofrestru tir mewn ffordd amgylcheddol gyfrifol. Defnyddiwn ein System Rheoli Amgylcheddol (EMS) i sicrhau ein bod yn gwella'n barhaus ac yn gweithio tuag at y targedau gofynnol a osodwyd fel rhan o Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth a gofynion TGCh Glasu'r Llywodraeth. Cyflwynir yr adroddiad hwn yn unol â chanllawiau 2015/16 a gyflenwyd gan Drysorlys EM.

Rydym yn parhau i gael ein hachredu i'r safon amgylcheddol ISO14001 sy'n cadarnhau'n annibynnol ein perfformiad ar draws yr ystod lawn o weithgareddau cynaliadwyedd.

Mae perfformiad cyfredol yn erbyn data gwaelodlin cynaliadwyedd 2009/10 fel a ganlyn yn erbyn targedau drafft Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth.

| Maes | Cyflawnwyd | Targed drafft arfaethedig ar gyfer 2020 | Ar darged? |
|---|---|---|---|
| Carbon | gostyngiad o 41% | gostyngiad o 31% | Ie |
| Gwastraff sy'n codi | gostyngiad o 44% | Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir gan o leiaf 25% | Ie |
| | 97% wedi'i ailgylchu | Ailgylchu neu gompostio o leiaf 70% o'r gwastraff | Ie |
| | 3% i safle tirlenwi | Tirlenwi yn llai na 10% o'r gwastraff | Ie |
| Defnydd o ddŵr | gostyngiad o 36% | 25% o ostyngiad (ein targed ni) | Ie |
| Defnydd o bapur | gostyngiad o 39% | Lleihau'r defnydd o bapur gan 60% o waelodlin 2009/10 | Ie - bydd newidiadau i wasanaeth digidol y Gofrestrfa Tir yn parhau i sicrhau lleihad yn y defnydd o bapur |

Yn ogystal bydd y gofynion canlynol o fewn Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth yn parhau i gael eu bodloni.

— Parhau i ddilyn arferion caffael cyhoeddus sy'n gynaliadwy, er mwyn i'r Llywodraeth brynu cynhyrchion mwy cynaliadwy ac effeithlon gyda'r nod o sicrhau'r gwerth am arian gorau i gymdeithas.

Bydd adrannau'n adrodd ar y systemau sydd ganddynt yn eu lle a'r camau a gymerant i gefnogi'r ymrwymiad hwn, gan gynnwys:

— ymgorffori cydymffurfiaeth â Safonau Prynu'r Llywodraeth mewn contractau caffael adrannol a chanolog, o fewn cyd-destun blaenoriaethau cyffredin y llywodraeth o werth am arian a symleiddio prosesau caffael

— deall a lleihau effeithiau'r gadwyn gyflenwi.

## Data perfformiad yn erbyn targedau drafft Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth

| Maes | | Perfformiad | |
|---|---|---|---|
| | | Gwirioneddol | Targed gostyngiad 2020 |
| **Ynni: allyriadau nwyon tŷ gwydr, pob maes o fewn y cwmpas** | Allyriadau carbon (tunelli) | 8,392 | 9,776 |
| | Gwariant (£) | 1,641,835 | |
| **Gwastraff** | Treuliant (tunelli) | 1,106 | 1,484 |
| | Gwariant (£) | 212,993 | |
| **Dŵr** | Defnydd ($m^3$) | 36,396 | 38,346 |
| | Gwariant (£) | 173,819 | |

**Llywodraethu**
Mae cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol yn cael ei reoli trwy'r Fframwaith Llywodraethu Cynaliadwyedd a chyfarfodydd cydymffurfio â Carillion. Rheolir hyn trwy'r Rheolwr Cynaliadwyedd gan ein Uwch Bartneriaid Busnes Cyfleusterau a Carillion.

**Cyflawniad cyffredinol o ofynion ychwanegol Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth**
Mae'r targedau drafft yn parhau i annog y llywodraeth ganol i fod yn fwy cynaliadwy a sicrhau bod gofynion Deddf Newid Hinsawdd (2008), sef gostyngiad o 31 y cant erbyn 2020 mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn cael eu cyflawni.

**Addasu i newid hinsawdd**
Mae effeithiau newid hinsawdd yn cael eu hystyried yn ystod gwaith a phrosiectau adeiladu.

Defnyddiwn y wybodaeth o arolygon cyflwr adeiladau a chynlluniau cynnal a chadw yn y dyfodol fel rhan o'n strategaeth leihau ar gyfer cynaliadwyedd yn ystod adleoliadau adnewyddu mawr neu newid offer adeiladu mawr.  Mae'r Cynllun Addasu i Newid Hinsawdd yn cael ei adolygu'n barhaus.

**Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol**
Mae gwelliannau bioamrywiaeth yn parhau i gael eu cyflwyno lle bo hynny'n ymarferol yn ariannol trwy Carillion. Yn arbennig mae gwelliannau wedi cael eu gwneud trwy nifer o fentrau gyda'r timau cynnal a chadw tiroedd. Mae newidiadau i'r prosesau plannu wedi golygu bod y contractwr yn gallu hybu bioamrywiaeth trwy ddenu gwenyn a gloÿnnod byw.

**Meysydd pwysig eraill**
Mae deg o'n swyddfeydd yn cymryd rhan mewn menter Ewropeaidd o'r enw Save@Work gyda'r ymgynghorwyr ynni SevernWye i leihau ynni drwy newid ymddygiad.

**Carbon**

| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | 2015/16 | 2014/15 | 2013/14 | 2012/13 |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli cyfatebol o CO2)** | | | | |
| Cyfanswm allyriadau gros ar gyfer cwmpas 1 a 2 | 7,835 | 8,048 | 8,404 | 10,447 |
| Trydan: gwyrdd/adnewyddadwy | 1,195 | 2,306 | 2,780 | 2,265 |
| Cyfanswm allyriadau net ar gyfer cwmpas 1 a 2 (h.y. wedi tynnu elfennau adnewyddadwy) | 6,640 | 5,742 | 5,624 | 8,182 |
| Allyriadau gros cwmpas 3 teithio[1] | 557 | 608 | 724 | 893 |
| **Cyfanswm gros yr allyriadau a adroddwyd** | **8,392** | **8,656** | **9,128** | **11,340** |
| **Dangosyddion anariannol (mWh)** | | | | |
| Trydan: wedi'i brynu (grid, gwres a phŵer cyfunedig, ac anadnewyddadwy) | 12,956 | 12,902 | 12,200 | 15,943 |
| Trydan: adnewyddadwy | – | – | – | – |
| Nwy | 7,325 | 6,989 | 8,355 | 11,567 |
| Ffynonellau ynni eraill | – | – | – | – |
| **Cyfanswm ynni** | **20,281** | **19,891** | **20,555** | **27,510** |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | | | |
| Gwariant ar ynni | 1,641 | 1,684 | 1,810 | 2,043 |
| Gwariant ar gredydau achrededig (e.e. Cronfa Credydau Carbon y Llywodraeth) | – | – | – | – |
| Gwariant ar deithio busnes swyddogol | 1,222 | 1,142 | 1,240 | 1,127 |

[1] Mae allyriadau gros cwmpas 3 yn cynnwys yr holl deithio busnes sydd ar gael.

Nodyn: Mae data yn cynnwys adrannau eraill o'r llywodraeth sy'n meddiannu ein hystad ond nid yw'n cynnwys data sy'n ymwneud â thenantiaid anllywodraethol.

Nodyn: Mae'r Arolwg Ordnans a'r GIG, sy'n defnyddio gwasanaethau canolfan data'r Gofrestrfa Tir, yn adrodd ar eu treuliant carbon yn uniongyrchol i'r llywodraeth. Mae hyn yn cyfateb i 2,674,431KWh, gan waredu 1,338 tunnell o garbon.

Nodyn: trwy gydol yr adroddiad hwn mae ein data treuliant yn cynnwys tenantiaid y llywodraeth sy'n rhannu ein hystad ond nid yw'n cynnwys data sy'n ymwneud â thenantiaid anllywodraethol.

Targed drafft nwyon tŷ gwydr yw lleihau allyriadau gan 31 y cant erbyn Mawrth 2020 dros y data gwaelodlin ar gyfer 2009/10.

Mae allyriadau gros wedi gostwng gan 40.8 y cant dros y waelodlin a gan 5.6 y cant dros y flwyddyn flaenorol.

Mae defnydd wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf yn dilyn recriwtio 250 o recriwtiaid parhaol, 57 o brentisiaid a niferoedd ychwanegol o denantiaid mewn rhai lleoliadau, a chynnydd mewn oriau gwaith ar draws yr ystad.

Cost yr Ymrwymiad Lleihau Carbon i'r sefydliad oedd £163,452.

Ein gostyngiad cyffredinol mewn allyriadau carbon er 2009/10 yw 41 y cant. Gweler Atodiad D am ddata tuedd hanesyddol.

**Rheoli gwastraff**

| Gwastraff | | 2015/16 | 2014/15 | 2013/14 | 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli)** | | | | | |
| Gwastraff peryglus | | 1.6 | – | – | – |
| Gwastraff heb fod yn beryglus | Gwastraff tirlenwi | 31.9 | 105 | 101 | 379 |
| | Gwastraff wedi'i ailddefnyddio/ailgylchu | 972.0 | 802 | 858 | 1,042 |
| | Ynni o wastraff | 6.6 | – | – | – |
| | **Cyfanswm gwastraff sy'n codi** | **1,012.1** | **907** | **959** | **1,421** |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | | | | |
| Gwastraff peryglus | | – | – | – | – |
| Gwastraff heb fod yn beryglus | Gwastraff tirlenwi | 4 | 180 | 144 | 197 |
| | Gwastraff wedi'i ailddefnyddio/ailgylchu | 208 | 99 | 146 | 218 |
| | Gwastraff a losgwyd | – | – | – | – |
| | **Cyfanswm gwastraff sy'n codi** | **212** | **279** | **290** | **415** |

Y targed drafft gwastraff yw lleihau'r gwastraff a gynhyrchir gan o leiaf 25 y cant o waelodlin 2009/10 a cheisio ei leihau ymhellach, ailgylchu neu gompostio o leiaf 70 y cant o wastraff, a defnyddio safle tirlenwi ar gyfer llai na 10 y cant o'r gwastraff.

Ar hyn o bryd mae'r sefydliad yn bodloni pob un o'r targedau drafft gyda pherfformiad fel a ganlyn: gwastraff a gynhyrchir wedi'i leihau gan 44 y cant, gwastraff wedi'i ailgylchu, ei wyro neu ei gompostio yn 97 y cant, a thirlenwi yn 3 y cant o'r gwastraff.

Mae'r gwasanaeth rheoli gwastraff yn cael ei gyflenwi trwy ddau lwybr. Mae gwastraff papur yn cael ei reoli trwy'r contract gwaredu gwastraff cyfrinachol y tu allan i'r contract rheoli cyfleusterau. Mae'r holl wasanaeth rheoli gwastraff arall yn cael ei gyflenwi trwy'r contract rheoli cyfleusterau â Carillion.

O'r gwastraff sy'n codi mae 826 o dunelli yn bapur a anfonir i'w brosesu trwy'r ddarpariaeth ailgylchu papur dolen gaeedig o fewn y llywodraeth. Mae'r papur hwn yn cyfateb i 66 y cant o'n cyfanswm gwastraff sy'n codi.

Ein gostyngiad cyffredinol mewn cynhyrchu gwastraff er 2009/10 yw 44 y cant.  Gweler Atodiad D am ddata tuedd hanesyddol.

**Defnydd o ddŵr**

| | 2015/16 | 2014/15 | 2013/14 | 2012/13 |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (metrau ciwbig)** | | | | |
| **Defnydd** | | | | |
| Wedi'i gyflenwi | 36,395 | 38,153 | 36,037 | 31,230 |
| Wedi'i dynnu | – | – | – | – |
| **Cyfanswm defnydd** | **36,395** | **38,153** | **36,037** | **31,230** |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | | | |
| **Cyfanswm costau cyflenwi** | **173** | **188** | **228** | **236** |

Y targedau drafft dŵr yw parhau i leihau'r defnydd o ddŵr ymhellach o waelodlin 2009/10. Mae hyn yn caniatáu i adrannau osod eu targedau mewnol eu hunain ar gyfer lleihau'r defnydd o ddŵr ac adrodd ar eu cynnydd yn erbyn y rhain. Yn ogystal bydd adrannau yn parhau i adrodd ar y defnydd o ddŵr mewn swyddfeydd (m3 fesul aelod o staff cyfwerth ag amser llawn).

Cyflawnwyd gostyngiad o 36 y cant yn y defnydd o ddŵr yn erbyn targed o 25 y cant. Y defnydd fesul aelod o staff cyfwerth ag amser llawn, gan gynnwys staff ar safleoedd y Gofrestrfa Tir o adrannau eraill o'r llywodraeth, yw 7.7m3.

**Defnydd o bapur**

Mae'r targed drafft ar gyfer lleihau papur sef lleihau ein defnydd o bapur gan 60 y cant o flwyddyn waelodlin y Gofrestrfa Tir o 2011/12 yn dangos gwelliant cyfredol o 39 y cant dros y defnydd o bapur cyfwerth ag A4. Bydd ein symudiad parhaus tuag at ddarparu gwasanaethau digidol yn cael effaith sylweddol ar ofynion papur dros y blynyddoedd nesaf.

**Caffael cynaliadwy yn erbyn Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth**

Mae'r Tîm Caffael Corfforaethol yn parhau i weithio i gynnal a, gobeithiwn, wella ar Lefel 3 (Ymarfer) ar draws pob categori ym model aeddfedrwydd Fframwaith Hyblyg Caffael Cynaliadwy. Drwy weithio gyda'n budd-ddeiliaid busnes a'n prif gyflenwyr, mae Safonau Prynu Llywodraeth Swyddfa'r Cabinet wedi'u hymgorffori bellach yn ein prosesau caffael.

Bydd prif gyflenwyr yn adnabod a gweithredu ar gyfleoedd i wneud gwelliannau cymdeithasol ac amgylcheddol. Rydym wedi parhau i weithio ar faterion cynaliadwyedd fel y dangosir gan y canlynol:

- gweithgareddau caffael diweddar ar gyfer rhwygo papur, lle mae 100 y cant o wastraff cyfrinachol yn cael ei ailgylchu bellach yn y DU, o'i gymharu â'r broses flaenorol lle roedd gwastraff yn cael ei gymryd i'r Almaen
- adnewyddu argraffwyr, gan weithio gyda Carillion ar faterion cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a sicrhau bod y safonau prynu yn cael eu cymhwyso wrth adnewyddu pob un o'n hargraffwyr.

Rydym yn parhau i gefnogi elusennau lleol a byddwn yn gweithio gyda Carillion trwy'r fenter Busnes yn y Gymuned i gefnogi ein helusen o ddewis, Hospice UK.

# Gwybodaeth arall

## Y Pwyllgor Rheolau

Cyfansoddwyd y Pwyllgor Rheolau o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i roi cyngor a chymorth i'r Arglwydd Ganghellor yn wreiddiol ond ers trosglwyddo cyfrifoldeb gweinidogol am y Gofrestrfa Tir i'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, i'r Ysgrifennydd Gwladol ar lunio rheolau cofrestru tir a gorchmynion ffi o dan y Ddeddf.

Roedd y Pwyllgor Rheolau wedi ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol dros y flwyddyn ddiwethaf.

(1) Ym mis Mawrth 2015, cwblhaodd yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau adolygiad bob tair blynedd o Bwyllgor Rheolau'r Gofrestrfa Tir a chyhoeddodd adroddiad gyda'i argymhellion a'i gasgliadau.

(2) Ar 2 Mehefin 2015, cyfarfu'r Pwyllgor Rheolau i ystyried yr argymhellion a'r casgliadau yn yr adroddiad. Penderfynodd y Pwyllgor Rheolau i dderbyn yr argymhellion a'r casgliadau a dewis y camau i'w cymryd i'w gwireddu.

(3) Ym mis Tachwedd 2015, enwebodd Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig Carl Calvert fel ei gynrychiolydd ar y Pwyllgor Rheolau yn unol â Deddf Cofrestru Tir 2002, adran 127(2)(g). Mae Carl Calvert yn cymryd lle David Powell sydd wedi ymddeol ar ôl gwasanaethu ar y Pwyllgor Rheolau ers ei sefydlu yn 2002.

Ni ofynnwyd i'r Pwyllgor Rheolau roi cyngor a chymorth i'r Ysgrifennydd Gwladol y flwyddyn ddiwethaf oherwydd ni chafodd unrhyw reolau cofrestru tir neu orchmynion ffïoedd eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

## Yr Uned Polisi a Budd-ddeiliaid

Mae'r Uned Polisi a Budd-ddeiliaid yn ymgorffori polisi a datblygiad rhyngwladol a domestig, ymgysylltu â budd-ddeiliaid a materion cyhoeddus. Mae'n sicrhau bod ein buddiannau yn cael eu cynrychioli'n briodol yn y wlad hon ac yn fyd-eang a bod pwysigrwydd cofrestru tir a'i fuddion yn cael ei bwysleisio i eraill. Mae'r uned yn eistedd fel rhan o Swyddfa'r Prif Gofrestrydd Tir, gan roi presenoldeb i'r Gofrestrfa Tir ar draws y llywodraeth a sefydliadau cyfatebol dramor.

Yn 2015/16 ymatebwyd i 16 o Gwestiynau Seneddol ysgrifenedig a llafar y Gofrestrfa Tir a chefnogwyd adrannau eraill gydag ymatebion i'w cwestiynau. Mae darnau allweddol o waith polisi eleni wedi cynnwys cymryd rhan mewn gweithgor trawslywodraethol yn archwilio cofnodi gwybodaeth perchnogaeth fuddiol ar gyfer cwmnïau dramor sy'n dymuno prynu eiddo yng Nghymru a Lloegr neu gynnig am gontractau cyhoeddus yn Lloegr. Mae'r gwaith hwn yn rhan o agenda gwrthlygredd y Llywodraeth, ac fel cam cyntaf i wella tryloywder perchnogaeth dramor rhyddhawyd ein set ddata perchnogaeth eiddo Cwmnïau Tramor ym mis Mawrth.

Buom yn gweithio ar draws y llywodraeth hefyd i gynyddu tryloywder yn y farchnad eiddo, gan gynnwys trwy gynyddu'r gallu i weld gwybodaeth sy'n ymwneud â'r opsiynau i brynu neu brydlesu tir, a oedd yn ymrwymiad a gyhoeddwyd yn natganiad y Gyllideb.

Mae staff y Gofrestrfa Tir yn dal swyddi o fewn amryw o fforymau byd-eang. I gefnogi polisi tramor Prydain rydym yn cynorthwyo gyda datblygiad gweinyddu tir dramor. Cymerwyd rhan yng nghenhadaeth Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (UNECE) i Armenia ym mis Ebrill 2015. Cafodd ein cyfranogiad yng nghenhadaeth UNECE 2014 i Uzbekistan ei gydnabod yn ffurfiol gan UNECE hefyd trwy gyhoeddi'r Proffil Gwlad ym mis Mawrth 2016.

Eleni cwblhawyd darnau pwysig o waith gyda Rwanda a Gweriniaeth Azerbaijan, a chymerwyd rhan mewn cenhadaeth masnach a noddwyd gan Fasnach a Buddsoddi y DU i Wganda a Thansanïa.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf croesawyd ymweliadau astudiaeth addysgol ar gyfer cynrychiolwyr o sawl awdurdodaeth gan gynnwys Tsieina, Indonesia, Malaysia, Nigeria, Rwanda, De Korea, Twrci ac Wganda, a chroesawyd ymweliadau gweinidogol ar gyfer swyddogion o sefydliadu cyfatebol yn Indonesia, Cwrdistan Iracaidd a Thansanïa.

Trefnodd yr uned ddigwyddiad i fudd-ddeiliaid yng nghwmni'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Graham Farrant ym mis Tachwedd 2015 yn y Gymdeithas Frenhinol, gan ddwyn ynghyd prif fudd-ddeiliaid am y tro cyntaf yn y ffordd hon. Yn dilyn ei lwyddiant mae hyn bellach yn ddigwyddiad blynyddol gyda, gobeithiwn, fwy o gymysgedd ac amrywiaeth fwy eang o fudd-ddeiliaid domestig a rhyngwladol yn bresennol yn 2016.

**Graham Farrant**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
28 Mehefin 2016



Bwrdd y Gofrestrfa Tir (o’r chwith i’r dde): Craig Lester, Tim Franklin, Catherine Vaughan, Leo Geddes, Graham Farrant, John Peaden, Catrina Holme, Gerard Connell a Mike Westcott-Rudd

# Adroddiad atebolrwydd

## Adroddiad llywodraethu corfforaethol

### (a) Adroddiad y Cyfarwyddwyr

#### Rhwymedigaethau pensiwn

Mae manylion trin rhwymedigaethau pensiwn i'w gweld yn nodyn 1.7 a 4.4 ar y cyfrifon ac yn yr adroddiad tâl a staffio.

#### Manylion cyfarwyddwyr a byrddau

**Bwrdd y Gofrestrfa Tir**
Mae cylch gorchwyl Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn un o oruchwylio ac ymgynghori. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am lywodraethu ac atebolrwydd cyhoeddus, yn gosod strategaeth y Gofrestrfa Tir ac yn helpu'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn ei gyfrifoldeb terfynol fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer llywodraethu a pherfformiad y Gofrestrfa Tir.

Cymeradwywyd cylch gorchwyl Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn 2012 a chafodd ei adolygu yn ystod 2015/16.

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn cwrdd yn ffurfiol 10 gwaith y flwyddyn, gyda chyfarfodydd ychwanegol fel a phryd y bo angen. Mae'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir a'r Cyfarwyddwr Cyllid hefyd yn cynnal cyfarfodydd bob tri mis â'r weithrediaeth cyfranddalwyr (trosglwyddwyd i UKGI 1 Ebrill 2016 - Buddsoddiadau Llywodraeth y DU).

| Aelodaeth Bwrdd y Gofrestrfa Tir | |
|---|---|
| Mark Boyle (Cadeirydd) | Cadeirydd Anweithredol (i 31 Mawrth 2016) |
| Tim Franklin | Cyfarwyddwr Anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol (Cadeirydd Dros Dro o 1 Ebrill 2016) |
| Catrina Holme | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Gerard Connell | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Leo Geddes | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Graham Farrant | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir (o 1 Mehefin 2015) |
| Craig Lester[1] | Prif Weithredwr Cynorthwyol (o 11 Ionawr 2016) |
| John Peaden | Cyfarwyddwr Gweithrediadau ac (o 19 Mawrth i 31 Mai 2015) Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro |
| Catherine Vaughan | Cyfarwyddwr Cyllid |

[1] Craig Lester yn mynychu fel sylwedydd.
Nodyn: Mike Westcott-Rudd yn mynychu fel cynghorydd cyfreithiol.

**Y Bwrdd Gweithredol**
Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir a'i aelodau yw cyfarwyddwyr gweithredol y Gofrestrfa Tir. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am gyflenwi Cynllun Rheoli Blynyddol y Gofrestrfa Tir ac am reoli gweithrediad y busnes o ddydd i ddydd. Mae'r Bwrdd yn cwrdd bob mis a chyfarfu 10 gwaith yn ystod y flwyddyn.

| Aelodaeth o'r Bwrdd Gweithredol | |
|---|---|
| Graham Farrant (Cadeirydd) | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir (o 1 Mehefin 2015) |
| Craig Lester | Prif Weithredwr Cynorthwyol (o 11 Ionawr 2016) |
| John Peaden | Cyfarwyddwr Gweithrediadau ac (o 19 Mawrth 2015 i 31 Mai 2015) Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro |
| Alasdair Lewis | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir |
| Catherine Vaughan | Cyfarwyddwr Cyllid |
| Caroline Anderson | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol |
| Rowland Coombs | Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth (i 31 Mawrth 2016) |
| Jon Parry | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Dros Dro (o 5 Ionawr 2015 i 24 Ionawr 2016) |
| John Abbott | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol (o 25 Ionawr 2016) |
| Mike Westcott-Rudd | Cynghorydd Cyfreithiol i'r Bwrdd |
| **Mynychwyr** | |
| Nicky Heathcote | Pennaeth Swyddfa'r Prif Gofrestrydd Tir |
| Paul Dowse | Pennaeth Strategaeth |

**Y Pwyllgor Archwilio**
Mae'r pwyllgor yn cefnogi Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Swyddog Cyfrifyddu drwy geisio sicrwydd ar y fframwaith rheoli risg, y fframwaith rheolaeth, llywodraethu a chydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a safonau allanol a gofynion statudol.

| Aelodaeth y Pwyllgor Archwilio | |
|---|---|
| Tim Franklin (Cadeirydd) | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Gerard Connell | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Derrick Palmer | Aelod anweithredol |
| **Mynychwyr** | |
| Graham Farrant | Prif Weithredwr (o 1 Mehefin 2015) |
| Catherine Vaughan | Cyfarwyddwr Cyllid |
| Grahame Hughes | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| Cynrychiolydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |

**Y Pwyllgor Tâl ac Enwebu**
Mae'r pwyllgor yn cytuno ar y strategaeth dâl ac yn awdurdodi'r adolygiad tâl blynyddol ar gyfer staff Uwch Wasanaeth Sifil y Gofrestrfa Tir ac yn cytuno ar strategaeth ar gyfer dilyniant i Fwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Bwrdd Gweithredol.

| Aelodaeth y Pwyllgor Tâl ac Enwebu | |
|---|---|
| Catrina Holme | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Gerard Connell | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Graham Farrant | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir (o 1 Mehefin 2015) |
| John Peaden | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro (o 19 Mawrth 2015 i 31 Mai 2015) |



Y Bwrdd Gweithredol (o'r chwith i'r dde): Craig Lester, Caroline Anderson, John Peaden, John Abbott, Graham Farrant, Catherine Vaughan, Alasdair Lewis, Nicky Heathcote a Mike Westcott-Rudd

**Cofrestr buddiannau**
Mae cofrestr buddiannau yn cael ei chadw ym Mhrif Swyddfa'r Gofrestrfa Tir. Gweler nodyn 20 ar y cyfrifon am ddatgeliadau parti cysylltiedig.

**Digwyddiadau cysylltiedig â data personol**

| Categori | Natur y digwyddiad | Cyfanswm |
|---|---|---|
| I | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu diogelu'n ddigonol o adeiladau diogel y llywodraeth | 4 |
| II | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu diogelu'n ddigonol o'r tu allan i adeiladau diogel y llywodraeth | 7 |
| III | Gwaredu offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu diogelu'n ddigonol mewn modd anniogel | – |
| IV | Datgeliadau heb eu hawdurdodi | 9 |
| V | Arall | 1 |
| **Cyfanswm** | | **21** |

**Gwrthdaro buddiannau**
Ni adroddwyd unrhyw wrthdaro buddiannau.

# (b) Atebolrwydd arall

**Iechyd a diogelwch**

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein canllawiau, prosesau a pholisïau iechyd a diogelwch, gyda chymorth gan Carillion. Yr her bob amser yw ceisio cadw i fyny â newidiadau mewn arferion gwaith a sicrhau bod ein polisïau iechyd a diogelwch yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas mewn amgylchedd swyddfa modern. Rydym wedi parhau i fonitro ein prif risgiau iechyd a diogelwch, gan ymdrechu yn arbennig i weithio i sicrhau bod iechyd, diogelwch a lles ein staff wedi'u diogelu pan fyddant yn gweithio y tu allan i'r swyddfa.

Cyfanswm y damweiniau a adroddwyd gan staff y Gofrestrfa Tir yn y gwaith oedd 100 gyda dwy ddamwain wedi'u hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan Reoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus. Mae'r Strategaeth Lleihau Damweiniau dair blynedd wedi dod i'w chasgliad eleni ac rydym yn ystyried sut i weithredu ar y casgliadau yn y dyfodol i sicrhau bod gwelliannau o ran lleihau nifer y damweiniau yn parhau.

Rydym wedi cadw ein hardystiad i OHSAS18001, y Safon Brydeinig ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch. Enillwyd hwn gyntaf ym Mehefin 2014 a chafodd ei gynnal yn dilyn archwiliadau allanol chwe misol. Mae'r safon yn cael ei hystyried yn feincnod ar gyfer systemau rheoli iechyd a diogelwch ac yn rhoi sicrwydd ein bod yn gweithredu yn unol â'r arferion gorau cydnabyddedig.

**Safonau gwasanaeth**
Mae manylion am y gwasanaeth y gall cwsmeriaid ei ddisgwyl gennym ni i'w gweld ar ein gwefan: www.gov.uk/government/organisations/land-registry/about/about-our-services.

Ar gyfer 2016/17 mae safonau mewnol newydd gennym sy'n bwriadu cynyddu cyflymder ein gwasanaethau a lleihau'r gwaith sy'n aros i'w wneud.

**Gwasanaeth Cymraeg**
Mae gwybodaeth am ein gwasanaeth Cymraeg i'w gweld ar ein gwefan: www.gov.uk/government/organisations/land-registry/about/welsh-language-scheme

**Cwynion**
Cofnodwyd 2,088 o gwynion yn 2015/16 o'i gymharu â 4,262 yn 2014/15.

Er inni weld gostyngiad yn nifer y cwynion a gofnodwyd, daliwyd mwy o sylwadau ac adborth gan gwsmeriaid nag erioed o'r blaen.

At ei gilydd cyfran y cwynion a gafodd eu cynnal oedd 40 y cant. Adborth gan gwsmeriaid am yr oedi wrth brosesu rhai ceisiadau cofrestru oedd y maes mwyaf cyffredin o gwynion a gafodd eu cynnal, yn ffurfio 29 y cant o'r cyfanswm.

Adolygwyd ein gweithdrefn gwyno i gynyddu ymwybyddiaeth pobl o bwysigrwydd trin a chofnodi adborth yn effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth, arbenigedd ac arferion gorau. Hefyd datblygwyd a lansiwyd offer a phrosesau newydd ar gyfer adrodd a dadansoddi adborth a diweddarwyd pecyn hyfforddi staff ar drin a chofnodi cwynion. Bydd hyn yn parhau i gael ei gyflwyno yn chwarter cyntaf 2016/17.

Buom yn rhan o fenter Swyddfa'r Cabinet hefyd ar drin cwynion yn y sector cyhoeddus oedd yn golygu darparu ffurflen ar-lein benodol ar gyfer cwynion. Rydym yn parhau i weithio gyda Swyddfa'r Cabinet ar y fenter hon ochr yn ochr ag adrannau eraill o'r llywodraeth.

Mae defnyddio ein dyfais Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid wedi hwyluso cyfleoedd pellach i ddysgu o adborth cwsmeriaid a gweithredu arno a gwella ein gwasanaeth yn gyffredinol. Mae enghreifftiau o hyn wedi cynnwys:

- gwelliannau i'r canlynol:
  - gwybodaeth ar ein gwefan ar GOV.UK, er enghraifft gwella llywio rhwydd a hygyrchedd gwybodaeth ar ein cyfeiriadau cysywllt a ffïoedd. Hefyd darparu ffurflenni a deunyddiau cyfarwyddyd mewn ffurfiau ychwanegol/gwell
  - y wybodaeth a'r offer ar-lein sydd ar gael i gwsmeriaid i holi am geisiadau a'r amserau cwblhau cyfartalog gyda'r nod o fod yn fwy tryloyw ynghylch ein hamserau prosesu heb fod angen i gwsmeriaid gysylltu â ni
- gwella defnyddioldeb, hygyrchedd a chwmpas e-wasanaethau Busnes, oedd yn cynnwys cynyddu nifer yr hysbysiadau a dogfennau rydym yn eu darparu'n electronig, maint ffeil electronig a ganiateir ar gyfer cynlluniau sy'n ategu rhai mathau o geisiadau chwilio a nifer ein dogfennau ffeil electronig sydd ar gael i gwsmeriaid ar gyfer eu hanfon ar syth.

**Digwyddiadau diogelwch**
Mae diogelwch corfforol yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Diogelwch Corfforol a Phersonél. Cofnodwyd 62 o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys dau ddigwyddiad arwyddocaol (Dosbarth 1).

## (c) Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 4(6) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo'r Gofrestrfa Tir i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a nodwyd yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon y cyfeirir ato yn nodyn 1.1 ar dudalen 73. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y Gofrestrfa Tir a'i hincwm a gwariant, newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn a llifoedd arian parod am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn arbennig:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a dilyn polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon rhesymol
- datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon, a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol, lle bo'n briodol i wneud hynny.

Mae Trysorlys EM wedi penodi Prif Weithredwr y Gofrestrfa Tir fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y gronfa fasnachu. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol a gwarchod asedau'r Gofrestrfa Tir, i'w gweld yn y Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu a gyhoeddir gan y Trysorlys a'i gyhoeddi yn Rheoli Arian Cyhoeddus.

Cyn belled â fy mod yn ymwybodol nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwiliwr yn ymwybodol ohoni, ac mae'r cyfarwyddwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi'i gymryd fel cyfarwyddwyr i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod yr archwiliwr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu cadarnhaf fod yr adroddiad blynyddol a chyfrifon fel cyfanwaith yn rhoi darlun teg, cytbwys a dealladwy o berfformiad gweithredol ac ariannol y Gofrestrfa Tir a chymeraf gyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a chyfrifon a'r barnau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

# (ch) Datganiad llywodraethu

## Maes cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Gofrestrfa Tir rwyf yn gyfrifol, ar y cyd â Bwrdd y Gofrestrfa Tir, am gynnal strwythurau llywodraethu corfforaethol sy'n ategu cyflawni nodau, amcanion a thargedau'r Gofrestrfa Tir, gan ddiogelu cronfeydd cyhoeddus ac asedau'r Gofrestrfa Tir yr un pryd.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn adran anweinidogol o'r llywodraeth, yn gronfa fasnachu ac yn asiantaeth weithredol. Fel cronfa fasnachu mae nawdd yn cael ei orchwylio gan UKGI, o fewn Trysorlys EM, sy'n adrodd ar berfformiad cyffredinol i'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau.

Mae fy nyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu wedi'u hamlinellu yn *Rheoli Arian Cyhoeddus*. Rwyf yn atebol am berfformiad a stiwardiaeth dan arweiniad Bwrdd y Gofrestrfa Tir i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau gyda chyfrifoldeb o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i'r Gweinidog Gwladol dros Fusnesau Bach, Diwydiant a Menter.

Mae'r prif ddyletswyddau sy'n ymwneud â chynnal y gofrestr o deitl i dir rhydd-ddaliol a phrydlesol a phridiannau wedi'u diffinio yn Neddf Cofrestru Tir 2002 ac mae'r rhai sy'n ymwneud â Phridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol wedi'u diffinio yn Neddf Pridiannau Tir 1975 a Deddf Credydau Amaethyddol 1928 (gweler y trosolwg Adroddiad Perfformiad).

O dan Ddeddf Seilwaith 2015 y Gofrestrfa Tir fydd yr awdurdod cofrestru ac yn dal y gofrestr Pridiannau Tir Lleol statudol yn lle'r awdurdodau lleol. Mae'r Ddeddf hefyd wedi ehangu cwmpas pwerau'r Gofrestrfa Tir sy'n ein galluogi i adeiladu ar y gwasanaethau eiddo rydym eisoes yn eu darparu.

## Pwrpas y fframwaith llywodraethu

Pwrpas y fframwaith llywodraethu yw rhoi sicrwydd bod y Gofrestrfa Tir yn cyflawni ei dyletswyddau mewn ffordd sy'n bodloni'r safonau priodol o reolaeth fewnol a rheoli risg yn effeithiol. Mae'n seiliedig ar brosesau sy'n ceisio adnabod a blaenoriaethu'r cyfleoedd a'r risgiau i gyflawni strategaeth y Gofrestrfa Tir, yr amcanion strategol a'r targedau perfformiad. Ei nod yw gwerthuso pa mor debygol yw'r cyfleoedd a'r risgiau hynny (a'r effaith os cânt eu gwireddu) a'u rheoli mewn modd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae hefyd wedi'i gynllunio i gyfateb â nodau strategol yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau a'n dyletswyddau statudol fel y nodir yn ein dogfen fframwaith 2012. Mae'r fframwaith yn cydymffurfio â'r cod a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet, *Llywodraethu corfforaethol yn adrannau llywodraeth ganol: Cod ymarfer da 2011*. Mae'r fframwaith a ddisgrifir, ac eithrio'r gwelliannau penodol a fanylir isod, wedi bod yn ei le drwy gydol 2015/16 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon.

## Cydrannau allweddol y fframwaith llywodraethu

Mae Strategaeth Fusnes y Gofrestrfa Tir yn nodi amcanion pum mlynedd a chafodd ei chyflwyno i'r gweinidog yn yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau ym mis Hydref 2012. Mae'n amlwg y byddwn yn cyrraedd y rhan fwyaf o dargedau ein Strategaeth Fusnes, neu wedi gwneud hynny eisoes, ond ni fydd y targed effeithlonrwydd cyffredinol yn cael ei gyrraedd, yn seiliedig ar ein cynllunio a'n cyraeddiadau hyd yma a'r prosiectau cyfredol sydd ar y gweill ac wedi'u cynllunio. Mae'r Gofrestrfa Tir wedi sicrhau enillion effeithlonrwydd sylweddol dros y tair blynedd diwethaf ac yn parhau i dargedu effeithlonrwydd gwell trwy ein gweithrediadau.

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys:

- y ddogfen fframwaith 2012
- cylch gorchwyl a chofnodion Bwrdd y Gofrestrfa Tir
- cylch gorchwyl a chofnodion y Pwyllgor Archwilio
- cylch gorchwyl a chofnodion y Pwyllgor Tâl ac Enwebu
- cofnodion eraill a phwyntiau cyfathrebu
- cymeradwyaeth weinidogol ar gyfer yr amcanion sy'n sail i'r Strategaeth Fusnes
- gwybodaeth am y Strategaeth Fusnes a gweithgareddau newid cysylltiedig
- dirprwyo'r gyllideb
- dirprwyo awdurdodau sy'n ceisio adlewyrchu'r fframwaith allanol a osodwyd ac a ddiwygiwyd gan Swyddfa'r Cabinet ac UKGI
- pwyllgorau dan arweiniad cyfarwyddwyr y Bwrdd Gweithredol.

## Bwrdd y Gofrestrfa Tir

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn cydnabod pwysigrwydd arweinyddiaeth i greu amgylchedd lle mae perfformiad a risg yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn cynnwys Cadeirydd Anweithredol, pedwar cyfarwyddwr anweithredol arall, gan gynnwys cynrychiolydd o UKGI a thri chyfarwyddwr gweithredol, sef fi fel y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr,  y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau. Mae'r Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Cynghorydd Cyfreithiol i'r Bwrdd hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae strwythur y Bwrdd yn sicrhau cydbwysedd rhwng aelodaeth cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol.

Rôl Bwrdd y Gofrestrfa Tir yw darparu arweiniad, goruchwyliaeth strategol ac arbenigedd i'r swyddogion gweithredol.

Mae'r aelodau anweithredol yn annibynnol ar reolaeth. Ni chafwyd unrhyw enghreifftiau o benodiadau cwmni neu drefniadau ymgynghoriaeth a allai greu gwrthdaro buddiannau posibl â'u cyfrifoldebau fel aelodau o'r Bwrdd

## Pwrpas

Yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet tasg Bwrdd y Gofrestrfa Tir yw cynghori ar bum prif faes, a'u goruchwylio.

— Eglurder strategol.

— Synnwyr masnachol.

— Pobl dalentog.

— Canolbwyntio ar ganlyniadau.

— Gwybodaeth rheoli.

## Adolygu effeithiolrwydd

Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y Bwrdd effeithiolrwydd ei berfformiad a chynnydd yn erbyn yr argymhellion yn adroddiad Ebrill 2015 ar Effeithiolrwydd y Bwrdd gan Warren Partners.

Yn ystod 2015/16 mae'r Bwrdd wedi:

— diwygio a diweddaru cylch gorchwyl Bwrdd y Gofrestrfa Tir

— adolygu'r strwythur llywodraethu ac egluro'r gwahaniaeth rhwng Bwrdd y Gofrestrfa Tir, y Bwrdd Gweithredol, pwyllgorau a phaneli

— sefydlu gwell cysondeb yn y defnydd o gylch gorchwyl safonedig, gan egluro awdurdodau dirprwyedig

— adolygu'r strwythur llywodraethu, er enghraifft, creu panel perfformiad newydd i wella'r defnydd o wybodaeth am berfformiad

— cau lawr y fframwaith LR Connect a sefydlu Bwrdd Trawsnewid y Gofrestrfa Tir gyda dulliau llywodraethu cliriach a gwell rheolaeth dros newid

— diweddaru'r tudalennau llywodraethu ar y fewnrwyd a rhoi canllawiau pellach i staff.

## Pwyllgorau Bwrdd y Gofrestrfa Tir

**Y Pwyllgor Archwilio**
Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynorthwyo Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Swyddog Cyfrifyddu drwy geisio sicrwydd drwy gyfrwng gwybodaeth ac adroddiadau ynghylch:

— y fframwaith strategol a'r broses ar gyfer rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu a'r datganiad llywodraethu hwn

— y polisïau cyfrifyddu, cyfrifon ac adroddiad blynyddol y sefydliad, gan gynnwys lefelau'r gwallau a nodwyd, a llythyr sylwadau'r rheolwyr at yr archwilwyr allanol

— gweithgareddau seiliedig ar risg arfaethedig a chanlyniadau'r Archwiliad Mewnol a'r Archwiliad Allanol

— digonolrwydd ymateb y rheolwyr i'r materion a godwyd gan weithgarwch archwilio, gan gynnwys llythyr y rheolwyr yr Archwilwyr Allanol

— sicrwydd ynghylch gofynion llywodraethu corfforaethol i'r sefydliad

— polisïau atal twyll, prosesau chwythu'r chwiban a'r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig

— Adolygiad Ansawdd Allanol o Archwilio Mewnol wedi'i fandadu'n broffesiynol a adroddodd i'r Pwyllgor Archwilio, ynghyd â monitro gweithrediad ei argymhellion.

Bydd y Pwyllgor Archwilio hefyd yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun o bryd i'w gilydd ac yn adrodd ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Bwrdd. Diweddarwyd y Strategaeth a'r Siarter Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn.

Mae aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys y swyddogion anweithredol Tim Franklin, Gerard Connell, Derrick Palmer. Rwyf innau, y Cyfarwyddwr Cyllid Catherine Vaughan a'r Cynghorydd Cyfreithiol i'r Bwrdd yn mynychu hefyd.

**Y Pwyllgor Tâl ac Enwebu**
Mae aelodaeth o'r Pwyllgor Tâl yn cynnwys fi a'r swyddogion anweithredol Catrina Holme a Gerard Connell, gyda'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Caroline Anderson yn cynghori.

## Y Bwrdd Gweithredol

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn fy nghynorthwyo gyda'm cyfrifoldebau dros reolaeth a chyfeiriad gweithredol, datblygu strategaeth, rheoli risg strategol, perfformiad yn erbyn targedau cyhoeddedig, dyletswyddau statudol, penderfyniadau a datblygu swyddogaethau trawsnewid a chynllunio'r Gofrestrfa Tir.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gorchwylio'n fanwl berfformiad a sefyllfa weithredol ac ariannol y Gofrestrfa Tir. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnal cyfarfodydd bwrdd ffurfiol bob mis, gan adolygu perfformiad a chynnydd yn erbyn targedau, ac mae'n cwrdd bob wythnos i drafod materion eraill.

Rwyf hefyd wedi creu Grŵp Arweinyddiaeth gyda rhai o'r rheolwyr haen gyntaf o dan lefel cyfarwyddwr gweithredol i helpu i ffurfio a gweithredu ar rai o'r syniadau a'r manylion ar gyfer polisi a strategaeth ynghylch cofrestru tir a'i weithgareddau cysylltiedig. Mae'r Rhwydwaith Arweinyddiaeth Strategol wedi'i ffurfio o bron 100 o reolwyr canol ac uwch reolwyr sy'n cwrdd pedwar neu bum gwaith bob blwyddyn i alluogi cyfranogiad mewn penderfyniadau strategol a gwell cyfathrebu o fentrau strategol trwy'r sefydliad cyfan.

## Sefydlu'r Bwrdd Trawsnewid

Yn ystod y flwyddyn sefydlais Fwrdd Trawsnewid newydd fel rhan o ddiwygio'r fframwaith llywodraethu, i gymryd lle LR Connect.

Mae'r Bwrdd Trawsnewid newydd, yr wyf yn ei gadeirio, yn cynnwys y Bwrdd Gweithredol a chymorth rhaglen. Yn ystod y flwyddyn hon mae'r Bwrdd wedi blaenoriaethu dyrannu adnoddau i newid critigol, gyda fframwaith gwell ar gyfer deall blaenoriaethau busnes, ac mae wedi gwella rheolaeth, monitro ariannol a llywodraethu dros weithgareddau newid a sefydlu dulliau olrhain gwell ar gyfer eu gweithredu a gwireddu'r buddion.

Mae'r Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer y rhaglen flaenorol LR Connect wedi gorffen adolygiad ôl-gwblhau ac mae Archwilio Mewnol wedi cynnal adolygiad o'r rhaglen LR Connect.

## Strwythurau a phaneli pwyllgorau

Mae pwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol yn cael eu cynorthwyo gan amrywiaeth o baneli sy'n cael eu cadeirio gan uwch reolwyr, gan gynnwys Panel Perfformiad newydd a fydd yn dadansoddi gwybodaeth rheoli ac yn nodi risgiau i gyflawni'r amcanion. Mae'r paneli hyn wedi'u hymgorffori yn y fframwaith llywodraethu diwygiedig, gyda chylch gorchwyl ffurfiol ac aelodaeth wedi'i sefydlu.

## Panel Llywodraethu Masnachol

Mae'r Panel Llywodraethu Masnachol yn darparu haen ychwanegol o lywodraethu mewnol ar gyfer gwariant ar nwyddau a gwasanaethau allanol dros £100,000. Mae'r panel yn ategu dirprwyaethau o awdurdod y Gofrestrfa Tir, gan ddarparu sicrwydd ychwanegol i'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Swyddog Cyfrifyddu ar gaffael. Mae'n sicrhau y bydd yr holl wariant a'r llwybr caffael arfaethedig yn darparu'r gwerth gorau am arian ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth caffael cyhoeddus a rheolaethau Swyddfa'r Cabinet.

## Datganiad ar ddiweddaru'r strategaeth

Yn ystod 2015/16 cychwynnais werthusiad o'r Strategaeth Fusnes. Mae manylion am y cynnydd yn erbyn y targedau strategol i'w gweld yn yr Adroddiad Perfformiad, gan gynnwys y pum carreg filltir sy'n cyfrannu at strategaeth y flwyddyn hon. Yn ogystal â'r cerrig milltir hyn datblygwyd achos busnes amlinellol y Rhaglen Pridiannau Tir Lleol a'i gymeradwyo fel y disgrifir isod.

Fel rhan o'r broses honno diwygiais y weledigaeth a'r gwerthoedd ar gyfer y Gofrestrfa Tir hefyd i ddarparu cyd-destun strategol gwell ar gyfer ein gweithrediadau ac i gefnogi staffio. Erbyn hyn mae'r staff i gyd wedi cael eu briffio'n briodol drwy brif raglen gyfathrebu o'r enw *Cyflawni ein Strategaeth Fusnes*, oedd yn ceisio ymgysylltu â phob aelod o staff mewn saith modiwl rhyngweithiol seiliedig ar y we a sesiwn grŵp wyneb yn wyneb wedi'i chadeirio gan uwch reolwyr i'w helpu i ddeall yr egwyddorion sy'n sail i'r strategaeth a sut y bwriadwn weithio o fewn y weledigaeth a'r gwerthoedd newydd.

— Rydym yn rhoi sicrwydd
— Mae gennym unplygrwydd
— Rydym yn ysgogi arloesedd
— Rydym yn broffesiynol

## Manylion presenoldeb ar gyfer Bwrdd y Gofrestrfa Tir, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Tâl

| | Teitl | Cyfnod | Bwrdd | Pwyllgor | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bwrdd y Gofrestrfa Tir | Archwilio | Tâl ac Enwebu |
| **Anweithredol** | | | | | |
| Mark Boyle | Cadeirydd Anweithredol | O Hydref 2011 | 10/10 | – | – |
| Gerard Connell | Cyfarwyddwr Anweithredol | O 1 Medi 2013 | 9/10 | 4/4 | 3/3 |
| Tim Franklin | Cyfarwyddwr Anweithredol | O 9 Mehefin 2012 | 10/10 | 4/4 | – |
| Leo Geddes | Cyfarwyddwr Anweithredol | O 22 Gorffennaf 2014 | 10/10 | – | – |
| Catrina Holme | Cyfarwyddwr Anweithredol | O 9 Mehefin 2012 | 9/10 | – | 3/3 |
| Derrick Palmer | Aelod anweithredol (Pwyllgor Archwilio) | O Fawrth 2013 | – | 4/4 | – |
| **Gweithredol** | | | | | |
| Graham Farrant | Prif Weithredwr | O 1 Mehefin 2015 | 9/9 | 4/4 | 3/3 |
| Craig Lester | Prif Weithredwr Cynorthwyol | O 11 Ionawr 2016 | 3/3 | – | – |
| John Peaden | Cyfarwyddwr Gweithrediadau | | 10/10 | – | – |
| Maggie Telfer | Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro | O 19 Mawrth 2015 i 31 Mai 2015 | 2/2 | – | – |
| Catherine Vaughan | Cyfarwyddwr Cyllid | | 10/10 | 4/4 | – |
| Mike Westcott-Rudd | Cynghorydd Cyfreithiol y Bwrdd | | 10/10 | 3/4 | – |

Nodyn:

Yn Ebrill a Mai gwasanaethodd John Peaden fel Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro (o 19 Mawrth 2015 i 31 Mai 2015).

Gwasanaethodd Maggie Telfer fel Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro.

Mae Craig Lester yn mynychu fel sylwedydd.

Mae Mike Westcott-Rudd yn mynychu fel Cynghorydd Cyfreithiol i'r Bwrdd.

## Datganiad ar benderfyniad gweinidogol

Yn yr Adolygiad Gwariant a Datganiad yr Hydref 2015, cyhoeddodd y Llywodraeth ei bwriad i "ymgynghori ar yr opsiynau i symud gweithrediadau'r Gofrestrfa Tir i'r sector preifat o 2017" ac ailadroddwyd yr ymrwymiad hwn yn y Gyllideb ym Mawrth 2016. Mae'r Gofrestrfa Tir wedi cydweithio â'r rhai sy'n gyfrifol am ystyried y cynigion hyn yn fwy manwl ac rwyf wedi sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu neilltuo yn y cynlluniau ariannol ar gyfer 2016/17 er mwyn galluogi'r newidiadau posibl i'r statws model gweithredu ar gyfer y Gofrestrfa Tir.

Lansiodd yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau ymgynghoriad ffurfiol y Llywodraeth ar 24 Mawrth, *Ymgynghori ar symud gweithrediadau'r Gofrestrfa Tir i'r sector preifat*, a ddaeth i ben ar 26 Mai.

## Pridiannau Tir Lleol - datganiad ar lywodraethu

O dan Ddeddf Seilwaith 2015 y Gofrestrfa Tir fydd yr awdurdod cofrestru ac yn dal y gofrestr Pridiannau Tir Lleol statudol yn lle'r 326 o awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae buddsoddiad ar gyfer y rhaglen yn amodol ar gymeradwyaeth Trysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet trwy'r adran nawdd. Derbyniodd y rhaglen gymeradwyaeth achos busnes amlinellol gan Drysorlys EM ar 30 Medi 2015 a gan Swyddfa'r Cabinet ar 23 Tachwedd 2015. Rwy'n fodlon bod y trefniadau llywodraethu a rheoli risg ar gyfer y rhaglen yn briodol ac yn gymesur. Seiliaf y casgliad hwn ar adroddiadau'r Prif Awdurdod Prosiect ac ar adroddiad cynnydd a sicrwydd gan uwch berchennog cyfrifol y rhaglen.

## Gwybodaeth am ansawdd data

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn cael cerdyn sgorio cytbwys o wybodaeth perfformiad sy'n nodi perfformiad ar dargedau cyhoeddedig. Mae'r wybodaeth sylfaenol yn cael ei darparu gan systemau ategol sefydledig a weithredir gyda rheolaethau priodol. Rwyf wedi sefydlu Panel Perfformiad o uwch reolwyr i wella dulliau craffu perfformiad sefydliadol, gwella rheoli risg ac arwain datblygiadau i ddefnyddio'r data perfformiad sydd ar gael yn well. Bydd perfformiad yn parhau i gael ei adrodd i'r Bwrdd Gweithredol bob mis, ond gyda'r deallusrwydd ychwanegol a geir trwy adolygiad blaenorol gan y Panel Perfformiad.

Mae perfformiad ariannol yn cael ei fonitro a'i adrodd trwy ddefnyddio adroddiadau misol yn seiliedig ar ein system ariannol. Ceir gweithdrefn ar gyfer gosod cyllidebau blynyddol ac adolygu perfformiad ariannol a rhagolygon blwyddyn gyfan. Mae adolygiadau rhagolygon chwarterol yn weithredol gan roi goruchwyliaeth a sicrwydd priodol i'r Bwrdd Gweithredol a Bwrdd y Gofrestrfa Tir ac mae diweddariadau misol yn cael eu darparu trwy adroddiad misol y Prif Weithredwr i Fwrdd y Gofrestrfa Tir.

Yn ystod y flwyddyn sefydlais ddulliau modelu a chynllunio cadarn ar gyfer sefydlu rheolaeth, gan felly gwella'r cynllunio ar gyfer dyrannu adnoddau i'r llwyth gwaith a deall yn well y gofynion am adnoddau sy'n gysylltiedig â'n rhagolygon ar gyfer maint o waith a chyllidebau pobl. Rydym wedi cryfhau'r defnydd o fodel gweithredol i gysylltu maint o waith, llwyth gwaith ac effeithlonrwydd, gan arwain at gynllun recriwtio clir.

## Datganiad ar Sicrhau Ansawdd modelau perthnasol

Mae'r Gofrestrfa Tir yn gweithredu nifer o fodelau sy'n hanfodol i'w busnes craidd. Mae'r rhain yn cynnwys modelau i ragweld maint o waith ac incwm ffïoedd, modelau i ragweld llwythi gwaith ac adnoddau a sicrhau bod safonau gwasanaeth ar gyflymder yn gallu cael eu cyflawni, a hefyd bod gwaith achos sy'n aros i'w wneud yn cael ei gadw ar lefel briodol; modelau i ragweld cyllidebau sefydliad a staff; modelau i gefnogi rheoli safonau ac adrodd ariannol. Mae'r modelu hyn yn destun adolygiad gan gyfoedion a'u herio gan gyfoedion ac mae rhagolygon yn cael eu hadrodd a'u hadolygu gan y Bwrdd Gweithredol a Bwrdd y Gofrestrfa Tir. Mae mwy o waith wedi'i gynllunio ar y modelau hyn ar gyfer 2016/17.

Yn ogystal rydym wedi defnyddio cynghorwyr allanol ar y model busnes hanfodol ar gyfer y Rhaglen Pridiannau Tir Lleol ac i gefnogi'r achos busnes amlinellol, gan ddefnyddio Archwilio Mewnol i roi sicrwydd ar fodelau gwerthuso caffael.

## Chwythu'r chwiban - datganiad o drefniadau a chanlyniadau

Y cyfarwyddwr nawdd yw'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol. Ni adroddwyd unrhyw achosion chwythu'r chwiban newydd eleni. Yn ystod 2015/16 sefydlwyd trefniadau cofnodi newydd a chafodd uwch swyddog enwebedig newydd ei benodi. Mae canllawiau chwythu'r chwiban wedi cael eu diwygio ac mae nodiadau atgoffa wedi cael eu cyhoeddi yng nghylchlythyrau gwybodaeth i staff. Mae'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol wedi cynnal hyfforddiant ar y canllawiau i swyddogion enwebedig ac i'r uwch swyddog enwebedig newydd. Cwblhawyd hyn ym Mehefin 2015.

## Risg

**Fframwaith ar gyfer rheoli risg**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn dilyn egwyddorion archwaeth risg Llyfr Oren Swyddfa'r Cabinet. Mae'r egwyddorion hyn wedi ffurfio elfen allweddol yn y gwaith o gymeradwyo a chwblhau strategaeth a safon Fframwaith Rheoli Risg newydd a ddatblygwyd yn ystod 2015/16. Bydd y newidiadau arwyddocaol hyn yn sicrhau llif dwyffordd rheoledig a chyson o risgiau rhwng lefelau strategol a'r gyfarwyddiaeth.

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir, y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio i gyd yn ystyried risgiau strategol. Mae'r Cynghorydd Cyfreithiol i'r Bwrdd yn gweithredu fel hyrwyddwr risg y Bwrdd Gweithredol. O leiaf bob

chwarter mae'r risgiau strategol yn cael eu hadolygu ac mae newidiadau allweddol yn cael eu cyfeirio at sylw'r Bwrdd Gweithredol; yn ogystal mae adolygiad risg mwy trwyadl yn cael ei gwblhau bob chwarter, wedi'i hwyluso gan y Rheolwr Risg. Mae dangosyddion arweiniol yn cael eu monitro i roi rhybudd cynnar o newidiadau yn y risg strategol.

**Risgiau strategol allweddol**
Mae'r amgylchedd risg cyffredinol wedi datblygu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ar hyn o bryd mae 15 risg strategol ond mae pedwar o'r rhain o fewn eu harchwaeth risg penodedig ond yn parhau i gael eu monitro oherwydd eu bod yn hanfodol i'r busnes. Mae pwyslais mawr ar faint o waith sy'n cael ei dderbyn a lefel y gweithgarwch newid ac anghenion cysylltiedig ag adnoddau.

Roedd y risgiau newydd a nodwyd fel rhai sy'n berthnasol yn strategol yn cynnwys ymwybyddiaeth fasnachol, seiberddiogelwch a pharhad busnes. Y flaenoriaeth uchaf yw ein risg i bobl yn sgil yr heriau a wynebwn gyda chynllunio ar gyfer olyniaeth a recriwtio. Mae sefydlogrwydd yn y Tîm Gweithredol wedi cael ei gyflawni trwy gydol 2015, gyda'r Bwrdd Gweithredol wedi'i ffurfio o aelodau parhaol yn hytrach na staff dan gontract erbyn y pedwerydd chwarter am y tro cyntaf er 2012.

## Fframwaith ar gyfer rheolaeth a rheoli risg

Mae gwerthuso risgiau ail haen ar lefel y gyfarwyddiaeth wedi nodi risgiau allweddol ynghylch y gwaith sy'n aros i'w wneud a heriau pobl yn ymwneud â hyfforddiant a datblygiad ar gyfer ein recriwtiaid a'n prentisiaid newydd. Ceir rheolaethau priodol ac effeithiol ar gyfer yr holl risgiau hyn a chant eu monitro'n effeithiol a'u bwydo i mewn i'n Strategaeth Fusnes ddiwygiedig. Mae perthynas ddeinamig yn cael ei chynnal rhwng y Pennaeth Rheoli Risg a'r budd-ddeiliaid busnes ac mae hyn wedi ein helpu i fod yn rhagweithiol yn y ffordd rydym yn rheoli'r risg.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu rwy'n goruchwylio'r risgiau strategol a reolir gan y Bwrdd Gweithredol ac yn ceisio sicrwydd ar reolaeth risg y gyfarwyddiaeth i ddarparu'r cyfle ar gyfer uwchgyfeirio. Mae systemau rheoli risg yn ceisio bod yn gymesur ac yn effeithiol o ran risgiau perthnasol. Cymeradwywyd y Strategaeth Rheoli Risg yn Ionawr 2016 ac mae'n sicrhau ar bob lefel y sefydliad bod risgiau'n cael eu lliniaru'n effeithiol.

Drwy ddirprwyo i gyfarwyddwyr gweithredol caf fy sicrhau gan waith y Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, y Pwyllgor Diogelu'r Gofrestr, y Pwyllgor Pobl a'r Panel Iechyd a Diogelwch, sydd i gyd yn chwarae rhan allweddol yn y matrics rheoli risg cyffredinol. Mae'r gwaith o reoli'r risgiau ariannol, risg gwybodaeth, risg i'r Gofrestr Tir, risg o dwyll a dyletswyddau iechyd a diogelwch a statudol yn cael eu rheoli gan y pwyllgorau hyn a'u huwchgyfeirio ataf fel y bo'n briodol, yn ôl disgresiwn y cyfarwyddwr perthnasol ar gyfer pob pwyllgor.

Caf wybod am effeithiolrwydd rheolaethau gweithredol i reoli risg, diogelu asedau a sicrhau'r defnydd effeithiol o adnoddau trwy fframwaith o reolaethau sy'n cynnwys adrodd ar lefel leol a sefydliadol. Mae'r wybodaeth perfformiad yn cael ei hadolygu a'i gwirio fel rhan o'r fframwaith o reolaeth ac mae gwybodaeth perfformiad yn ceisio sicrhau bod materion lle mae angen i'r rheolwyr weithredu yn cael eu hadrodd yn briodol.

Fel enghraifft, cafodd gwendidau hysbys yn ein hymagwedd at LR Connect eu hadolygu'n annibynnol gan Archwilio Mewnol. Yna gofynnais i'r materion a adroddwyd gael eu mapio ar draws i'n model Bwrdd Trawsnewid newydd i sicrhau bod yr holl wendidau a nodwyd naill ai'n cael eu dileu o'r cychwyn cyntaf, (er enghraifft ystyriaeth wrthrychol gofnodedig o bob agwedd ar wneud penderfyniadau), neu byddent yn cael sylw gan ofynion llywodraethu ymgorfforedig y model newydd.

Mae'r gwaith o greu fframwaith sefydliad mwy cadarn wedi cychwyn i sicrhau y gall dyrannu adnoddau gael ei gynllunio a'i reoli'n well trwy gefnogi ymagwedd fwy integredig at gyllidebu. Yn ogystal mae llywodraethu ar gyfer recriwtio wedi cael ei gryfhau ac mae'r Gofrestrfa Tir wedi cael dirprwyaeth gynyddol ar gyfer recriwtio, gan gynnig modd ymateb yn fwy effeithiol i newidiadau ym maint y llwyth gwaith.

**Ymagwedd ddiwygiedig y fframwaith dirprwyo ariannol, gan gyfeirio at awdurdodau taliadau camweinyddu**
Yn ystod y flwyddyn tynnwyd fy sylw at y ffaith ei bod hi'n ymddangos i daliadau camweinyddu (taliadau arbennig) gael eu gwneud, heb i'r awdurdod dirprwyedig perthnasol gael ei geisio a'i gofnodi'n briodol. Roedd datrys y mater yn cynnwys adrodd yn gyntaf i Adran Gyllid Busnes Arloesi a Sgiliau ac yna i Drysorlys EM i geisio cymeradwyaeth ôl-weithredol o'r taliadau heb eu hawdurdodi, y rhoddwyd cymeradwyaeth iddynt yn brydlon. Mae awdurdod newydd sy'n ymwneud â thaliadau camweinyddu wedi cael ei roi imi bellach. Nid oes rhaid datgelu gwerth y taliadau hyn ar dudalen 65.

## Risg gwybodaeth

Mae risg gwybodaeth yn cael ei reoli drwy'r Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth o dan arweiniad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth. Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn cael sicrwydd gan y manylion risg gwybodaeth sy'n cael eu darparu gan ein Perchnogion Asedau Gwybodaeth a disgrifiadau o asedau wedi'u dogfennu'n llawn. Mae ein Proses a Pholisi Rheoli Risg Systemau Gwybodaeth wedi cael eu harchwilio a'u dilysu'n annibynnol trwy archwiliadau mewnol CMMI, ISO20000 a ISO2700. Caf fy sicrhau trwy achrediad mewn perthynas â Chod Cysylltiad y Rhwydwaith Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Model Aeddfedrwydd Sicrwydd Gwybodaeth (IAMM) lle mae ein sgoriau wedi gwella gan gynnwys ymysg cyflenwyr allanol lle mae 74 y cant o gyflenwyr yn cyrraedd aeddfedrwydd lefel 3.

Roedd y swyddogaeth Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn destun archwiliad allanol eleni. Mae hyn wedi rhoi sicrwydd sylweddol ac adroddwyd y gall arferion cyfredol y Gofrestrfa Tir mewn rhai achosion ragori ac wedi'u hymgorffori mwy yn niwylliant y Gofrestrfa Tir na'r arferion gorau cyfredol a welir yn y sector preifat.

## Diogelu gwybodaeth

Mae'n ofynnol i bob aelod o staff gwblhau'r lefelau priodol o'r modiwl Cyfrifol am Wybodaeth ar Civil Service Learning. Yn 2015/16 ychwanegwyd at yr addysg Cyfrifol am Wybodaeth hon gyda deunyddiau mewnol ychwanegol i wella ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chydweithredu yn y cwmwl a'r e-byst a anfonir at gyfrifon anniogel. Mae hefyd yn ofynnol i gontractwyr lofnodi cytundeb methu â datgelu.

Cawsom ardystiad i ISO27001, y safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth, ers bron i 14 mlynedd. Mae'r safon yn gweithio ar gylch ailardystio tair flynyddol a chawson ailardystiad yn Ebrill 2014. I sicrhau bod yr ardystiad yn parhau'n gyfredol rydym yn destun archwiliadau goruchwylio chwe misol allanol. Y diweddaraf o'r rhain oedd yn Rhagfyr 2015 pan gafodd ein hardystiad i'r safon ei ailgadarnhau.

Mae'r safon yn eang ac yn cwmpasu meysydd fel diogelwch TG, diogelwch corfforol, rheoli gwybodaeth, parhad busnes a rheoli risg.

## Colli data

Ni chafodd unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Ymateb i adolygiad cydymffurfiaeth treth Cyllid a Thollau EM

Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd gwybod i'r Gofrestrfa Tir gan Gyllid a Thollau EM (HMRC) ei bod yn bwriadu archwilio ein cofnodion i sicrhau bod y Gofrestrfa Tir yn bodloni ei rhwymedigaethau treth fel cyflogwr fel rhan o raglen y Gwasanaeth Sifil sydd wedi gweld archwiliadau tebyg ar draws y Gwasanaeth Sifil. Trwy drafodaeth, cyfarfodydd ffurfiol a rhannu gwybodaeth mae'r rhestr o feysydd o faterion sydd heb gael sylw wedi lleihau, er nad yw wedi'i chwblhau eto.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed hyd yma, mae wedi cadarnhau bod rhwymedigaeth treth ôl-weithredol yn ddyledus, wedi'i gysylltu'n bennaf â gweithleoedd deuol a defnyddio Teithio a Chynhaliaeth, gan gynnwys hurio ceir, gwariant lletygarwch a defnyddio Cardiau Caffael y Llywodraeth.

Mae'r berthynas â Chyllid a Thollau EM wedi cael ei rheoli'n rhagweithiol ac mae'r gwaith wedi'i gwblhau er mwyn:

- nodi'r rhwymedigaeth treth ôl-weithredol posibl ar gyfer 2013/14 ac am y pedair blynedd flaenorol - yn seiliedig ar ddata allosod
- nodi rhwymedigaeth y flwyddyn gyfredol (yn seiliedig ar yr holl deithio perthnasol, i'w gynnwys yn y setliad archwiliad)
- sicrhau bod adolygiad o'r sefydliad cyfan yn cael ei gwblhau o'r holl batrymau teithiol rheolaidd i nodi'r rhwymedigaethau treth posibl a chytuno ar gymorth neu fel arall
- sicrhau bod polisïau a phrosesau newydd i ddal gofynion atebolrwydd yn y ffynhonnell yn cael eu gweithredu.

Disgwyliaf i'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn fod yn eu lle ar gyfer 2016/17 a fydd yn lleihau'r risg yn sylweddol yn y dyfodol.

## Ymateb i Adolygiad Alexander a'r canllawiau i gontractwyr oddi ar y gyflogres a phrosesau recriwtio diwygiedig

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi diwygio ymhellach y systemau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â chontractwyr oddi ar y gyflogres i roi sicrwydd bod yr holl gontractwyr a ddefnyddir gan y Gofrestrfa Tir yn cydymffurfio â rheoliadau treth a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol priodol. Caf fy sicrhau bod pob un o'n haelodau staff uchaf ar y gyflogres bellach a'n bod yn cydymffurfio ag Adolygiad Alexander yn hyn o beth.

O Ebrill 2015 roedd cyfrifoldeb am gontractau oddi ar y gyflogres yn gyfrifoldeb fy Nghyfarwyddiaeth

Adnoddau Dynol yn dilyn diwygiadau i bolisi a gweithdrefnau yn Chwefror 2015. Ategir hyn gan oruchwyliaeth agos yr Adran Gyllid sy'n cysylltu â'r holl gontractwyr perthnasol am sicrwydd ar y trothwyon priodol. Yn ystod y flwyddyn roedd goruchwyliaeth yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau o gontractwyr ar gyfradd ddyddiol sy'n fwy na £385 yn ofynnol. Yn dilyn y cyfnod hwn o graffu mae goruchwyliaeth wedi cael ei dirprwyo i mi fel y Swyddog Cyfrifyddu yn y Gofrestrfa Tir.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr AD yn fy sicrhau bod prosesau cadarn yn eu lle gan y Gofrestrfa Tir erbyn hyn ar gyfer monitro'n barhaus pob contractwr oddi ar y gyflogres ac am geisio'r sicrwydd treth a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol perthnasol ar sail dreigl.

## Camau a gymerwyd i roi sylw i oedi yn y gwasanaeth

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi profi cynnydd sylweddol yn ei llwythi gwaith sy'n uwch na'r lefel a ragwelwyd yn ystod 2015/16, gan adeiladu ar gynnydd tebyg yn y blynyddoedd blaenorol. Un o ganlyniadau'r cynnydd sylweddol ym maint y gwaith fu cynnydd mewn amserau cyflenwi gwasanaeth a chynnydd yn y gwaith heb ei gwblhau: y gwaith sy'n aros i'w wneud. Yn ystod y flwyddyn cafodd y derbyniadau, allbynnau a lefelau gwaith sy'n aros i'w wneud eu monitro'n gyson a gwnaethpwyd nifer o ymyraethau i geisio gwella cyflymder gwasanaeth, yn bennaf trwy sicrhau bod adnoddau gwaith achos ychwanegol ar gael i gymryd lle'r rhai a gollwyd trwy athreuliad. Roedd y rhain yn cynnwys: recriwtio i'n gyfarwyddiaeth Gweithrediadau 263.8 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn, gan gynnwys 57 o brentisiaid a gafodd hyfforddiant priodol, defnyddio goramser, a hefyd y datblygiad a'r gwelliannau i'n modelau derbyniadau a chynllunio adnoddau er mwyn inni allu cynllunio'n fwy hyblyg mewn ymateb i amrywiadau ym maint y llwyth gwaith. Roedd y cynlluniau ar gyfer 2016/17 wedi'u hanelu'n benodol at fodloni safonau gwasanaeth mewnol newydd a lleihau'r gwaith sy'n aros i'w wneud i ddim mwy na gwerth saith niwrnod gwaith o dderbyniadau erbyn Mawrth 2017, yn amodol ar ragolygon o'r gwaith a dderbynnir o 31.4m o geisiadau gan gynnwys 4.4m o ddeliadau a 0.5m o deitlau newydd.

## Ymgyfreitha (achosion tribiwnlys)

Ni chafwyd unrhyw achosion yn 2015/16.

## Ffynonellau sicrwydd

**Yr Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau (yr Awdurdod Prif Brosiectau gynt) (Pridiannau Tir Lleol)**

Mae Pridiannau Tir Lleol yn rhaglen arwyddocaol sy'n destun adolygiad gan Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau'r Llywodraeth. Yn ystod 2015/16 cafodd y Gofrestrfa Tir gymeradwyaeth ar gyfer achos busnes amlinellol Pridiannau Tir Lleol gan Drysorlys EM ym Medi 2015 a gan Swyddfa'r Cabinet yn Nhachwedd 2015.

Yn ystod y flwyddyn adrodd cynhaliwyd dau asesiad o'r Rhaglen Pridiannau Tir Lleol gan yr Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau - yn Awst rhoddodd Adolygiad Gateway 0 asesiad ambr/coch, ac yn Ionawr rhoddodd Cynllun Sicrwydd Gweithredu 0 asesiad ambr. Gwnaeth adolygiad Awst 12 o argymhellion. Roedd adolygiad Ionawr wedi marcio tri argymhelliad fel rhai sydd wedi'u cwblhau a darparwyd tri argymhelliad pellach. Mae Bwrdd y Rhaglen yn rheoli Cynllun Gweithredu'r Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau, gan adolygu cynnydd yn erbyn pob argymhelliad yn fisol. Mae'r cynllun yn rhoi manylion am bob un o'r argymhellion, gan dynnu sylw at berchennog dyranedig a'r dyddiad cyflawni disgwyliedig. Ym Mawrth marciodd Bwrdd y Rhaglen bedwar argymhelliad fel rhai sydd wedi'u cwblhau - mae'r gweithredoedd sy'n aros yn parhau'n weithredol. Mae risg yn cael ei reoli gyda chymorth y Pennaeth Rheoli Risg.

Cyhoeddodd y Gofrestrfa Tir ei hymgynghoriad ar y Rheolau Pridiannau Tir Lleol arfaethedig ar 9 Mai. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 11 Gorffennaf.

## Seiberamddiffyn

Fel rhan o oruchwyliaeth y llywodraeth ganol o faterion seiberddiogelwch, crëwyd Swyddfa Seiberddiogelwch a Sicrwydd Gwybodaeth i gefnogi'r Cyngor Diogelwch Gwladol i benderfynu blaenoriaethau yn ymwneud â diogelu'r Seiberofod. Yn Nhachwedd 2015 dechreuodd y Gofrestrfa Tir weithio gyda nhw fel rhan o raglen seiberddiogelwch ar y cyd y llywodraeth. Arweiniodd hyn at yr adolygiad cyntaf erioed o'n sefyllfa seiberddiogelwch gan ddefnyddio'r Teclyn Asesu Galluogrwydd Seiberamddiffyn ar gyfer y data seilwaith cenedlaethol critigol sydd gennym. Mae'r data hwnnw yn cynnwys ein cofrestri teitl, cofrestri Methdaliad a Phridiannau Tir a chofrestri'r Ddeddf Credydau Amaethyddol. Mae'r adroddiad yn ein sgorio ni yn y chwartil uchaf ac rydym yn gweithio gyda'r swyddfa Seiberddiogelwch a Sicrwydd Gwybodaeth i ddatblygu'r rheolaethau ychwanegol priodol.

## Swyddogaethau Gateway

Mae'r Gofrestrfa Tir yn gweithredu o fewn y fframwaith dirprwyaethau fel y'u diffinnir gan Swyddfa'r Cabinet ar gyfer cyrff hyd braich a'r dirprwyaethau penodol a awdurdodir gan swyddogion yn yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i weithio gyda Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth i sicrhau bod rhyddhau'r cynnyrch yn cydymffurfio â'r safonau o ran diogelwch, effeithiolrwydd a chysondeb. Cyn i gynhyrchion gael eu rhyddhau fel betas mae'n rhaid i'r Gofrestrfa Tir gyflwyno cynhyrchion a chydymffurfio â'r amodau a nodwyd gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth.

## Adroddiadau rheolaeth ariannol

Caf fy hysbysu am berfformiad y Gofrestrfa Tir trwy'r adroddiadau ariannol misol gan fy Nghyfarwyddwr Cyllid sy'n cynnwys dadansoddiad o'r rhagolygon llwyth gwaith a'r effaith debygol ar y refeniw sydd ei angen i gyllido'r gweithgareddau gweithredol. Yn ystod y flwyddyn mae fy Nghyfarwyddwr Cyllid wedi arwain yr ymateb i adroddiad Model Rheolaeth Ariannol Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifyddu Cyhoeddus gan arwain at welliannau i ansawdd adroddiadau rheolwyr, cymorth gwell a sicrhau bod y sgiliau o fewn y gyfarwyddiaeth yn fwy priodol i ofynion y sefydliad. Yn ystod 2016/17 byddwn yn defnyddio'r Sefydliad i adolygu cynnydd hyd yma yn ffurfiol.

## Sicrwydd caffael

Caf fy sicrhau gan y Prif Swyddog Caffael, o leiaf yn flynyddol, bod gweithgareddau caffael yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EM a bod uwch reolwyr wedi cydymffurfio â'r rhain a chanllawiau caffael penodol y Gofrestrfa Tir.

## Adrodd am berfformiad

Yn ogystal â'r adroddiadau ariannol misol gan fy Nghyfarwyddwr Cyllid caf wybodaeth am berfformiad gweithredol trwy adroddiadau cerdyn sgorio, yr hyb perfformiad a phapurau diweddaru a chyflwyniadau gan dimau rheoli i finnau a'r Bwrdd Gweithredol.

Rwyf hefyd yn ymweld yn rheolaidd â'r swyddfeydd gweithredol ac yn cael adborth ar y gwaith sy'n aros i'w wneud a deilliannau cyflymder gwasanaeth gan gydweithwyr yn ogystal â budd-ddeiliaid allanol.

Wrth adrodd am berfformiad yn erbyn y targedau Strategaeth Fusnes 2013/18 gwreiddiol, mae'n glir erbyn hyn y byddwn yn cyrraedd y rhan fwyaf o'n targedau pum mlynedd, neu wedi gwneud hynny eisoes, ond ni fydd y targed effeithiolrwydd cyffredinol o 60 y cant o welliant yn cael ei gyrraedd. Rwy'n disgwyl i'n perfformiad ddiweddu mewn gwelliant effeithlonrwydd o 45 y cant sydd, ynddo'i hun, yn creu enillion effeithlonrwydd enfawr.

## Archwilio Mewnol a barn

Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol yw "yn seiliedig ar waith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn 2015/16, gallaf roi sicrwydd rhesymol bod fframwaith risg, rheolaeth a llywodraethu'r Gofrestrfa Tir wedi cynnig modd iddi gyflawni ei hamcanion, a bod y risgiau allweddol yn cael eu rheoli'n effeithiol yn gyffredinol ar bob lefel o'r busnes".

# Adroddiad tâl a staffio

## Polisi ar gyfer uwch weision sifil

Mae tâl uwch weision sifil yn cael ei osod gan y Prif Weinidog yn dilyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch.

Wrth benderfynu ar ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sy'n meddu ar y gallu a'r cymwysterau addas i gyflawni eu cyfrifoldebau gwahanol
- amrywiadau rhanbarthol/lleol yn y marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff
- polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y gofyniad ar adrannau i gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer cyflenwi gwasanaethau adrannol
- y cronfeydd sydd ar gael i adrannau fel y'u nodir yn nherfynau gwariant adrannol y Llywodraeth
- targed chwyddiant y Llywodraeth.

Mae'r Corff Adolygu yn ystyried y dystiolaeth a gaiff am ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Mae cyflog y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn cael ei osod gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau. Mae Pwyllgor Tâl y Gofrestrfa Tir, sy'n gweithredu yn ôl awdurdod Bwrdd y Gofrestrfa Tir, yn ystyried yr argymhellion tâl a ddarperir gan reolwyr llinell ac yn penderfynu sut y caiff tâl perfformiad ei ddosbarthu yn yr adolygiad tâl blynyddol ar gyfer uwch weision sifil y Gofrestrfa Tir, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet.

Mae tâl sylfaenol a dyfarniadau cysylltiedig â pherfformiad ar wahân yn dibynnu ar berfformiad, sy'n cael ei asesu trwy system arfarnu flynyddol ar gyfer uwch weision sifil, ac mae rhagor o fanylion i'w gweld yn https://www.gov.uk/government/publications/senior-civil-service-performance-management

Yn ystod y flwyddyn aelodau'r Pwyllgor Tâl ac Enwebu oedd: Catrina Holme (Cadeirydd), Gerard Connell a Graham Farrant. Cynhaliwyd cyfarfod olaf y pwyllgor ar 1 Mawrth 2016.

## Polisi ar gyfer gweision sifil eraill

Mae'r tâl i weithwyr y Gofrestrfa Tir nad ydynt ar raddau Uwch Weision Sifil yn cael ei bennu bob blwyddyn yn dilyn trafodaethau ac ymgynghori rhwng y Gofrestrfa Tir a'r undebau, ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, gan ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

## Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i benodiadau Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud ar deilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni bai y nodir fel arall, mae'r holl gyfarwyddwyr a gwmpesir gan yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n benagored ac yn amodol ar gyfnod rhybudd o dri mis. Byddai dod â'r swydd i ben yn gynnar ar gyfer y cyfarwyddwyr ar gontractau gwasanaeth penagored, heblaw ar sail camymddwyn, yn golygu y byddai'r unigolyn yn cael ei ddigolledu fel yr amlinellir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

Mae rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn www.civilservicecommission.org.uk

## Cadeirydd Bwrdd y Gofrestrfa Tir

Daeth penodiad y Cadeirydd Mark Boyle i ben ar 31 Mawrth 2016. Bydd Tim Franklin yn gweithredu fel Cadeirydd Dros Dro Bwrdd y Gofrestrfa Tir hyd nes bod Cadeirydd newydd wedi cael ei benodi, a ddisgwylir i hynny ddigwydd yn fuan.

## Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir

Penodwyd Graham Farrant fel Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir ar 1 Mehefin 2015, am gyfnod o dair blynedd i gychwyn. Gweithredoedd John Peaden fel Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro o 19 Mawrth 2015 hyd nes i Graham Farrant ddechrau yn y swydd.

## Prif Weithredwr Cynorthwyol

Penodwyd Craig Lester fel Prif Weithredwr Cynorthwyol o 11 Ionawr 2016 ar fenthyciad am 12 mis o'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau.

## Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol

Penodwyd John Abbott yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol parhaol ar 25 Ionawr 2016. Gweithredodd Jon Parry fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Dros Dro hyd nes i John Abbott ddechrau yn y swydd.

## Cyfarwyddwyr Anweithredol

Roedd penodiadau Tim Franklin a Catrina Holme o 8 Gorffennaf 2012 am gyfnod o dair blynedd i gychwyn a chafodd y penodiadau eu hestyn gan ddwy flynedd.

Mae penodiad Leo Geddes o 22 Gorffennaf 2014 am gyfnod na fydd fel rheol yn fwy na thair blynedd. Mae'n cynrychioli buddiannau UKGI ac nid yw'n cael unrhyw dâl gan y Gofrestrfa Tir.

Roedd penodiad Gerard Connell o 1 Medi 2013 am gyfnod o dair blynedd i ddechrau a chafodd ei estyn gan 12 mis.

## Datgeliad oddi ar y gyflogres

Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres fel ar 31 Mawrth 2016, ar gyfer mwy na £220 y dydd ac nad ydynt yn para'n hwy na chwe mis.

| | **2015/16** | 2014/15 |
|---|---|---|
| **Ymrwymiadau presennol fel ar 31 Mawrth 2016** | **10** | 8 |
| Ac o'r rhain y rhai sy'n bodoli: | | |
| – am lai na blwyddyn ar adeg adrodd | **6** | 7 |
| – rhwng un a dwy flynedd ar adeg adrodd | **3** | 1 |
| – rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd | **1** | – |
| – rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd | **–** | – |
| – am bedair blwyddyn neu ragor ar adeg adrodd | **–** | – |
| Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, am fwy na £220 y dydd ac sy'n para yn hwy na chwe mis | | |
| **Ymrwymiadau newydd, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016** | **14** | 29 |
| – sy'n cynnwys cymalau cytundebol sy'n rhoi'r hawl i'r adran wneud cais am sicrwydd o ran treth incwm a rhwymedigaethau Yswiriant Gwladol | **14** | 26 |
| – y mae sicrwydd wedi cael ei geisio ar eu cyfer | **13** | 23 |
| Ac o'r rhain y rhai: | | |
| – y mae sicrwydd wedi cael ei dderbyn | **13** | 16 |
| – nid yw sicrwydd wedi cael ei dderbyn[1] | **–** | 7 |
| – sydd wedi cael eu terfynu oherwydd nad yw sicrwydd wedi cael ei dderbyn | **–** | 7 |
| Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres aelodau bwrdd a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015 | | |
| Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres aelodau bwrdd a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol | **–** | 2 |
| Unigolion yr ystyrir eu bod yn "aelodau bwrdd, a/neu'n uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol" yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigur hwn gynnwys ymrwymiadau oddi ar y gyflogres ac ar y gyflogres | **11** | 12 |

[1] Roedd un contract y cytunwyd yn wreiddiol y byddai'n para chwe mis wedi mynd ychydig dros y chwe mis gan ddau ddiwrnod. Ni ofynnwyd am sicrwydd oherwydd cymerwyd ar y pryd na fyddai'n ofynnol. Ni ystyriwyd bod angen ceisio'r sicrwydd yn ôl-weithredol

**Ymgynghorwyr**
Y gwariant ar ymgynghori am y flwyddyn oedd £1.5m gan gynnwys costau dros dro y Bwrdd Gweithredol.

# Cyflog a thâl perfformiad 2015/16 - cyfarwyddwyr gweithredol[1]

| | Cyflog | Tâl perfformiad | Buddion mewn nwyddau | Buddion pensiwn[2] | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | I'r £100 agosaf | £ | £'000 |
| Graham Farrant[3]<br>Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 160 – 165 | – | – | 29,000 | 185 –190 |
| Blynyddol cyfatebol | (190 – 195) | – | – | – | (190 – 195) |
| Craig Lester[4]<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol | 20 – 25 | – | – | 27,000 | 45 – 50 |
| Blynyddol cyfatebol | (100 – 105) | – | – | – | (100 – 105) |
| John Peaden[5]<br>Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro | 15 – 20 | – | – | – | 15 – 20 |
| Blynyddol cyfatebol | (105 – 110) | – | – | – | (105 – 110) |
| John Peaden[6]<br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau | 80 – 85 | 10 – 15 | – | 72,000 | 165 – 170 |
| Blynyddol cyfatebol | (95 – 100) | – | – | – | (95 – 100) |
| Alasdair Lewis<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 95 – 100 | 0 – 5 | – | 30,000 | 125 – 130 |
| Catherine Vaughan<br>Cyfarwyddwr Cyllid | 120 – 125 | – | – | 49,000 | 170 – 175 |
| Blynyddol cyfatebol | – | – | – | – | |
| Maggie Telfer[7]<br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro | 10 – 15 | – | – | 47,000 | 60 – 65 |
| Blynyddol cyfatebol | (85 – 90) | – | – | – | (85 – 90) |
| Caroline Anderson<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol | 90 – 95 | 0 – 5 | – | 36,000 | 125 – 130 |
| Rowland Coombs<br>Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth | 75 – 80 | 10 – 15 | – | 29,000 | 115 – 120 |
| Paul Dowse[8]<br>Cyfarwyddwr Strategaeth Dros Dro | 5 – 10 | – | – | 30,000 | 35 – 40 |
| Blynyddol cyfatebol | (80 – 85) | – | – | – | (80 – 85) |
| John Abbott[9]<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol | 20 – 25 | – | 100 | 14,000 | 35 – 40 |
| Blynyddol cyfatebol | (115 – 120) | – | – | – | (115 – 120) |
| Jon Parry[10]<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Dros Dro | 180 – 185 | – | – | – | 180 – 185 |
| Blynyddol cyfatebol | (240 – 245) | – | – | – | (240 – 245) |

1. Wedi'i archwilio.
2. Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd real yn y pensiwn wedi'i luosi gan 20) plws (y cynnydd real mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd real yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant mewn unrhyw gynnydd neu ostyngiad i drosglwyddiad o hawliau pensiwn.
3. Penodwyd Graham Farrant yn Brif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir o 1 Mehefin 2015.
4. Penodwyd Craig Lester yn Brif Weithredwr Cynorthwyol o 11 Ionawr 2016 am gyfnod o 12 mis.
5. Safodd John Peaden i lawr fel Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro ar 31 Mai 2015.
6. Dychwelodd John Peaden i'w swydd fel y Cyfarwyddwr Gweithrediadau o 1 Mehefin 2015.
7. Safodd Maggie Telfer i lawr fel y Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro ar 31 Mai 2015.
8. Safodd Paul Dowse i lawr fel y Cyfarwyddwr Strategaeth Dros Dro ar 30 Ebrill 2015.
9. Penodwyd John Abbott yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol o 25 Ionawr 2016.
10. Safodd Jon Parry i lawr fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Dros Dro ar 24 Ionawr 2016.
11. Nid yw un o'r cyfarwyddwyr wedi talu i mewn i bensiwn budd-ddeiliaid.

## Cyflog a thâl perfformiad 2014/15 - cyfarwyddwyr gweithredol[1]

| | Cyflog<br>£'000 | Tâl perfformiad<br>£'000 | Buddion mewn nwyddau<br>I'r £100 agosaf | Buddion pensiwn[2]<br>£ | Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Graham Farrant[3]<br>Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | – | – | – | – | – |
| Blynyddol cyfatebol | – | – | – | – | – |
| Craig Lester[4]<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol | – | – | – | – | – |
| Blynyddol cyfatebol | – | – | – | – | – |
| John Peaden[5]<br>Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro | 0 – 5 | – | – | – | 0 – 5 |
| Blynyddol cyfatebol | (100 – 105) | – | – | – | (100 – 105) |
| John Peaden[6]<br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau | 85 – 90 | 10 – 15 | 100 | 22,000 | 125 – 130 |
| Blynyddol cyfatebol | (90 – 95) | – | – | – | (90 – 95) |
| Alasdair Lewis<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 95 – 100 | 0 – 5 | – | 20,000 | 115 – 120 |
| Catherine Vaughan[5]<br>Cyfarwyddwr Cyllid | 30 – 35 | – | – | 11,000 | 40 – 45 |
| Blynyddol cyfatebol | (120 – 125) | – | – | – | (120 – 125) |
| Maggie Telfer[7]<br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro | 0 – 5 | – | – | 14,000 | 15 – 20 |
| Blynyddol cyfatebol | (80 – 85) | – | – | – | (80 – 85) |
| Caroline Anderson<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol | 85 – 90 | 0 – 5 | – | 33,000 | 120 – 125 |
| Rowland Coombs<br>Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth | 75 – 80 | 10 – 15 | – | 22,000 | 105 – 110 |
| Paul Dowse[8]<br>Cyfarwyddwr Strategaeth Dros Dro | 80 – 85 | 0 – 5 | 300 | 49,000 | 130 – 135 |
| Blynyddol cyfatebol | – | – | – | – | |
| John Abbott[9]<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol | – | – | – | – | – |
| Blynyddol cyfatebol | – | – | – | – | – |
| Jon Parry[10]<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Dros Dro | 55 – 60 | – | – | – | 55 – 60 |
| Blynyddol cyfatebol | (235 – 240) | – | – | – | (235 – 240) |

## Cyflog - cyfarwyddwyr anweithredol[1]

| | **2015/16 £'000** | 2014/15 £'000 |
|---|---|---|
| Mark Boyle<br>Cadeirydd Anweithredol | **60 – 65** | 60 – 65 |
| Tim Franklin<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | **20 – 25** | 20 – 25 |
| Catrina Holme<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | **20 – 25** | 20 – 25 |
| Leo Geddes[2]<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | **–** | – |
| Gerard Connell<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | **20 – 25** | 20 – 25 |

1. Wedi'i archwilio.
2. Mae Leo Geddes yn weithiwr amser llawn yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau; nid yw'n cael unrhyw dâl ychwanegol gan y Gofrestrfa Tir ar gyfer ei rôl fel cyfarwyddwr anweithredol.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, hawliau a gedwir i bwysiad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y codir treth y DU arnynt. Mae'r tablau ar dudalennau 52 i 53 yn seiliedig ar daliadau cronnus a wnaed gan y Gofrestrfa Tir ac felly wedi'u cofnodi yn y cyfrifon hyn.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gan y Gofrestrfa Tir ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy.

## Dyfarniadau perfformiad

Mae dyfarniadau yn seiliedig ar y lefelau perfformiad a gyrhaeddwyd a chânt eu rhoi fel rhan o'r broses adolygu perfformiad. Mae'r dyfarniadau a adroddwyd yn cyfeirio at y perfformiad yn y flwyddyn pan gawsant eu talu i'r unigolyn. Felly mae'r dyfarniadau a adroddwyd yn 2015/16 yn cyfeirio at berfformiad yn 2014/15 ac mae'r dyfarniadau cymharol a adroddwyd ar gyfer 2014/15 yn cyfeirio at berfformiad yn 2013/14.

## Buddion pensiwn[1]

| | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad yn 60 | | Cyfanswm a gronnwyd Mawrth 2016 | | Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth | | Cynnydd gwirioneddol mewn gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a newidiadau mewn ffactorau buddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Pensiwn** | **Cyfandaliad** | **Pensiwn** | **Cyfandaliad** | **2016** | **2015[2]** | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Graham Farrant[3] Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 0 – 2.5 | – | 0 – 5 | – | 22 | – | 16 |
| Craig Lester[4] Prif Weithredwr Cynorthwyol | 0 – 2.5 | 0 – 2.5 | 30 – 35 | 95 – 100 | 586 | 532 | 19 |
| John Peaden[5] Cyfarwyddwr Gweithrediadau | 2.5 – 5.0 | 10.0 – 12.5 | 40 – 45 | 140 – 145 | 1,079 | 940 | 70 |
| Alasdair Lewis Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 0 – 2.5 | 2.5 – 5.0 | 35 – 40 | 115 – 120 | 847 | 761 | 28 |
| Catherine Vaughan[5] Cyfarwyddwr Cyllid | 2.5 – 5.0 | – | 0 – 5 | – | 33 | 6 | 17 |
| Caroline Anderson Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 0 – 2.5 | – | 0 – 5 | – | 66 | 35 | 20 |
| Maggie Telfer[6] Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro | 0 – 2.5 | 5.0 – 7.5 | 30 – 35 | 85 – 90 | 540 | 463 | 35 |
| Rowland Coombs Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth | 0 – 2.5 | 2.5 – 5.0 | 35 – 40 | 105 – 110 | 777 | 696 | 26 |
| Paul Dowse[7] Cyfarwyddwr Strategaeth Dros Dro | 0 – 2.5 | 0 – 2.5 | 30 – 35 | 85 – 90 | 487 | 429 | 12 |
| John Abbott[8] Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol | 0 – 2.5 | – | 0 – 5 | – | 48 | 39 | 4 |
| Jon Parry[9] Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Dros Dro | – | – | – | – | – | – | – |

1. Wedi'i archwilio.
2. Newidiwyd y ffactorau actiwaraidd a ddefnyddiwyd i gyfrifo gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod yn 2014/15. Mae'r gwerthoedd ar 31/3/15 a 31/3/16 wedi cael eu cyfrifo drwy ddefnyddio'r ffactorau newydd, er cysondeb. Felly mae'r gwerthoedd ar 31/3/15 yn wahanol i'r ffigur cyfatebol yn adroddiad y flwyddyn ddiwethaf, a gyfrifwyd drwy ddefnyddio'r ffactorau blaenorol.
3. Penodwyd Graham Farrant yn Brif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir o 1 Mehefin 2015.
4. Penodwyd Craig Lester yn Brif Weithredwr Cynorthwyol o 11 Ionawr 2016.
5. Roedd John Peaden yn Brif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro tan 31 Mai 2015. Dychwelodd i'w swydd fel y Cyfarwyddwr Gweithrediadau o 1 Mehefin 2015.
6. Roedd Maggie Telfer yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro tan 31 Mai 2015.
7. Roedd Paul Dowse yn Gyfarwyddwr Strategaeth Dros Dro tan 30 Ebrill 2016.
8. Penodwyd John Abbott yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol o 25 Ionawr 2016.
9. Roedd Jon Parry yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Dros Dro tan 24 Ionawr 2016. Nid oedd yn aelod o gynllun pensiwn y Gofrestrfa Tir.
10. Nid oedd unrhyw gyfarwyddwr wedi talu i mewn i bensiwn budd-ddeiliaid

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfartalog gydag oedran pensiwn arferol sy'n hafal i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw roedd pob gwas sifil sydd newydd ei benodi a'r mwyafrif o'r rhai sydd eisoes yn y gwasanaeth wedi ymuno ag alpha. Cyn hynny, roedd gweision sifil yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae pedair adran i'r Cynllun hwnnw: tair adran sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium a classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan arian a ddyfernir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Roedd aelodau presennol o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi parhau yn y Cynllun hwnnw ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai sydd rhwng 10 mlynedd ac 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Bydd buddion Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil pob aelod sy'n newid i alpha yn cael eu 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddion cynharach mewn un o adrannau cyflog terfynol Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn cael y buddion hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu alpha - fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac alpha y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunedig eu buddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 naill ai ddewis y trefniadau budd wedi'i ddiffinio priodol neu bensiwn budd-ddeiliaid 'pwrcasu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth.

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 3 y cant ac 8.05 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer classic (ac aelodau o alpha oedd yn aelodau o classic yn union cyn ymuno ag alpha) a rhwng 4.6 y cant ac 8.05 y cant ar gyfer aelodau o premium, classic plus, nuvos a phob aelod arall o alpha. Bydd buddion yn y cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy pan fydd yr aelod yn ymddeol. Yn achos y cynllun premium, bydd buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. Mae'r cynllun classic plus yn hybrid i bob pwrpas, gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â'r cynllun classic a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi'u cyfrifo yn yr un ffordd â'r cynllun premium. Yn y cynllun nuvos bydd aelod yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn a enillwyd gan yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3 y cant o'i enillion pensiynadwy yn ystod y flwyddyn gynllun honno ac mae'r pensiwn cronnus yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Mae buddion yn y cynllun alpha yn adeiladu mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio bod y gyfradd cronni yn 2.32 y cant. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn gynllun pensiwn budd-ddeiliaid. Mae'r Gofrestrfa Tir yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3 y cant a 12.5 y cant hyd at 30 Medi 2015 ac 8 y cant ac 14.75 y cant o 1 Hydref 2015 (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn budd-ddeiliaid cymeradwy a ddewiswyd gan y gweithiwr o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond os yw'n cyfrannu bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r Gofrestrfa Tir hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant pellach o gyflog pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 a 0.5 y cant o gyflog pensiynadwy o 1 Hydref 2015 i dalu am gost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail afiechyd).

Y pensiwn cronnus a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod ei gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd ei aelodaeth weithredol o'r cynllun yn dod i ben os yw eisoes yn oedran pensiwn neu'n hŷn nag oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau o classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau o nuvos, a'r uchaf o 65 oed neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth i aelodau o alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos enillion pensiwn ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu alpha -

fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac alpha y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunedig eu buddion yn y ddau gynllun, ond gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Mae manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn www.civilservicepensionscheme.org.uk

**Gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod**
Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (GTCAP) yw gwerth wedi'i gyfalafu a'i asesu'n actiwaraidd o fuddion cynllun pensiwn y mae aelod wedi'u cronni ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw buddion cronnus yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn gŵr neu wraig sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTCAP yn daliad sy'n cael ei wneud gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cyfeirio at y buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn gymwys iddi.

Mae'r ffigurau GTCAP yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i aelodau o ganlyniad iddynt brynu buddion pensiwn ychwanegol o'u poced eu hunain. Cyfrifir GTCAP yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Gydol Oes, a all fod yn daladwy pan fydd buddion pensiwn yn cael eu cymryd.

**Cynnydd gwirioneddol mewn GTCAP**

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn GTCAP a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronnus oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Adrodd ar gynlluniau digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac eraill - pecynnau ymadael[1]

| Band cost pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | | Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd | | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016 | 2015 | 2016 | 2015 | 2016 | 2015 |
| £0–£10,000 | – | – | 2 | 2 | 2 | 2 |
| £10,001–£25,000 | – | – | 2 | 10 | 2 | 10 |
| £25,001–£50,000 | – | – | 1 | 27 | 1 | 27 |
| £50,001–£100,000 | – | – | – | 25 | – | 25 |
| £100,001–£150,000 | – | – | 1 | 4 | 1 | 4 |
| £150,001–£200,000 | – | – | – | 1 | – | 1 |
| >£200,000 | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm y pecynnau ymadael** | – | – | **6** | **69** | **6** | **69** |
| **Cyfanswm cost** | – | – | **£186,918** | **£3,621,025** | **£186,918** | **£3,621,025** |

1. Wedi'i archwilio.

Gwnaethpwyd tâl diswyddo arbennig o £10,000 i un unigolyn gyda chymeradwyaeth Trysorlys EM.

Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau ex-gratia i gyfarwyddwyr yn 2015/16 (2014/15: dim).

## Digolledu am golli swydd

Mae costau diswyddo ac ymadael eraill wedi cael eu talu yn unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae costau ymadael yn cael eu cyfrif amdanynt yn llawn ym mlwyddyn y cytundeb dan gontract i ymadael. Os yw'n gymwys, mae'r costau ychwanegol o brynu allan budd pensiwn is yn cael eu talu gan y Gofrestrfa Tir ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae costau ymddeol ar sail afiechyd yn cael eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

## Cymarebau tâl[1]

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf yn ei sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r sefydliad.

Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, taliadau cysylltiedig â pherfformiad ar wahân a buddion mewn nwyddau, yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

| | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf (£'000) | 190 – 195 | 150 – 155 |
| **Cyfanswm canolrif (£)** | 29,624 | 28,359 |
| Cymhareb tâl | 6.5 | 5.4 |

1. Wedi'i archwilio.

Yn 2015/16 ni chafodd unrhyw weithwyr dâl oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr parhaol sy'n ennill y cyflog uchaf. Roedd tâl yn amrywio o £190,000 - £195,000 i £15,000 - £20,000 (2014/15: £150,000 - £155,000 i £15,000 - £20,000).

Mae penodi Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir newydd ym Mehefin 2015 wedi creu cynnydd yn y gymhareb.

## Adroddiad staff

| | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| **Ar 31 Mawrth** | | |
| Nifer y gweithwyr (gan gynnwys penodiadau cyfnod penodol) ar 31 Mawrth 2016 | 4,486 | 4,428 |
| Cyfwerth ag amser llawn parhaol ar 31 Mawrth | 4,035 | 3,968 |
| Nifer y prentisiaid ar 31 Mawrth | 119 | 78 |
| Nifer y staff dros dro/dan gontract ar 31 Mawrth | 18 | 27 |
| Gweithwyr benyw | 60% | 60% |
| Gweithwyr rhan-amser | 36% | 37% |
| Gweithwyr o leiafrifoedd ethnig | 5% | 4% |
| Gweithwyr sy'n nodi bod anabledd ganddynt | 9% | 8% |
| **Cyfartaledd am y flwyddyn** | | |
| Diwrnodau salwch fesul gweithiwr ar gyfartaledd | 6.3 | 6.3 |
| Nifer y diwrnodau hyfforddi fesul gweithiwr ar gyfartaledd | 7.1 | 5.2 |
| Diwrnodau hyfforddi fesul prentis | 30.0 | 35.7 |
| Gwariant hyfforddiant fel canran o'r bil cyflogau | 2.8% | 2.7% |

## Dadansoddiad rhyw ar 31 Mawrth 2016

| | Gwryw | Benyw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr anweithredol | 4 | 1 | 5 |
| Cyfarwyddwyr gweithredol[1] | 6 | 2 | 8 |
| Uwch Wasanaeth Sifil - band 2 | 5 | 1 | 6 |
| Uwch Wasanaeth Sifil - band 1 | 6 | 4 | 10 |
| Gweithwyr parhaol (heb gynnwys Uwch Wasanaeth Sifil) | 1,778 | 2,692 | 4,470 |
| Prentisiaid | 56 | 63 | 119 |


1. Mae rhai gweithwyr Uwch Wasanaeth Sifil hefyd yn gyfarwyddwyr, ac wedi'u cynnwys yn y ddau gategori.

## Costau staff 2015/16

| | Staff parhaol | Prentisiaid | Eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | 124,291 | 2,118 | 7,640 | 134,049 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 9,337 | 169 | 151 | 9,657 |
| Costau pensiwn eraill | 23,669 | 424 | 374 | 24,467 |
| Cyfanswm costau staff | 157,297 | 2,711 | 8,165 | 168,173 |

## Niferoedd staff

### Cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd yn y flwyddyn




Yn seiliedig ar gyfartaledd cyfwerth ag amser llawn o staff parhaol a phrentisiaid yn unig (heb gynnwys contractwyr ac ymgynghorwyr).

## Adnoddau

Mae ein gweithdrefnau recriwtio yn cael eu cynnal ar sail cystadleuaeth deg ac agored yn unol ag Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, a chânt eu monitro'n fewnol. Mae pob un o'n cyfleoedd gwaith yn ddarostyngedig i'r Cynllun Gwarantu Cyfweliad sy'n sicrhau y bydd pobl anabl yn mynd ymlaen i gam nesaf y broses ddethol os yw eu cais yn bodloni'r meini prawf gofynnol. Ein polisi yw sicrhau nad yw unrhyw brofion a ddefnyddir yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr anabl.

Mae gweithgaredd adnoddau wedi rhoi sylw i nifer o ofynion.

— Uwch benodiadau allweddol i sicrhau bod tîm arweinyddiaeth sefydlog gennym yn ei le.

— Gwella meysydd cymhwysedd penodol, yn enwedig ym maes rheoli rhaglenni a sgiliau caffael/masnachol.

— Rhoi sylw i anghenion rheng-flaen i gynnal safonau cyflenwi gwasanaeth a chynaliadwyedd y gweithlu yn y dyfodol.

Gwnaethpwyd nifer o benodiadau gweithredol, gan sicrhau bod Tîm Gweithredol sefydlog gan y Gofrestrfa Tir am y tro cyntaf ers pum mlynedd. Penodwyd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol parhaol ac ymgymerodd â'i rôl yn Ionawr 2016. Gwnaethpwyd penodiad dros dro am 12 mis ar gyfer Prif Weithredwr Cynorthwyol yn Ionawr 2016. Mae'r rôl hon yn cryfhau galluogrwydd y tîm gweithredol, gan olygu y gall ymgysylltu cynhwysfawr â budd-ddeiliaid a swyddogaeth polisi ddatblygu, gan ganolbwyntio ar gryfhau cysylltiadau ar draws y llywodraeth.

Cafodd y gwaith o gyflenwi'r Rhaglen Pridiannau Tir Lleol, sy'n un o brif brosiectau'r Llywodraeth, a reolir o dan yr Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau, ei wella trwy benodi cyfarwyddwr rhaglenni parhaol yn 2015.

Mae'r cynllun prentisiaeth wedi parhau i roi cyfle i bobl ifanc ennill cymhwyster mewn gweinyddu busnes a dysgu'r sgiliau technegol a allai arwain at swydd barhaol yn y dyfodol gyda'r Gofrestrfa Tir, gan felly creu'r sail ar gyfer gweithlu cynaliadwy yn y dyfodol. Disgwylir i naw deg saith o brentisiaid eraill ymuno yn Ebrill 2016.

## Recriwtio

| 2015/16 | Cyfanswm |
|---|---|
| Uwch Wasanaeth Sifil | 5 |
| Gwasanaeth Sifil Parhaol | 125 |
| Trosglwyddiadau o adrannau eraill o’r llywodraeth | 114 |
| Penodiadau ar fenthyciad neu gyfnod penodol o adrannau eraill o’r llywodraeth | 14 |
| Penodiadau cyfnod penodol | 15 |
| Prentisiaid | 57 |

Mae contractwyr oddi ar y gyflogres wedi cael eu defnyddio i fodloni anghenion tymor byr mewn meysydd arbenigol, ac mae gwybodaeth am gydymffurfiaeth a datgeliadau wedi’i chynnwys yn yr adroddiad Tâl a Staffio. Ar 31 Mawrth 2016, roedd 15 o gontractwyr yn cael eu defnyddio gan y Gofrestrfa Tir.

Mae nifer fach o weithwyr a ymadawodd yn wirfoddol wedi cynnig modd i’r sefydliad ryddhau pobl sydd â sgiliau nad oes eu hangen mwyach ac adfywio meysydd arbenigol bach o’r gweithlu.

## Iechyd a lles

Rydym wedi ymrwymo i reoli iechyd a lles ein staff. Eleni rydym wedi parhau i gyflwyno mentrau i helpu gweithwyr a'r sefydliad trwy gyfnod o newid mawr.

Mae'r uchafbwyntiau ar gyfer 2015/16 yn cynnwys:

- cyflwyno Rhaglen Cymorth i Weithwyr i ddarparu cymorth cynhwysfawr ac effeithiol i weithwyr a rheolwyr 24 awr y dydd
- hyrwyddo a chyfranogiad ar draws y Gofrestrfa Tir yn y diwrnod iechyd meddwl Amser Newid, Amser Siarad a'r Wythnos Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl
- cyflwyno amrywiaeth o fforymau sy'n rhoi canllawiau a chyngor i reolwyr llinell ar sut i helpu staff sy'n delio â phroblemau iechyd meddwl, galar a salwch difrifol.

Mae lles parhaol staff yn cael ei hyrwyddo drwy gyfuniad o'r gweithgareddau allweddol canlynol.

- Sesiynau sgrinio iechyd a rhoi cyfle i staff wirio pwysau gwaed, mynegai màs y corff a cholesterol.
- Hyrwyddo a chymryd rhan mewn cynllun beicio i'r gwaith.
- Darparu gwasanaeth iechyd galwedigaethol, gyda gwefan iechyd a lles gysylltiedig a deunyddiau hyrwyddo misol ar faterion iechyd.
- Hyrwyddo digwyddiadau ymwybyddiaeth lles allweddol trwy ymgyrchoedd iechyd adrannol sy'n hybu dewisiadau ffordd o fyw iach.

## Galluogrwydd

Mae'r Gofrestrfa Tir yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu sgiliau ei phobl. Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar y pedwar maes â blaenoriaeth a nodwyd gan Gynllun Galluogrwydd y Gwasanaeth Sifil (arweinyddiaeth newid, masnachol, digidol a rheoli prosiectau) i hwyluso newid, adeiladu galluogrwydd arweinwyr a datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sydd eu hangen i greu sefydliad hyblyg, effeithiol ac effeithlon.

Yn ystod 2015/16 rydym wedi cyflwyno rhaglen hyfforddi gynhwysfawr, *Cyflenwi ein Strategaeth Fusnes*, i bob aelod o staff, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau a gwerthoedd sefydliadol. Rydym wedi egluro rôl a disgwyliadau ein harweinwyr ac wedi cyflwyno Fframwaith Newid yn Canolbwyntio ar Bobl i gynnal ymagwedd gyson at arweinyddiaeth newid a rheoli prosiectau. Er mwyn hybu ein hamcan Strategaeth Bobl o hyrwyddo diwylliant o broffesiynoldeb, rydym wedi canolbwyntio ar alinio gofynion sgiliau'r Gofrestrfa Tir â chyrff a fframweithiau allanol ac wedi treialu cymwysterau cymeradwy y Gwasanaeth Sifil.

Mae ein rhaglen brentisiaeth wedi cael ei hymestyn gyda phrentisiaid ychwanegol yn ein Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau, a disgwylir i eraill ddechrau yn eu swyddi yn y gyfarwyddiaeth Cyllid ac Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol yn ystod Ebrill 2016.

## Cynnwys gweithwyr

Rydym yn parhau i ymgysylltu'n anffurfiol ac yn ffurfiol â staff a'u cynrychiolwyr, ac eleni rydym wedi mabwysiadu rhai ffyrdd newydd o weithio.

Mae blogiau'r Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwr wedi cael eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn yn wythnosol ac mae ein staff wedi cael eu hannog i ymateb iddynt gyda'r nod o gael deialog agored a gonest a chyfnewid barn.

Disgwylir i reolwyr gael trafodaethau misol rheolaidd ag aelodau unigol o'r tîm i drafod mewn modd agored berfformiad gweithwyr, syniadau ar gyfer gwelliannau i arferion gwaith, materion sefydliadol ehangach ac unrhyw bryderon gweithwyr.

Rydym yn cwrdd yn rheolaidd â'n hundebau llafur. Mae'r Prif Weithredwr ac aelodau o'i dîm yn cwrdd yn ffurfiol â chynrychiolwyr yng nghyfarfodydd adrannol Cyngor Whitley dwywaith y flwyddyn. Mae strwythurau yn eu lle ar gyfer cyfarfodydd lleol Whitley, ac ymgynghorir â'r undebau ar faterion penodol. Mae deialog chwe wythnosol anffurfiol

rhwng y Prif Weithredwr ac arweinwyr yr undebau llafur wedi cael eu sefydlu yn ystod y flwyddyn. Mae gweithrediad cysylltiadau cyflogaeth o ddydd i ddydd yn cael ei reoli trwy ymgysylltu ac ymgynghori wythnosol rhwng uwch reolwyr a chynrychiolwyr adrannol yr undebau llafur.

Gwelsom welliannau cadarnhaol yn ystod y flwyddyn yn sgoriau ymgysylltu'r Gofrestrfa Tir yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil, ac mae arolygon Pwls rheolaidd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi dangos bod y gwelliannau hyn wedi cael eu cynnal. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i welliannau pellach mewn ymgysylltu ac mae arweinydd gweithredol yn gyfrifol am ddangosydd perfformiad allweddol ymgysylltu a chynllun gweithredu i greu amgylchedd lle mae staff a rheolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac wedi'u cysylltu.

Mae cynnal trafodaethau adeiladol â'r undebau ar lefel adrannol a lleol, yn ogystal ag annog staff i gymryd rhan ar bwyllgorau eraill (gan gynnwys iechyd a lles, cymdeithasol a chwaraeon, amrywiaeth ac elusennol), ac ymweliadau cyfarwyddwyr gyda sesiynau holi ac ateb, i gyd yn hanfodol o ran sicrhau bod barn gweithwyr yn cael ei chlywed a'i deall.

# Atebolrwydd seneddol ac adroddiad archwilio

## Ffïoedd a phridiannau

| | | | 2016 | | | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Incwm | Cyfanswm costau | Gwarged | Incwm | Cyfanswm costau | Gwarged |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cofrestru teitl | **284,196** | **249,120** | **35,076** | 286,696 | 241,092 | 45,604 |
| Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol | **6,193** | **1,516** | **4,677** | 5,749 | 5,513 | 236 |
| Masnachol | **4,983** | **3,548** | **1,435** | 4,635 | 2,934 | 1,701 |
| | **295,372** | **254,184** | **41,188** | 297,080 | 249,539 | 47,541 |

Wedi'i archwilio

## Taliadau arbennig

| | 2016 | | 2015 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer yr Achosion | Gwerth y Taliad | Nifer yr Achosion | Gwerth y Taliad |
| | | £'000 | | £'000 |
| Nifer y taliadau arbennig dros £300,000 | – | – | 1 | 1,030 |

Wedi'i archwilio

Graham Farrant
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
28 Mehefin 2016

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cofrestrfa Tir EM am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 o dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Lifoedd Arian Parod, Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu a nodwyd ynddynt. Rwyf wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl a Staffio hefyd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth sydd wedi'i harchwilio.

## Cyfrifoldebau priodol y Prif Gofrestrydd Tir a'r archwilydd

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Gofrestrydd Tir sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a bodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol ar gyfer Archwilwyr y Bwrdd Ymarferion Archwilio.

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys casglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad pwysig, boed wedi'i achosi gan dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cofrestrfa Tir EM ac wedi cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan Gofrestrfa Tir EM; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ogystal, rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr adroddiad blynyddol er mwyn nodi anghysondebau sylweddol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos ei bod yn sylweddol anghywir neu anghyson â'r wybodaeth a gafwyd gennyf i wrth gyflawni'r archwiliad. Os wyf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau sylweddol rwyf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif. Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn ar y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn i:

— mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes Cofrestrfa Tir EM ar 31 Mawrth 2016 a'i gwaged a gedwir am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac

— mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

— mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl a Staffio sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraethu 1973; ac

— mae'r wybodaeth a roddir yn yr adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn cyfateb â'r datganiadau ariannol.

## Materion rwyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd amdano ynghylch y materion canlynol rwyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw, neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol a'r adran o'r Adroddiad Tâl a Staffio sydd i'w harchwilio yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r manylion, neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad, neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn dangos ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol

157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

1 Gorffennaf 2016

# Datganiadau ariannol

## Datganiad o incwm cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | Nodiadau | 2016<br>£'000 | 2015<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm - gweithrediadau parhaus | 2 | **295,372** | 297,080 |
| Cost gwasanaeth | 2 | **(238,591)** | (236,571) |
| Gwarged gros | | **56,781** | 60,509 |
| Costau gweinyddol | 2 | **(15,593)** | (12,968) |
| **Gwarged gweithredu** | | **41,188** | 47,541 |
| Colled ar waredu asedau anghyfredol | | **(431)** | (10) |
| Incwm buddsoddi - llog i'w dderbyn | 5 | **1,774** | 1,881 |
| Costau cyllid | 6 | **(702)** | (899) |
| Amorteiddio a dibrisio systemau e-wasanaeth | 8.1, 9.1 | **(3,469)** | (3,530) |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | 3.2 | **(1,458)** | (5,347) |
| Costau datblygu | 3.3 | **(2,265)** | (3,028) |
| **Gwarged am y flwyddyn ariannol** | | **34,637** | 36,608 |
| Difidend i'w dalu | 7 | **(13,584)** | (19,114) |
| Difidend arbennig | 7 | **–** | (100,000) |
| **Gwarged/(colled) a gedwir am y flwyddyn ariannol** | | **21,053** | (82,506) |
| Colled ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | | **(7,817)** | (1,074) |
| **Gwarged/(colled) cynhwysfawr am y flwyddyn ariannol** | | **13,236** | (83,580) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 73 i 94 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2016

| | | 2016 | | 2015 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodiadau** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | **56,675** | | 80,262 | |
| Eiddo buddsoddiad | 8 | **6,800** | | – | |
| Asedau anniriaethol | 9 | **4,370** | | 7,590 | |
| Eraill i'w derbyn | 11.2 | **1,437** | | 1,357 | |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | | **69,282** | | 89,209 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Stocrestrau | 10 | **4,745** | | 2,489 | |
| Masnach ac eraill i'w derbyn | 11.1 | **12,791** | | 7,818 | |
| Arian parod ac arian parod cyfatebol | 12 | **443,871** | | 397,752 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | **461,407** | | 408,059 |
| Asedau cyfredol wedi'u dosbarthu fel asedau a ddelir i'w gwerthu | 8.3 | | **–** | | 12,150 |
| **Cyfanswm asedau** | | | **530,689** | | 509,418 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill i'w talu | 13.1 | **51,580** | | 48,173 | |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | 13.1, 14.1 | **284** | | 621 | |
| Darpariaethau byrdymor | 16.1 | **8,116** | | 10,218 | |
| | | | **59,980** | | 59,012 |
| Y Gronfa Indemniad | 16.2 | | **84,800** | | 73,600 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | **144,780** | | 132,612 |
| **Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net** | | | **385,909** | | 376,806 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | 13.2, 14.1 | **4,931** | | 5,215 | |
| Darpariaethau hirdymor | 16.1 | **7,416** | | 11,265 | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | | **12,347** | | 16,480 |
| **Asedau net** | | | **373,562** | | 360,326 |
| **Cyfalaf a chronfeydd** | | | | | |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | | | **61,545** | | 61,545 |
| Cronfa ailbrisio | | | **16,268** | | 31,474 |
| Cyfrif incwm a gwariant | | | **295,749** | | 267,307 |
| | | | **373,562** | | 360,326 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 73 i 94 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

**Graham Farrant**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
28 Mehefin 2016

# Datganiad o newidiadau mewn cronfeydd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | **Cyfalaf Difidend Cyhoeddus** | **Cronfa ailbrisio** | **Cronfa Incwm a Gwariant** | **Cyfanswm cronfeydd** |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2014 | 61,545 | 32,680 | 350,196 | 444,421 |
| Newidiadau mewn cronfeydd 2014/15 | | | | |
| Cronfa ailbrisio | | | | |
| Trosglwyddo i enillion a gedwir | – | (132) | 271 | 139 |
| Ailbrisio asedau anghyfredol | – | – | (654) | (654) |
| Colled gynhwysfawr | – | (1,074) | (82,506) | (83,580) |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2015 | 61,545 | 31,474 | 267,307 | 360,326 |
| **Newidiadau mewn cronfeydd 2015/16** | | | | |
| Cronfa ailbrisio | | | | |
| Trosglwyddo i enillion a gedwir | **–** | **(17)** | **7,389** | **7,372** |
| Ailbrisio asedau anghyfredol | **–** | **(7,372)** | **–** | **(7,372)** |
| Gwarged cynhwysfawr | **–** | **(7,817)** | **21,053** | **13,236** |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2016** | **61,545** | **16,268** | **295,749** | **373,562** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 73 i 94 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad llif arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | Nodiadau | **2016**<br>**£'000** | 2015<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 19.1 | **55,673** | 57,932 |
| **Gweithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu asedau diriaethol | | **(4,091)** | (1,976) |
| Prynu asedau anniriaethol | | **(355)** | (467) |
| Enillion ar waredu asedau diriaethol | | **9,314** | 1,450 |
| Llog a dderbyniwyd | | **1,618** | 1,656 |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **6,486** | 663 |
| **Gweithgareddau cyllido** | | | |
| Difidendau a dalwyd | | **(14,717)** | (121,654) |
| Ad-daliadau o elfen gyfalaf rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | | **(621)** | (2,929) |
| Elfennau llog rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | | **(702)** | (899) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau cyllido** | | **(16,040)** | (125,482) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod ac arian parod cyfatebol** | 19.2 | **46,119** | (66,887) |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddechrau'r flwyddyn** | 19.2 | **397,752** | 464,639 |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddiwedd y flwyddyn** | 12 | **443,871** | 397,752 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 73 i 94 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau ar y datganiadau ariannol

## 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2015/16 (FReM) ac maent yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Drysorlys EM yn unol ag adran 4(6) (a) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn FReM yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os yw'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig y Gofrestrfa Tir at ddibenion rhoi darlun gwir a theg. Defnyddiwyd polisïau cyfrifyddu'r Gofrestrfa Tir yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r datganiadau ariannol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol. Mae'r rheolwyr o'r farn bod sail busnes gweithredol yn briodol oherwydd mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i ddarparu gwasanaethau statudol yn ymwneud â chofrestru tir ac mae digon o gronfeydd i gynnal y busnes yn y dyfodol.

Mae IFRS 9 *Offerynnau ariannol* wedi cael ei gyhoeddi ond mae'n weithredol ar gyfer cyfnodau yn dechrau 1 Ionawr 2018 ac mae IFRS 15 *Refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid* wedi cael ei gyhoeddi ond yn weithredol ar gyfer cyfnodau yn dechrau 1 Ionawr 2017. Ni ddisgwylir i'r naill safon gyfrifyddu neu'r llall gael effaith sylweddol ar y Gofrestrfa Tir.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu ar gyfer ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi, asedau a ddelir i'w gwerthu, asedau anniriaethol ac, os ydynt yn berthnasol, stocrestrau i werth teg fel y pennwyd gan y safon gyfrifyddu berthnasol.

### 1.3 Technegau amcangyfrif

Mae amcangyfrifon a barnau yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Yr amcangyfrifon a'r barnau sydd â risg sylweddol o achosi addasiad pwysig i'r symiau sy'n cario o asedau a rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf yw

Nodyn 8 - amhariad o asedau anghyfredol
Nodyn 13 - incwm gohiriedig - ffïoedd a dderbyniwyd ymlaen llaw
Nodyn 16.1 - ymddeoliad cynnar, diswyddiad cynnar a darpariaethau eraill
Nodyn 16.2 - darpariaeth a amcangyfrifir ar gyfer hawliadau indemniad.

### 1.4 Incwm ffïoedd

Mae incwm ffïoedd a thaliadau yn cael ei gydnabod yn natganiadau ariannol y flwyddyn ariannol pan gafodd y gwasanaeth ei ddarparu. Mae incwm yn cael ei gydnabod yn glir o unrhyw ad-daliadau ar gyfer trafodion sydd heb eu cwblhau neu ar drafodion lle mae gwybodaeth wallus wedi cael ei rhoi gan gwsmeriaid.

Yn achos rhai gwasanaethau rhaid anfon y tâl gyda'r cais sy'n golygu bod taliadau'n cael eu derbyn am wasanaethau sydd heb eu darparu eto o fewn y flwyddyn ariannol yr adroddir arni. Mae'r symiau hyn yn cael eu nodi fel 'ffïoedd a dderbyniwyd ymlaen llaw' a'u datgelu o fewn rhwymedigaethau cyfredol. Mae ffïoedd yn cael eu cydnabod pan fydd y gofrestr wedi cael ei diweddaru'n llawn ar ôl derbyn cais.

### 1.5 Segmentau gweithredu

Mae segmentau gweithredu'r Gofrestrfa Tir wedi'u trefnu o gwmpas y gwasanaethau y mae'n eu darparu ac fe'u hadroddir mewn ffordd sy'n gyson â'r adroddiadau mewnol a ddarperir i'r prif benderfynwr gweithredu. Y tri phrif segment busnes yw cofrestru teitl, Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol ac incwm masnachol. Mae hyn yn seiliedig ar drefniadaeth fewnol y grŵp a'r strwythur rheoli, a dyma'r brif ffordd y mae'r prif benderfynwr gweithredu yn cael gwybodaeth ariannol. Prif benderfynwr gweithredu'r Gofrestrfa Tir yw Graham Farrant, Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir.

**Pridiannau Tir Lleol**

Yn dilyn pasio Deddf Seilwaith 2015, mae'r Gofrestrfa Tir yn cael cyfrifoldeb am gofrestru Pridiannau Tir Lleol. Wrth baratoi ar gyfer darparu'r gwasanaeth hwn, mae gwariant cysylltiedig yn cael ei fynegi fel gwariant sydd wedi codi oherwydd nid yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfalafu. Fe'i cofnodir yn y cyfrifon o dan 'Costau datblygu'.

### 1.6 Buddion gweithwyr

Cydnabyddir cost darparu buddion gweithwyr yn y cyfnod pan fydd y Gofrestrfa Tir yn derbyn gwasanaethau gan ei gweithwyr, yn hytrach na phan gaiff ei thalu neu pan fydd yn daladwy. Cydnabyddir buddion gweithwyr byrdymor fel traul yn y cyfnod pan fydd y gweithiwr yn darparu'r gwasanaeth. Cydnabyddir taliadau perfformiad dim ond pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i'w talu a gellir rhoi amcangyfrifon dibynadwy o'r costau.

Cydnabyddir buddion terfynu swydd pan ellir dangos bod cytundeb diwrthdro i derfynu cyflogaeth y gweithiwr(gweithwyr) cyn dyddiad ymddeol y cynlluniau neu o ganlyniad i gynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

## 1.7 Pensiynau

Mae gweithwyr y Gofrestrfa Tir yn weision sifil ac mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu Gynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha. Cynlluniau buddion wedi'u diffinio amlgyflogwr heb eu cyllido yw'r rhain, ond nid yw'r Gofrestrfa Tir yn gallu adnabod ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol ar sail resymol a chyson. Felly mae'r Gofrestrfa Tir wedi cyfrif am gyfraniadau a thaliadau i'r cynlluniau hyn o dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 19 *Buddion gweithwyr* fel pe baent yn gynlluniau cyfraniadau wedi'u diffinio. Mae rhwymedigaeth ar gyfer talu buddion yn y dyfodol yn dâl ar Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu gynllun alpha.

## 1.8 Eiddo, offer a chyfarpar

Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol a phrydlesol yn cael eu prisio'n broffesiynol gan briswyr eiddo allanol, annibynnol sydd â chymwysterau proffesiynol cydnabyddedig priodol a phrofiad diweddar yn yr ardal leol a'r categori eiddo a brisir. Cynhaliwyd prisiad llawn gan Cushman & Wakefield, priswyr cofrestredig RICS yn Chwefror 2016.

Mae FReM yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir ddatgelu asedau anghyfredol yn y datganiad o sefyllfa ariannol am werth teg. Ar gyfer asedau sy'n cael eu defnyddio mae'r FReM yn ei gwneud hi'n ofynnol i gael prisiad ar ddefnydd presennol fel gwerth teg ased yn hytrach na gwerth y farchnad sy'n ofynnol gan IFRS 13 *Mesuriad gwerth teg*. Mae manylion addasiadau FReM sy'n parhau i fod yn gymwys ar gyfer 2015/16 i'w gweld yn llawlyfr adrodd ariannol y Llywodraeth 2015 i 2016-Publications-GOV.UK.

Yn achos asedau heb fod yn eiddo sydd ag oes fer defnyddir cost hanesyddol fel brasamcan o werth teg yr ased. Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol ac adeiladau prydlesol wedi'u cynnwys am ailbrisiad llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad. Mae'r holl asedau anghyfredol diriaethol eraill yn cael eu cynnwys am gost hanesyddol llai'r dibrisiad cronedig a cholledion amhariad.

Ni chaiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu dibrisio. Ar gyfer asedau eraill mae'r tâl dibrisio yn cael ei gyfrifo er mwyn dyrannu'r gost neu'r swm wedi'i ailbrisio, llai brasamcan o werth gweddillol asedau anghyfredol yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol sy'n weddill gan ddefnyddio dull llinell syth.

Mae eiddo, offer a chyfarpar arall yn cynnwys TG ac offer swyddfa a pheiriannau. Mae'r Gofrestrfa Tir yn cyfalafu gwariant dros £1,000 ar gyfer ased unigol. Lle y bo'n briodol, mae asedau unigol sy'n is na'r gwerth lleiaf ar gyfer cyfalafu yn cael eu grwpio. Polisi'r Gofrestrfa Tir yw peidio â chyfalafu gwariant ar osodiadau a ffitiadau, dodrefn swyddfa yn bennaf, oherwydd ni ystyrir eu bod yn berthnasol.

Mae oes asedau yn cael ei hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Defnyddir y cyfraddau dibrisio asedau canlynol.

| | | |
|---|---|---|
| Tir rhydd-ddaliol | | dim |
| Adeiladau rhydd-ddaliol | | Oes ddefnyddiol dybiedig |
| Adeiladau prydlesol | | cyfnod y brydles neu'r oes ddefnyddiol dybiedig |
| Offer telegyfathrebu | | 20 y cant |
| Offer swyddfa | | 20 y cant |
| Cyfrifiaduron: | prif-ffrâm | 20 y cant |
| | cyfrifiaduron personol | 33 $^{1}/_{3}$ y cant |
| Ceblo strwythuredig | | 10 y cant |
| Offer a pheiriannau trwm | | 10 y cant |

Mae asedau anghyfredol wedi'u dosbarthu fel rhai a ddelir i'w gwerthu yn cael eu cario am werth teg llai costau i'w gwerthu ac ni chânt eu dibrisio. Mae'r Gofrestrfa Tir yn dosbarthu ased anghyfredol fel un a ddelir i'w werthu os caiff ei swm cario ei adennill yn bennaf drwy drafodiad gwerthu yn hytrach na thrwy ddefnydd parhaus. Er mwyn bod yn gymwys rhaid i'r ased fod ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol a rhaid i'r gwerthiant fod yn hynod debygol.

## 1.9 Amhariad o asedau anghyfredol

Cynhelir adolygiadau amhariad ar ddiwedd pob blwyddyn ac os oes arwyddion bod yr ased wedi dioddef colled amhariad mae tâl yn cael ei adlewyrchu yn y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fydd yn digwydd. Os yw'r ased yn cael ei gario am swm wedi'i ailbrisio, mae'r golled amhariad yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbrisio, yn ôl maint y gronfa ailbrisio sy'n berthnasol i'r ased, gydag unrhyw dâl dros ben wedi'i nodi yn y datganiad o incwm cynhwysfawr. Os oes unrhyw arwydd o'r fath, mae swm yr ased y gellir ei adennill yn cael ei amcangyfrif er mwyn penderfynu graddfa'r golled amhariad. Y swm y gellir ei adennill yw'r uchaf o werth teg llai costau i werthu a gwerth wrth ddefnyddio.

## 1.10 Asedau anniriaethol

**Trwyddedau meddalwedd**

Mae asedau anniriaethol a gafaelwyd ar wahân yn cael eu dangos am gost hanesyddol. Mae'r costau sy'n codi i brynu a defnyddio'r asedau hyn wedi'u cyfalafu. Mae'r rhain yn cynnwys taliadau contractwyr, deunyddiau, llafur i'w briodoli'n uniongyrchol a chostau gorbenion i'w priodoli'n uniongyrchol.

Mae trwyddedau meddalwedd wedi'u cynnwys am gost llai amorteiddio cronedig. Cânt eu hamorteiddio ar sail llinell syth ar gyfradd o

| | |
|---|---|
| Prif-ffrâm | 20 y cant |
| Cyfrifiaduron personol | $33^{1}/_{3}$ y cant |

**Costau datblygu meddalwedd**

Yn unol ag IAS 38 *Asedau anniriaethol*, gall y gwariant ar ddatblygu isadeiledd TG newydd (yn cwmpasu costau trydydd parti a'r costau uniongyrchol o ymdrechion staff mewnol) gael ei gyfalafu. Mae costau datblygu na ellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddylunio a phrofi cynhyrchion meddalwedd adnabyddadwy ac unigryw wedi'u rheoli gan y Gofrestrfa Tir yn cael eu cydnabod fel asedau anniriaethol pan fydd y meini prawf canlynol wedi'u bodloni.

- Mae'n ymarferol yn dechnegol i gwblhau'r cynnyrch meddalwedd er mwyn iddo fod ar gael i'w ddefnyddio.
- Mae'r rheolwyr yn bwriadu cwblhau'r cynnyrch meddalwedd a'i ddefnyddio neu ei werthu.
- Gellir defnyddio neu werthu'r cynnyrch meddalwedd.
- Gellir dangos sut y bydd y cynnyrch meddalwedd yn creu budd economaidd tebygol yn y dyfodol.
- Mae adnoddau technegol, ariannol ac eraill digonol ar gael i gwblhau'r gwaith datblygu neu ddefnyddio neu werthu'r cynnyrch meddalwedd.
- Gall y gwariant i'w briodoli i'r cynnyrch meddalwedd yn ystod ei ddatblygiad gael ei fesur yn ddibynadwy.

Mae'r costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol wedi'u cyfalafu fel rhan o'r cynnyrch meddalwedd yn cynnwys costau gweithwyr datblygu meddalwedd a chyfran briodol o'r gorbenion perthnasol. Mae gwariant datblygu arall sydd heb fodloni'r meini prawf hyn yn cael ei gydnabod fel cost a gafwyd. Nid yw costau datblygu a chafodd eu cydnabod yn flaenorol fel treuliau yn cael eu cydnabod fel ased mewn cyfnod dilynol.

Mae'r holl wariant ymchwil yn cael ei ddileu wrth iddo godi.

**Porthol y Gofrestrfa Tir, E-ddiogelwch a Business Gateway**

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi datblygu tair system ac mae pob un ohonynt yn cael eu defnyddio bellach i ddarparu e-wasanaethau. Mae costau datblygu'r systemau TG (porthol y Gofrestrfa Tir, E-ddiogelwch a Business Gateway) wedi cael eu cyfalafu fel asedau anniriaethol ar y datganiad o sefyllfa ariannol. Mae'r asedau hyn yn cael eu hamorteiddio bellach ar sail llinell syth, ar gyfradd o 12.5 y cant dros oes ddefnyddiol ddiwygiedig y systemau, sydd wedi cael ei phennu drwy gyfeirio at oes ddefnyddiol asedau tebyg sy'n cael eu defnyddio yn y Gofrestrfa Tir. Os yw gwelliannau sylweddol yn cael eu gwneud i'r systemau hyn, mae'r costau sy'n codi yn cael eu trin fel cydran ar wahân a gellir eu cyfalafu (yn amodol ar fodloni'r meini prawf ar gyfer cyfalafu o Fewn IAS 38). Mae'r cydrannau hyn yn cael eu hamorteiddio dros eu hoes ddefnyddiol.

## 1.11 Eiddo buddsoddi

Mae eiddo buddsoddi yn cael ei fesur ar werth teg. Mae unrhyw elw neu golled ar waredu (wedi'i gyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng enillion net o waredu a swm sy'n cario yr eitem) yn cael ei gydnabod mewn elw neu golled. Pan fydd eiddo buddsoddi a gafodd ei ddosbarthu'n flaenorol fel eiddo, offer a chyfarpar yn cael ei werthu, mae unrhyw swm cysylltiedig sydd wedi'i gynnwys yn y gronfa ailbrisio yn cael ei drosglwyddo i enillion a gedwir (gweler nodyn 1.8 am fanylion y priswyr).

## 1.12 Stocrestrau

Mae gwaith ar y gweill wedi'i ddatgan ar yr isaf o gost a gwerth realeiddio net. Mae'r gost yn cynnwys costau mewnol staff a gorbenion y gellir eu priodoli'n uniongyrchol wrth baratoi i gwblhau cofrestru ar gyfer y cwsmer. Mae gwerth realeiddio net yn seiliedig ar y ffi a godir ar y cwsmer llai'r costau pellach y disgwylir iddynt godi wrth gwblhau'r gwasanaethau.

## 1.13 Masnach i'w dderbyn

Nid yw masnach i'w dderbyn yn cario unrhyw log a chaiff ei ddatgan ar ei werth nominal fel masnach wedi'i leihau gan lwfansau priodol ar gyfer symiau nad oes modd eu hadennill. Mae'r darpariaethau amhariad hyn yn cael eu cofnodi yng nghostau gweinyddol o fewn y datganiad o incwm cynhwysfawr. Cymerir bod y swm sy'n cario o fasnach i'w dderbyn yn frasamcan o werth teg.

Os disgwylir casglu symiau i'w derbyn o fewn blwyddyn neu lai cânt eu dosbarthu fel asedau cyfredol.

## 1.14 Arian parod ac arian parod cyfatebol

Mae arian parod yn cynrychioli arian mewn llaw, arian a ddelir gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth, arian ar adnau gyda'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol ac mewn cyfrifon banc masnachol. Mae'r banc masnachol ac adneuon Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth yn gronfeydd sydd ar gael ar unwaith. Mae adneuon y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol yn fuddsoddiadau byrdymor o chwe mis neu lai ac ni ellir eu had-dalu nes bydd y benthyciad yn aeddfedu.

## 1.15 Masnach i'w dalu

Mae masnach i'w dalu yn rhwymedigaethau i dalu am nwyddau a gwasanaethau sydd wedi cael eu caffael yn

ystod busnes arferol gan gyflenwyr. Mae cyfrifon i'w talu wedi'u dosbarthu fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai. Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol. Mae masnach i'w dalu wedi'i ddatgan ar ei werth nominal. Ystyrir bod swm sy'n cario masnach i'w dalu yn frasamcan o werth teg.

## 1.16 Darpariaethau

Mae'r Gofrestrfa Tir yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol ac adeiladol sydd ag amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol, ar sail amcangyfrif gorau'r rheolwyr o'r gwariant sydd ei angen i fodloni'r rhwymedigaeth ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol. Os yw effaith disgowntio yn berthnasol, mae darpariaethau yn cael eu disgowntio i'r gwerth presennol disgwyliedig o'u llifoedd arian parod yn y dyfodol gan ddefnyddio cyfradd disgownt rhydd o risg. Os yw'n briodol ategir hyn gan gyngor proffesiynol annibynnol. Codir darpariaethau ar y datganiad o incwm cynhwysfawr a chânt eu cofnodi fel rhwymedigaethau yn y datganiad o sefyllfa ariannol. (Rhoddir rhagor o fanylion, gan gynnwys materion sensitifrwydd, yn nodyn 16.)

## 1.17 Y Gronfa Indemniad

Mae Atodlen 8 i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir indemnio trydydd partïon yn erbyn colled a achosir gan gamgymeriadau yn y gofrestr, camgymeriadau mewn canlyniadau chwlio a cholli dogfennau gan y Gofrestrfa Tir. Mae'r rhan fwyaf o geisiadau indemniad y Gofrestrfa Tir yn deillio o gamgymeriadau yn y gofrestr, ac mae rhai o'r camgymeriadau hyn yn ganlyniad i dwyllo dogfennau megis pridiannau. Yn wir mae twyll/ffugio fel arfer yn cyfrif am y gyfran fwyaf o'r taliadau indemniad, ac nid yw'r flwyddyn hon yn wahanol. O dan Atodlen 8 i'r Ddeddf, mae hawliau statudol gan y Gofrestrfa Tir i adennill y taliadau hyn gan drydydd partïon, os yw'r trydydd partïon ar fai, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, am y golled.

Fel ar y dyddiad cyfrifyddu cyfredol, mae taliadau am hawliadau yn y dyfodol yn ansicr o ran amseriad a swm. Mae'r Gronfa Indemniad wedi'i sefydlu ar sail yr amcangyfrif gorau o wariant sy'n ofynnol i fodloni'r rhwymedigaeth. Mae'r Gronfa Indemniad yn cael ei gosod ar ôl ystyried amcangyfrifon actiwaraidd o gost yr hawliadau a adroddwyd ond heb eu setlo, yn ogystal â hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd. Mae'r brasamcan o gost hawliadau yn cynnwys treuliau sydd wedi codi wrth setlo'r hawliadau hyn.

Mae swm sy'n cario o'r Gronfa Indemniad yn deillio o farnau beirniadol, amcangyfrifon a rhagdybiaethau yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sylfaenol hyn yn cael eu hadolygu bob chwarter gan y Gofrestrfa Tir, gyda chymorth ei hactiwarïaid annibynnol Lane, Clark & Peacock LLP.

Ar ôl y dyddiad cyfrifyddu, mae adolygiad pellach o'r hawliadau a dderbyniwyd gan y Gofrestrfa Tir (hyd at y dyddiad y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon) yn cael ei wneud i weld a yw'r gronfa indemniad wedi'i phrisio'n briodol o hyd. Mae'r cyfrifon hyn yn rhoi'r gwerthoedd setliad tebygol ar gyfer hawliadau cyfredol a hawliadau yn y dyfodol yn erbyn y Gronfa Indemniad. Rhoddir manylion pellach am y Gronfa Indemniad yn nodyn 16.2 o'r adroddiad hwn.

## 1.18 Rhwymedigaethau wrth gefn

Os yw'n briodol, mae rhwymedigaethau y mae posibilrwydd yn unig y byddant yn crisialu ac nid ydynt yn bodloni meini prawf y darpariaethau, wedi'u dosbarthu fel rhwymedigaethau wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i, hawliadau am golledion sy'n deillio o wallau, neu dwyll mewn perthynas â chyfrifoldeb statudol y Gofrestrfa Tir fel yr yswiriwr teitlau yng Nghymru a Lloegr (gweler nodyn 18.1).

## 1.19 Prydlesi cyllid

Os yw'r Gofrestrfa Tir yn cadw holl risgiau a gwobrwyon perchennog ased sy'n amodol ar brydles, caiff y brydles ei thrin fel prydles gyllid. Mae rhandaliadau sy'n daladwy yn y dyfodol o dan brydlesi cyllid, yn glir o daliadau cyllid, yn cael eu cynnwys yn rhwymedigaethau gyda'r gwerthoedd ased cyfatebol wedi'u cofnodi o fewn asedau anghyfredol a'u dibrisio dros y byrrach o'u hoes ddefnyddiol dybiedig neu eu telerau prydles. Mae taliadau prydles yn cael eu dosrannu rhwng yr elfen gyllid, a godir ar y datganiad o incwm cynhwysfawr fel llog, a'r elfen gyfalaf, sy'n lleihau'r rhwymedigaeth sy'n weddill ar gyfer rhandaliadau yn y dyfodol.

## 1.20 TAW

Mae'r Gofrestrfa Tir yn rhoi cyfrif am TAW ar ei gweithgareddau statudol o dan Gyfarwyddiadau Trethu a Chontractio Allan Gwasanaethau Trysorlys EM. Ar gyfer gweithgarwch anstatudol, sy'n weithgarwch busnes, codir ac adenillir TAW yn ôl rheolau TAW masnachol. Mae TAW nad oes modd ei hadennill yn cael ei chodi i'r categori gwariant perthnasol neu'n cael ei chynnwys yng nghostau prynu wedi'u cyfalafu asedau anghyfredol. Os yw treth allbwn yn cael ei chodi neu os oes modd adennill treth fewnbwn nodir y symiau yn glir o TAW.

## 1.21 Difidend y Trysorlys

Mae'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir dalu i Drysorlys EM ddifidend blynyddol sef 3.6 y cant o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'n ddigonol ym marn y Gofrestrfa Tir i gyfrifo'r ffigur hwn drwy ddefnyddio cyfartaledd blynyddol. Ni cheir unrhyw effaith sylweddol os yw'r ffigur hwn yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio dull arall, e.e. cyfartaledd misol.

## 1.22 Ailddatganiadau cyfnod blaenorol

O dan IAS 8 *Newidiadau polisïau cyfrifyddu mewn amcangyfrifon a gwallau cyfrifyddu*, mae addasiadau i gyfnodau blaenorol yn ofynnol ar gyfer newidiadau i bolisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwallau cyfnod blaenorol, sy'n codi o hepgoriadau, neu gamddatganiadau. Ni chafwyd unrhyw ailddatganiadau cyfnod blaenorol yn 2015/16.

# 2 Segmentau busnes

Mae IFRS 8 - *Segmentau gweithredu* yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddadansoddi incwm a gwariant yn ôl prif weithgareddau busnes.

Mae tri maes ar wahân ar gyfer y gwasanaethau statudol a gyflenwir gan y Gofrestrfa Tir: cofrestru teitl; cofrestru Pridiannau Tir; a chofrestru morgeisi a wneir o dan y Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928. At ddibenion gweithredol, mae'r Gofrestrfa Tir yn cyfuno cyflawni'r ddau wasanaeth olaf hyn ac adlewyrchir hyn yn y dadansoddiad hwn o segmentau.

Mae'r Gofrestrfa Tir hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau masnachol a ddangosir ar wahân fel segment busnes.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am yr incwm o ffïoedd statudol a thaliadau masnachol, cost gwasanaeth a'r gwarged net ar gyfer pob un o'r segmentau busnes. Mae cost gwasanaeth a chostau gweinyddol yn cael eu dyrannu a'u dosrannu ar sail briodol ar gyfer y gwasanaeth.

| | **Statudol** | | **Anstatudol** | **2016** | Statudol | | Anstatudol | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cofrestru teitl** | **Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol** | **Incwm masnachol** | **Cyfanswm** | Cofrestru teitl | Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol | Incwm masnachol | Cyfanswm |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Incwm | **284,196** | **6,193** | **4,983** | **295,372** | 286,696 | 5,749 | 4,635 | 297,080 |
| Cost gwasanaeth | **(233,892)** | **(1,483)** | **(3,216)** | **(238,591)** | (228,716) | (5,253) | (2,602) | (236,571) |
| Costau gweinyddol | **(15,228)** | **(33)** | **(332)** | **(15,593)** | (12,376) | (260) | (332) | (12,968) |
| **Gwarged gweithredu** | **35,076** | **4,677** | **1,435** | **41,188** | 45,604 | 236 | 1,701 | 47,541 |

Mae'r gwarged ar gyfer cofrestru teitl wedi gostwng gan £10.6 miliwn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Y rheswm am hyn yw cyfuniad o lai o incwm (sydd yn unol â'r gyllideb wreiddiol) a chynnydd mewn costau. Mae'r cynnydd cost i'w briodoli i gynnydd dros y flwyddyn flaenorol o £11.2 miliwn ar gyfer y ddarpariaeth indemniad (yr IBNR yn bennaf) ac ailbrisiad am i lawr o ystad y Gofrestrfa Tir, gan roi amhariad o £6.6 miliwn.

Mae'r gwarged ar gyfer Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol wedi cynyddu oherwydd bod mwy o ddealltwriaeth o'r costau sy'n gymwys i'r gwasanaeth hwn. Byddai'r effaith ar y gwarged, ar gyfer y flwyddyn flaenorol, pe bai'r un cymhwysiad o gostau bod yn weithredol, yn rhoi gwarged o £4.4 miliwn.

Mae'r gwarged am y flwyddyn ar incwm masnachol o £1.4 miliwn yn uwch na'r disgwyl. Roedd refeniw yn uwch na'r waelodlin a ragwelwyd (£0.9 miliwn) oherwydd bod rhai cwsmeriaid wedi datblygu eu cysylltedd i'r gwasanaeth yn gyflymach na'r disgwyl, gan arwain at refeniw yn cael ei realeiddio'n gynharach nag y rhagwelwyd, gwasanaeth arall yn cael ei ail-hysbysebu, gan arwain at gynnydd yn y defnydd ohono; a cheisiadau annisgwyl gan y sector benthyca.

# 3 Gwarged gweithredu

## 3.1 Datgenir y gwarged gweithredu ar ôl codi tâl

| | **2016** | 2015 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Costau staff (gweler nodyn 4.1) | **168,173** | 165,235 |
| Darpariaeth ar gyfer costau indemniad | **11,200** | 8,700 |
| Costau seilwaith TG[1] | **–** | 2,616 |
| Gwasanaethau TG | **14,901** | 14,136 |
| Hurio peiriannau | **5,302** | 5,448 |
| Tâl yr archwiliwr - ffi archwilio | **65** | 65 |
| Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol - a berchenogir | **4,682** | 5,042 |
| Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol - a brydlesir | **547** | 1,082 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | **338** | 514 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anghyfredol | **6,466** | 1,125 |
| Tâl am brydlesi gweithredu - adeiladau | **1,361** | 1,321 |
| Incwm amrywiol | **(2,842)** | (2,265) |

1. Cafodd gwasanaethau TG eu cymryd yn fewnol ar ôl i'r contract gyda Steria ddod i ben yng Ngorffennaf 2014.

## 3.2 Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu

| | | | | **2016** | | | | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ymddeoliad cynnar** | **Diswyddo cynnar** | **RhTC[1]** | **Cyfanswm** | Ymddeoliad cynnar | Ymddeoliad cynnar | RhTC | Cyfanswm |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Costau a gododd yn y flwyddyn | **282** | **–** | **1,176** | **1,458** | 157 | 1,348 | 982 | 2,487 |
| Costau a ddarparwyd yn y flwyddyn | **–** | **–** | **–** | **–** | 588 | 2,272 | – | 2,860 |
| | **282** | **–** | **1,176** | **1,458** | 745 | 3,620 | 982 | 5,347 |

[1] Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig.

## 3.3 Costau datblygu Pridiannau Tir Lleol

| | **2016** | 2015 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Costau a gododd yn y flwyddyn | **2,265** | 3,028 |
| | **2,265** | 3,028 |

Roedd Deddf Seilwaith 2015 wedi trosglwyddo cyfrifoldeb i'r Gofrestrfa Tir am gynnal cofrestr o Bridiannau Tir Lleol ac rydym wrthi'n datblygu'r gwasanaeth statudol hwn fel segment busnes newydd. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu'r gwasanaeth hwn wedi'u cofnodi ar wahân a'u dangos yn y tabl uchod.

# 4 Gwybodaeth am weithwyr

## 4.1 Costau staff

| | 2016 | | | | 2015 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Prentisiaid** | **Eraill** | **Cyfanswm** | Staff parhaol | Prentisiaid | Eraill | Cyfanswm |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | **124,291** | **2,118** | **7,640** | **134,049** | 127,745 | 574 | 4,116 | 132,435 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **9,337** | **169** | **151** | **9,657** | 9,756 | 46 | 36 | 9,838 |
| Costau pensiwn eraill | **23,669** | **424** | **374** | **24,467** | 22,771 | 115 | 76 | 22,962 |
| **Cyfanswm costau staff** | **157,297** | **2,711** | **8,165** | **168,173** | 160,272 | 735 | 4,228 | 165,235 |

## 4.2 Niferoedd staff

Roedd nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn) gan y Gofrestrfa Tir yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn.

| | 2016 | | | | 2015 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Prentisiaid** | **Eraill** | **Cyfanswm** | Staff parhaol | Prentisiaid | Eraill | Cyfanswm |
| Uwch reolwyr | **7** | **–** | **1** | **8** | 7 | – | 1 | 8 |
| Gweithredol | **3,310** | **99** | **26** | **3,435** | 3,330 | 39 | 9 | 3,378 |
| Gweinyddol | **222** | **–** | **8** | **230** | 234 | – | 18 | 252 |
| TG | **344** | **–** | **18** | **362** | 354 | – | 41 | 395 |
| | **3,883** | **99** | **53** | **4,035** | 3,925 | 39 | 69 | 4,033 |

**4.3** Mae cyflog a hawliau pensiwn y Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr y Gofrestrfa Tir wedi'u cynnwys yn yr adroddiad Tâl a Staffio ar dudalennau 49 i 64.

## 4.4 Pensiynau

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha yn gynlluniau buddion wedi'u diffinio amlgyflogwr heb eu cyllido ond ni all y Gofrestrfa Tir adnabod ei chyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Roedd actiwari'r cynllun wedi prisio'r cynllun ar 31 Mawrth 2012. Fe gewch fanylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil.

Ar gyfer 2015/16, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £24.4 miliwn yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (2014/15: £22.9 miliwn) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 20.0 y cant i 24.5 y cant o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Gosodir cyfraddau cyfraniadau i dalu am gost y buddion sy'n codi yn ystod 2015/16 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn budd-ddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr.

Talwyd cyfraniadau Cofrestrfa Tir o £146,842 i un neu ragor o'r panel o dri darparwr pensiwn budd-ddeiliad penodedig (2014/15: £49,316). Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio rhwng 3 y cant i 12.5 y cant o enillion pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 ac o 8 y cant i 14.75 y cant o enillion pensiynadwy o 1 Hydref 2015. Mae'r Gofrestrfa Tir hefyd yn cyfateb cyfraniadau gweithwyr hyd at 3 y cant o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau'r Gofrestrfa Tir o £3,534, 0.8 o dâl pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 a 0.5 y cant o dâl pensiynadwy o 1 Hydref 2015, yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil i dalu am gost darparu buddion cyfandaliad ar farwolaeth mewn gwasanaeth neu ymddeol ar sail afiechyd o'r gweithwyr hyn yn y dyfodol (2014/15: £3,208).

Nid oedd unrhyw gyfraniadau dyledus i ddarparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol neu gyfraniadau rhagdaledig ar y dyddiad hwnnw yn berthnasol.

Roedd un ar ddeg unigolyn wedi ymddeol yn gynnar yn ystod y flwyddyn ar sail afiechyd. Cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn cronnus ychwanegol yn y flwyddyn oedd £39,830 (2014/15: £23,558).

Mae rhagor o wybodaeth am y trefniadau pensiwn i'w gweld yn yr adroddiad Tâl a Staffio ar dudalennau 49 i 64 a nodyn 1.7 ar dudalen 74.

## 5 Incwm buddsoddi

| | **2016** | 2015 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Llog ar adneuon banc | **1,774** | 1,881 |

## 6 Costau cyllid

| | **2016** | 2015 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Llog ar rwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | **702** | 899 |

## 7 Difidend i'w dalu

| | **2016** | 2015 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Difidend i'w dalu | **13,584** | 19,114 |
| Difidend arbennig | **–** | 100,000 |
| | **13,584** | 119,114 |

Ym Mawrth 2016 gwnaethpwyd taliad interim o £10.6 miliwn mewn perthynas â'r difidend cyffredin.

Gweler nodyn 1.21 ar dudalen 76 ar gyfer y polisi cyfrifyddu sy'n ymwneud â thaliadau difidend.

# 8 Eiddo, offer a chyfarpar

## 8.1 Cost neu brisiad

| | Eiddo | | | | Offer a chyfarpar | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhydd-ddaliol | | | Prydlesol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Asedau cysylltiedig â TG | Offer a chyfarpar arall | Cyfanswm |
| | Tir | Adeiladau | Eiddo buddsoddi | Adeiladau | | | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2015 | **13,811** | **56,342** | **–** | **25,643** | **–** | **65,514** | **4,412** | **165,722** |
| Ychwanegiadau | **–** | **–** | **–** | **–** | **770** | **4,223** | **22** | **5,015** |
| Asedau wedi dwyn i'w defnyddio | **–** | **–** | **–** | **–** | **(302)** | **302** | **–** | **–** |
| Ailbrisiad yn y flwyddyn | **(3,666)** | **128** | **–** | **(310)** | **–** | **–** | **–** | **(3,848)** |
| Ailddosbarthu asedau | **(335)** | **(5,665)** | **6,800** | **(800)** | **–** | **(1)** | **(21)** | **(22)** |
| Amhariad | **(725)** | **(1,837)** | **–** | **(2,902)** | **–** | **–** | **–** | **(5,464)** |
| Gwarediadau | **–** | **–** | **–** | **(9,459)** | **–** | **(1,594)** | **–** | **(11,053)** |
| Ar 31 Mawrth 2016 | **9,085** | **48,968** | **6,800** | **12,172** | **468** | **68,444** | **4,413** | **150,350** |

**Dibrisiad ac amhariad cronedig**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2015 | **–** | **15,235** | **–** | **7,665** | **–** | **59,442** | **3,118** | **85,460** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | **–** | **1,497** | **–** | **910** | **–** | **3,861** | **215** | **6,483** |
| Ailbrisiad cost cyfredol | **–** | **(524)** | **–** | **(686)** | **–** | **–** | **–** | **(1,210)** |
| Ailddosbarthu asedau | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **(1)** | **(21)** | **(22)** |
| Gwarediadau | **–** | **–** | **–** | **(2,674)** | **–** | **(1,162)** | **–** | **(3,836)** |
| Ar 31 Mawrth 2016 | **–** | **16,208** | **–** | **5,215** | **–** | **62,140** | **3,312** | **86,875** |
| Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2016 | **9,085** | **32,760** | **6,800** | **6,957** | **468** | **6,304** | **1,101** | **63,475** |

## 8.2 Cost neu brisiad

| | Eiddo | | | | Offer a chyfarpar | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhydd-ddaliol | | | Prydlesol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Asedau cysylltiedig â TG | Offer a chyfarpar arall | Cyfanswm |
| | Tir | Adeiladau | Eiddo buddsoddi | Adeiladau | | | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 13,962 | 55,373 | – | 28,503 | 656 | 73,061 | 4,934 | 176,489 |
| Ychwanegiadau | – | – | – | – | – | 2,317 | 344 | 2,661 |
| Asedau wedi'u dwyn i'w defnyddio | – | 139 | – | – | (172) | 17 | – | (16) |
| Ailbrisiad yn y flwyddyn | (151) | 832 | – | (2,405) | – | (468) | – | (2,192) |
| Ailddosbarthu asedau | – | – | – | – | (484) | 59 | – | (425) |
| Amhariad | – | (2) | – | (455) | – | – | – | (457) |
| Gwarediadau | – | – | – | – | – | (9,472) | (866) | (10,338) |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 13,811 | 56,342 | – | 25,643 | – | 65,514 | 4,412 | 165,722 |

**Dibrisiad ac amhariad cronedig**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2014 | – | 14,232 | – | 7,109 | – | 64,036 | 3,778 | 89,155 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | – | 1,518 | – | 1,287 | – | 4,465 | 199 | 7,469 |
| Ailbrisiad cost cyfredol | – | (515) | – | (731) | – | – | – | (1,246) |
| Ailddosbarthu asedau | – | – | – | – | – | 59 | – | 59 |
| Gwarediadau | – | – | – | – | – | (9,118) | (859) | (9,977) |
| Ar 31 Mawrth 2015 | – | 15,235 | – | 7,665 | – | 59,442 | 3,118 | 85,460 |
| Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2015 | 13,811 | 41,107 | – | 17,978 | – | 6,072 | 1,294 | 80,262 |

Gweler nodyn 1.8 ar dudalen 74 am fanylion y polisi cyfrifyddu eiddo, offer a chyfarpar.

Gweler nodyn 1.9 ar dudalen 74 am fanylion y polisi cyfrifyddu amhariad,

Gweler nodyn 8.4 am fanylion eiddo buddsoddi.

Swm sy'n cario tir ac adeiladu ar werth y farchnad yw £41.4 miliwn. Swm net y prydlesi cyllid ar ddiwedd y flwyddyn oedd £0.1 miliwn (2014/15: £1.2 miliwn). Yn y flwyddyn codwyd £0.0 miliwn o ddibrisiad, £0.3 miliwn o ailbrisiad am i lawr a thâl amhariad o £0.8 miliwn ar yr asedau prydles cyllid hyn.

Codwyd £0.04 miliwn o ddibrisiad i amorteiddio a dibrisio systemau e-wasanaeth.

## 8.3 Asedau anghyfredol wedi'u dosbarthu fel asedau a ddelir i'w gwerthu

Mae Chalfont Drive, Nottingham - llain ddeheuol wedi cael ei drosglwyddo o asedau anghyfredol wedi'u dosbarth fel rhai a ddelir i'w gwerthu i asedau anghyfredol. Roedd hyn yn dilyn adolygiad ym Mawrth 2016 a benderfynodd nad oedd unrhyw arwydd y byddai'n cael ei werthu'n fuan. Codwyd amhariad o £1 miliwn i wariant a chodwyd £1.75 miliwn yn erbyn y gronfa ailbrisio, cyn i'r ased gael ei drosglwyddo i eiddo, offer a chyfarpar. Gwerthwyd Chalfont Drive, Nottingham - llain ogleddol am £9.4m yn ystod y flwyddyn.

## 8.4 Eiddo buddsoddi

Mae eiddo buddsoddi yn cynnwys nifer o eiddo sy'n cael eu prydlesu i drydydd partïon naill ai'n rhannol neu'n llawn. Mae cyfnodau na ellir eu canslo gwahanol gan y prydlesi gyda phwyntiau opsiwn toriad yn amrywio o chwe mis i wyth mlynedd. Mae cyfnod adolygu rhent blynyddol gan un brydles, mae gan ddwy brydles gyfnod adolygu rhent bob pum mlynedd, a does dim cyfnod adolygu rhent gan un brydles. Mae cynnydd yn gysylltiedig â rhent y farchnad yn seiliedig ar gymaryddion. Nid oes hawl adnewyddu awtomatig gan yr un ohonynt. Mae rhagor o wybodaeth am y prydlesi hyn i'w gweld yn nodyn 14.2.

Penderfynwyd ar werth teg eiddo buddsoddi gan briswyr eiddo allanol, annibynnol sydd â'r cymwysterau proffesiynol cydnabyddedig priodol a phrofiad diweddar yn yr ardal leol a'r categori eiddo a brisir. Mae'r priswyr annibynnol yn darparu gwerth teg o eiddo buddsoddi'r Gofrestrfa Tir yn flynyddol (gweler nodyn 1.8 am fanylion y priswyr).

Dangosir y symudiad o werth teg defnydd presennol i eiddo buddsoddi ar werth teg yn y tabl ar dudalen 81.

Mae gwerth teg eiddo buddsoddi i gyd yn lefel 3 ar yr hierarchaeth gwerth teg oherwydd cânt eu prisio trwy gyfeirio at dechnegau prisio sy'n defnyddio mewnbynnau nad ydynt yn seiliedig ar ddata marchnad arsylladwy.

Nid oedd unrhyw drosglwyddiadau rhwng datgeliadau gwerth teg lefel 2 a lefel 3 yn ystod y flwyddyn.

Mae pob eiddo buddsoddi yn cael ei fesur yn seiliedig ar brisiau marchnad gweithredol wedi'i haddasu lle y bo angen ar gyfer unrhyw wahaniaeth mewn natur, lleoliad neu gyflwr pob eiddo penodol. Y pris marchnad gweithredol yw'r rhent marchnad gan ystyried unrhyw gyfnodau disgwyliedig neu ragweladwy o ddim meddiannaeth gan denant yn y dyfodol.

# 9 Asedau anniriaethol

## 9.1 Cost

| | E-ddiogelwch | Porthol | Business Gateway | Trwyddedau meddalwedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2015 | **9,691** | **15,967** | **1,766** | **42,120** | **69,544** |
| Ychwanegiadau | **–** | **–** | **–** | **543** | **543** |
| Asedau wedi'u dwyn i'w defnyddio | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** |
| Ailddosbarthiad | **–** | **–** | **–** | **2** | **2** |
| Ailbrisiad | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** |
| Gwarediadau | **–** | **–** | **–** | **(18)** | **(18)** |
| Ar 31 Mawrth 2016 | **9,691** | **15,967** | **1,766** | **42,647** | **70,071** |
| **Amorteiddio** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2015 | **7,268** | **11,976** | **1,326** | **41,384** | **61,954** |
| Tâl am y flwyddyn | **1,210** | **1,995** | **221** | **336** | **3,762** |
| Ailddosbarthu asedau | **–** | **–** | **–** | **3** | **3** |
| Ailbrisiad | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** |
| Gwarediadau | **–** | **–** | **–** | **(18)** | **(18)** |
| Ar 31 Mawrth 2016 | **8,478** | **13,971** | **1,547** | **41,705** | **65,701** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2016** | **1,213** | **1,996** | **219** | **942** | **4,370** |

## 9.2 Cost

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 9,691 | 15,967 | 1,766 | 42,858 | 70,282 |
| Ychwanegiadau | – | – | – | 509 | 509 |
| Asedau wedi'u dwyn i'w defnyddio | – | – | – | 16 | 16 |
| Ailddosbarthiad | – | – | – | (59) | (59) |
| Ailbrisiad | – | – | – | (186) | (186) |
| Gwarediadau | – | – | – | (1,018) | (1,018) |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 9,691 | 15,967 | 1,766 | 42,120 | 69,544 |
| **Amorteiddio** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 6,057 | 9,980 | 1,104 | 41,947 | 59,088 |
| Tâl am y flwyddyn | 1,211 | 1,996 | 222 | 514 | 3,943 |
| Ailddosbarthu asedau | – | – | – | (59) | (59) |
| Gwarediadau | – | – | – | (1,018) | (1,018) |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 7,268 | 11,976 | 1,326 | 41,384 | 61,954 |
| Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2015 | 2,423 | 3,991 | 440 | 736 | 7,590 |

Gweler nodyn 1.10 ar dudalen 75 am fanylion y polisi cyfrifyddu asedau anniriaethol.

Codwyd £3.4 miliwn o amorteiddio i amorteiddio a dibrisio systemau e-wasanaeth.

# 10 Stocrestrau

| | 2016 | 2015 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwaith ar y gweill | **4,745** | 2,489 |
| | **4,745** | 2,489 |

# 11 Masnach ac eraill i'w derbyn

## 11.1 Cyfredol

| | 2016 | 2015 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Masnach i'w dderbyn | **2,263** | 2,238 |
| Eraill i'w derbyn | **6,285** | 1,994 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | **4,243** | 3,586 |
| | **12,791** | 7,818 |

Y cyfnod credyd cyfartalog a gymerir ar gyfer darparu gwasanaethau yw tri diwrnod. Ni chodir unrhyw log ar yr hyn sydd i'w dderbyn. Rhoddwyd lwfans ar gyfer brasamcan o'r symiau nad oes modd eu hadennill o ddarparu gwasanaethau ac mae'r lwfans hwn wedi'i bennu drwy gyfeirio at brofiad diffygdalu yn y gorffennol.

## 11.2 Anghyfredol

| | 2016 | 2015 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Eraill i'w derbyn | **302** | 375 |
| Rhagdaliadau | **1,135** | 982 |
| | **1,437** | 1,357 |

Bernir bod y swm sy'n cario o fasnach ac eraill i'w derbyn yn frasamcan o'u gwerth teg. Wedi'i gynnwys o fewn rhagdaliadau mae £0.59 miliwn sy'n ymwneud ag offer sganio ar gyfer yr Ystafell Bost Rithwir.

# 12 Arian yn y banc ac mewn llaw

| | 2016 | 2015 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | **46,764** | 36,539 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | **16,681** | 30,817 |
| Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol | **380,426** | 330,396 |
| | **443,871** | 397,752 |

Asedau ariannol y Gofrestrfa Tir yw gweddillion banc ac arian parod a masnach ac eraill i'w derbyn, sy'n cynrychioli'r uchafswm risg credyd mewn perthynas ag asedau ariannol. Mae'r risg credyd i'w briodoli'n bennaf i fasnach ac eraill i'w derbyn ac mae wedi'i ledaenu dros nifer fawr o gwsmeriaid. Mae'r symiau a gyflwynir yn y datganiad o sefyllfa ariannol yn glir o lwfansau ar gyfer symiau amheus i'w derbyn, wedi'u hamcangyfrif gan y rheolwyr yn seiliedig ar brofiadau'r gorffennol ac asesiad o'r hinsawdd economaidd bresennol. Mae'r risg credyd ar gronfeydd hylifol wedi'i gyfyngu oherwydd mae gweddillion banc y Gofrestrfa Tir yn cael eu dal gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol yn bennaf.

# 13 Masnach ac eraill i'w talu

## 13.1 Cyfredol

| | 2016 | 2015 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Masnach i'w dalu | **1,701** | 2,801 |
| Treth a nawdd cymdeithasol | **2,823** | 2,598 |
| Eraill i'w talu | **2,777** | 2,512 |
| Croniadau | **20,115** | 23,203 |
| Rhwymedigaethau net o dan brydlesi cyllid - adeiladau | **165** | 146 |
| Rhwymedigaethau net o dan brydlesi cyllid - offer cyfrifiadurol | **119** | 475 |
| Incwm gohiriedig - ffïoedd a dderbyniwyd ymlaen llaw | **21,183** | 12,945 |
| Difidend i'w dalu | **2,981** | 4,114 |
| | **51,864** | 48,794 |

Mae masnach ac eraill i'w talu yn cynnwys symiau sydd i'w talu ar gyfer prynu eitemau masnach a chostau parhaus yn bennaf. Y cyfnod credyd a gymerir ar gyfartaledd ar gyfer prynu eitemau masnach yw naw niwrnod. Bernir bod y swm sy'n cario o'r eitemau masnach i'w talu yn frasamcan o'u gwerth teg.

## 13.2 Anghyfredol

| | 2016 | 2015 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Rhwymedigaethau net o dan brydlesi cyllid - adeiladau | **4,924** | 5,089 |
| Rhwymedigaethau net o dan brydlesi cyllid - offer cyfrifiadurol | **7** | 126 |
| | **4,931** | 5,215 |

# 14 Ymrwymiadau o dan brydlesi

## 14.1 Prydlesi cyllid

| | **Isafswm taliadau prydles** | | **Gwerth presennol isafswm taliadau prydles** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2016** | 2015 | **2016** | 2015 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Symiau i'w talu o dan brydlesi cyllid | | | | |
| O fewn blwyddyn | **966** | 1,322 | **284** | 621 |
| Yn yr all i'r bumed flwyddyn | **3,320** | 3,511 | **899** | 933 |
| Ar ôl pum mlynedd | **6,839** | 7,614 | **4,032** | 4,282 |
| | **11,125** | 12,447 | **5,215** | 5,836 |
| Llai taliadau cyllid yn y dyfodol | **(5,910)** | (6,611) | | |
| Gwerth presennol ymrwymiadau prydlesi | **5,215** | 5,836 | | |
| Llai swm i'w dalu ar gyfer setliad o fewn 12 mis (wedi'i ddangos o dan rwymedigaethau cyfredol) | | | **(284)** | (621) |
| Swm i'w dalu ar gyfer setliad ar ôl 12 mis | | | **4,931** | 5,215 |

## 14.2 Prydlesi gweithredu

### Prydlesi fel prydlesai

| | **2016** | 2015 |
|---|---|---|
| | **£’000** | £’000 |
| Isafswm taliadau prydles o dan brydlesi gweithredu a gydnabyddir yn y flwyddyn | **1,426** | 1,444 |
| Incwm o denantiaid | **(65)** | (123) |
| | **1,361** | 1,321 |

Ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol roedd gan y Gofrestrfa Tir ymrwymiadau heb eu talu ar gyfer isafswm taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu nad oes modd eu canslo, sy’n ddyledus fel a ganlyn:

| | **2016** | 2015 |
|---|---|---|
| | **£’000** | £’000 |
| O fewn blwyddyn | **–** | 405 |
| Yn yr all i’r bumed flwyddyn | **–** | – |
| Ar ôl pum mlynedd | **1,021** | 1,021 |
| Incwm sy’n ddyledus gan denantiaid | **–** | (65) |
| | **1,021** | 1,361 |

Mae taliadau prydles gweithredu yn cynrychioli rhenti sy’n daladwy gan y Gofrestrfa Tir ar gyfer tir ac adeiladau, gan gynnwys swyddfeydd lleol Nottingham a Peterborough.

**Prydlesi fel prydleswr**
Mae’r Gofrestrfa Tir yn prydlesu eiddo buddsoddi (gweler nodyn 8.4).

Ar 31 Mawrth 2016 mae’r lleiafswm taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesi na ellir eu canslo i’w derbyn fel a ganlyn: prydlesi gweithredu, sy’n ddyledus fel a ganlyn:

| | **2016** | 2015 |
|---|---|---|
| | **£’000** | £’000 |
| O fewn blwyddyn | **–** | – |
| Yn yr all i’r bumed flwyddyn | **18** | – |
| Ar ôl pum mlynedd | **349** | – |
| | **367** | – |

Yn ystod y flwyddyn roedd incwm rhentu eiddo buddsoddi o £0.55 miliwn wedi’i gynnwys o fewn incwm amrywiol (gweler nodyn 3.1). Mae hyn yn dilyn trin blynyddoedd blaenorol pan roedd yr eiddo wedi’u gosod o dan femorandwm telerau meddiannaeth i sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Erbyn hyn mae’r eiddo buddsoddi yn cael eu gosod ar delerau masnachol. Gan nad yw hyn yn rhan o fusnes craidd y Gofrestrfa Tir, ac mae’r gwerthoedd yn ansylweddol, mae’r incwm rhent yn parhau i gael ei drin fel incwm amrywiol a gwariant wedi’i ddebydu.

# 15 Benthyciadau

Nid oedd unrhyw fenthyciadau gan y Gofrestrfa Tir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2016.

# 16 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

## 16.1 Cynlluniau rhyddhau cynnar ac eraill

| | **Ymddeoliad cynnar** | **Diswyddo cynnar** | **Cyfranbrynu tâl dilyniant** | **Arall** | **Cyfanswm** | Ymddeoliad cynnar | Diswyddo cynnar | Cyfranbrynu tâl dilyniant | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **2016** | | | | | 2015 |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2015 | **18,005** | **2,272** | **845** | **361** | **21,483** | 22,789 | 726 | – | 1,966 | 25,481 |
| Ailbrisio darpariaeth | **228** | **–** | **–** | **1,848** | **2,076** | 588 | 2,272 | 845 | 125 | 3,830 |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | **(4,550)** | **(2,242)** | **(831)** | **(86)** | **(7,709)** | (5,372) | (726) | – | (1,160) | (7,258) |
| Darpariaeth a adferwyd heb ei defnyddio | **–** | **(30)** | **(14)** | **(274)** | **(318)** | – | – | – | (570) | (570) |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **13,683** | **–** | **–** | **1,849** | **15,532** | 18,005 | 2,272 | 845 | 361 | 21,483 |
| Wedi'i gynnwys yn rhwymedigaethau cyfredol | | | | | **8,116** | | | | | 10,218 |
| Wedi'i gynnwys yn rhwymedigaethau anghyfredol | | | | | **7,416** | | | | | 11,265 |
| | | | | | **15,532** | | | | | 21,483 |

Mae'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar yn rhoi buddion ymddeol i rai gweithwyr. Mae'r buddion hyn yn cydymffurfio â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Gofrestrfa Tir yn talu cost y buddion hyn tan oedran ymddeol arferol y gweithwyr sy'n ymddeol o dan y cynllun. Cyfanswm taliadau yn y flwyddyn oedd £4.6 miliwn yn 2015/16, a darparwyd ar gyfer £4.6 miliwn ohono o fewn y ddarpariaeth ymddeoliad cynnar yng nghyfrifon 2015/16. Codir cyfanswm y rhwymedigaeth pensiwn hyd at oedran ymddeol arferol ar gyfer pob gweithiwr ar y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fydd y gweithiwr yn ymddeol yn gynnar ac mae darpariaeth ar gyfer taliadau pensiwn yn y dyfodol yn cael ei chreu. Yna mae taliadau pensiwn a buddion cysylltiedig y gweithiwr sydd wedi ymddeol tan oedran ymddeol arferol yn cael eu codi bob blwyddyn yn erbyn y ddarpariaeth.

Sefydlwyd y ddarpariaeth diswyddo cynnar i ddarparu ar gyfer cost yr aelodau staff hynny sy'n gadael y Gofrestrfa Tir o dan delerau rhaglen ymadael yn gynnar ffurfiol sydd yn ei lle fel ar 31 Mawrth 2015. Cyfanswm taliadau yn y flwyddyn oedd £2.3 miliwn yn 2015/16, a darparwyd ar gyfer £2.2 miliwn ohono o fewn y ddarpariaeth ymddeoliad cynnar yng nghyfrifon 2015/16.

Mae IAS 37 *Darpariaethau, rhwymedigaethau wrth gefn ac asedau* yn datgan: "Os yw gwerth amser yr arian yn berthnasol, dylai swm y ddarpariaeth gynrychioli gwerth presennol y gwariant y disgwylir y bydd yn ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth." Y ffactor disgownt a gymhwysir i'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar dros 10 mlynedd yw 2.0 y cant. Effaith dad-ddirwyn y disgownt yn 2015/16 oedd £0.2 miliwn (2014/15: £0.5 miliwn).

Wedi'i gynnwys o fewn 'Arall' yw swm o £1.2 miliwn sy'n daladwy i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) yn dilyn archwiliad cydymffurfiaeth treth. Mae'r amseriad a'r gwerth terfynol i'w cytuno.

## 16.2 Y Gronfa Indemniad

Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Gofrestrfa Tir i indemnio ar gyfer colledion sy'n deillio o wallau neu hepgoriadau yn y gofrestr teitl. Mae hyn yn cynnwys gwallau sy'n deillio o dwyll gan drydydd partïon. Fel yr yswiriwr statudol o deitlau yng Nghymru a Lloegr, ni chyfyngir taliadau indemniad i gamgymeriadau a wnaed gan y Gofrestrfa Tir. Mae'r Gofrestrfa Tir yn darparu ar gyfer yr hawliadau hyn o dan ei Chronfa Indemniad ar gyfer hawliadau hysbys a hawliadau sydd wedi codi ond sydd heb eu hadrodd (IBNR).

| | **Darpariaeth yn weddill** | **Darpariaeth IBNR** | **2016 Cyfanswm** | Darpariaeth yn weddill | Darpariaeth IBNR | 2015 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill | **8,400** | **65,200** | **73,600** | 11,200 | 53,700 | 64,900 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | **8,135** | **–** | **8,135** | 8,130 | – | 8,130 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | **(8,135)** | **–** | **(8,135)** | (8,130) | – | (8,130) |
| Ailbrisiad hawliadau | **2,100** | **–** | **2,100** | (2,800) | – | (2,800) |
| Ailbrisiad IBNR | **–** | **9,100** | **9,100** | – | 11,500 | 11,500 |
| **Ar 31 Mawrth** | **10,500** | **74,300** | **84,800** | 8,400 | 65,200 | 73,600 |

Yn dilyn adolygiad actiwaraidd gan Lane Clark & Peacock, mae'r gronfa mewn perthynas â hawliadau a gofnodwyd ond heb eu talu (Darpariaeth yn weddill) wedi cynyddu yn 2015/16 gan £2.1 miliwn (2014/15: gostyngiad o £2.8 miliwn). Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hawliadau sydd wedi codi ond sydd heb eu hadrodd (darpariaeth IBNR) wedi cynyddu yn 2015/16 gan £9.1 miliwn (2014/15: cynnydd o £11.5 miliwn).

Y prif reswm am y symudiad o £9.1 miliwn oedd newid yng nghyfradd disgownt ragnodedig Trysorlys EM (cynnydd - £14.9 miliwn) a newidiadau i ragdybiaethau Lane Clark & Peacock yn sgil patrymau o brofiad hawliadau sy'n dod i'r amlwg (gostyngiad - £6.7 miliwn).

Mae'r Ddarpariaeth yn weddill ar gyfer hawliadau a dderbyniwyd ond sydd heb eu setlo eto yn amcangyfrif a gan ei bod yn cynnwys rhagfynegi taliadau yn y dyfodol, mae'r symiau terfynol sy'n cael eu talu ar yr hawliadau hyn yn ansicr. Y prif ansicrwydd yw:

- cyfran yr hawliadau sy'n weddill a gaiff eu talu yn y pen draw
- gwerth y taliadau sy'n cael eu gwneud
- effaith unrhyw benderfyniadau cyfreithiol

Gall presenoldeb hawliadau mawr sydd heb eu talu ychwanegu'n sylweddol at yr ansicrwydd hwn.

Mae'r ddarpariaeth IBNR yn fwy ac o'i hanfod yn fwy ansicr na'r Ddarpariaeth yn weddill. Yn wahanol i'r Ddarpariaeth yn weddill, sy'n seiliedig ar wybodaeth am hawliadau presennol, mae'r ddarpariaeth IBNR yn cwmpasu hawliadau posibl a all gael eu gwneud o ganlyniad i wallau sydd eisoes wedi cael eu cyflwyno i'r gofrestr o ganlyniad i weithgarwch diweddaru o ddydd i ddydd (naill ai trwy dwyll a ffugio neu wall gweinyddol). Y prif ansicrwydd o fewn y ddarpariaeth IBNR yw:

- ni wyddys faint o wallau heb eu hadrodd sydd o fewn y gofrestr ar hyn o bryd
- ar ba bwynt yn y dyfodol fydd y gwallau hyn yn cael eu darganfod a bydd hawliadau'n cael eu gwneud
- faint fydd cost y ceisiadau cyfatebol.

Gall hawliadau gymryd sawl blwyddyn i'w hadrodd ac yna eu setlo.

Wrth amcangyfrif y ddarpariaeth IBNR, mae'r actiwarïaid yn rhagfynegi nifer ac amseriad adroddiadau hawliadau yn y dyfodol a maint cyfartalog hawliadau, gan ddefnyddio rhagdybiaethau am batrymau setlo hawliadau, effeithiau disgwyliedig unrhyw ddyfarniadau cyfreithiol a wyddys a chwyddiant hawliadau. Yna mae llifoedd arian parod hawliadau amcanol sy'n deillio yn y dyfodol yn cael eu disgowntio i werth presennol net ar y dyddiad cyfrifyddu gan ddefnyddio cyfraddau disgownt rhagnodedig y Trysorlys.

Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn yr amcanestyniadau yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata hawliadau hanesyddol, lwfans ar gyfer tueddiadau diweddar ac ystyried effeithiau posibl ffactorau sylfaenol fel maint gweithgarwch y Gofrestrfa Tir a nifer y teitlau cofrestredig. Darparwn fewnbwn i'r actiwarïaid ar y rhagdybiaethau hyn, yn seiliedig ar wybodaeth y tîm cyfreithiol sy'n ymdrin â'r hawliadau.

**Ansicrwydd yn y darpariaethau - dadansoddi sensitifrwydd**

Mae gwerth darpariaethau'r Gronfa indemniad yn amodol ar werth setliad terfynol ansicr yn y dyfodol, ar gyfer hawliadau hysbys a hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (IBNR). Gallai'r ansicrwydd yng ngwerth hawliadau sy'n aros i'w talu arwain at amrywiad yn y ddarpariaeth arfaethedig. Mae amrywiaeth o senarios wedi cael eu hystyried mewn perthynas â'r rhagdybiaethau ar:

- nifer yr hawliadau a gaiff eu derbyn
- maint cyfartalog hawliadau
- canran gwerth hawliadau a dalwyd wrth setlo (bach a mawr)
- cyfran yr hawliadau sy'n 'fawr' (Yn weddill ac IBNR).
- cyfradd chwyddiant a chyfraddau disgownt disgwyliedig.

Mae'r senarios hyn wedi cael eu hystyried yn unigol ac ar y cyd fel y dangosir yn y tablau ar dudalen 91.

Ar sail y gwaith dadansoddi hwn ac mewn perthynas â senarios anffafriol:

- mae'n rhesymol i ragweld y gallai gwerth y rhwymedigaethau fod tua £0.5 miliwn (Darpariaeth yn weddill) neu £8 miliwn (Darpariaeth IBNR) yn fwy na'r disgwyl
- mae'n annhebygol, ond yn bosibl, y gallai gwerth rhwymedigaethau fod tua £1.5 miliwn (Darpariaeth yn weddill) neu £15 miliwn (Darpariaeth (IBNR) yn fwy na'r disgwyl.

Mewn perthynas â senarios ffafriol:

- mae'n rhesymol i ragweld y gallai gwerth y rhwymedigaethau fod tua £8 miliwn (IBNR) yn is na'r disgwyl.

Yn ôl eu natur, nid yw'r ffigurau hyn yn fanwl-gywir a gallant roi rhyw syniad yn unig o faint yr ansicrwydd dan sylw.

Rydym hefyd wedi ystyried senarios eithafol, lle mae gwerth rhwymedigaethau mor fawr â £2.5 miliwn (Darpariaeth yn weddill) neu £55 miliwn (Darpariaeth IBNR) yn fwy na'r disgwyl. Mae natur benagored hirdymor indemniad statudol yn golygu nad yw'r ffigurau hyn yn cynrychioli'r uchafswm rhwymedigaeth posibl. Fodd bynnag, credwn fod tebygolrwydd senarios o'r fath yn isel.

Gall graddfa'r ansicrwydd ar ddyddiadau cyfrifyddu yn y dyfodol fod yn wahanol i'r rhai a ddangosir yma. Gallai hyn fod am sawl rheswm, er enghraifft oherwydd bod proffil hawliadau wedi newid neu oherwydd bod y rhagolygon ar hawliadau yn y dyfodol wedi newid.

Ar ddyddiadau cyfrifyddu yn y dyfodol, dylid disgwyl:

- bydd y ddarpariaeth yn weddill yn codi a gostwng yn dibynnu ar faint o hawliadau sy'n cael eu hadrodd ar y pryd, yn enwedig hawliadau mawr
- os bydd popeth arall yn gyfartal bydd y ddarpariaeth IBNR yn cynyddu dros amser oherwydd grymoedd chwyddiant
- bydd y Ddarpariaeth yn weddill a'r Ddarpariaeth IBNR yn arbennig o sensitif i nifer a gwerth hawliadau twyll a ffugio oherwydd dyma'r categori o hawliadau mwyaf arwyddocaol yn ariannol.

Darpariaeth y Gronfa Indemniad o £84.8 miliwn yw ein hamcangyfrif gorau. Fodd bynnag, mae gwerth darpariaethau'r Gronfa Indemniad yn destun ansicrwydd yn y dyfodol.

## Dadansoddiad sensitifrwydd

| | Darpariaeth yn weddill | 2016 Canran y symudiad cynnydd |
|---|---|---|
| | £m | % |
| Wedi'i ddarparu yn y cyfrifon hyn (gweler nodyn 16.2 - gwerth rhagweladwy rhesymol) | 10.5 | – |
| **Effaith senarios** | | |
| **Senarios anffafriol ond rhagweladwy** | | |
| (1) Hawliadau mawr y cymerir y bydd y canran tâl wedi cynyddu o 60% i 70% | 10.9 | 3.9 |
| (2) Hawliadau ychwanegol a dalwyd yn 5% yn fwy na'r disgwyl | 10.9 | 4.5 |
| (3) Cyfradd disgownt real ragnodedig y Trysorlys yn lleihau ymhellach gan 0.5% y flwyddyn | 10.6 | 1.0 |
| **Senarios posibl ond annhebygol** | | |
| (2) + (3) | 11.0 | 5.5 |
| (4) Hawliadau mawr y cymerir y bydd y tâl wedi cynyddu o 60% i 100% | 12.1 | 15.8 |
| **Senarios eithafol** | | |
| (2) + (3) + (4) | 12.7 | 21.4 |

| | Darpariaeth IBNR | Canran y symudiad cynnydd |
|---|---|---|
| | £m | % |
| Wedi'i ddarparu yn y cyfrifon hyn (gweler nodyn 16.2 - gwerth rhagweladwy rhesymol) | 74.3 | – |
| **Effaith senarios** | | |
| **Senarios ffafriol ond rhagweladwy** | | |
| (1) Gostyngiad yn y nifer amcanol o hawliadau IBNR athreuliol (-10%) | 70.2 | -5.5 |
| (2) Gostyngiad ym maint cyfartalog hawliadau athreuliol tybiedig yn y nifer o geisiadau maint cyfartalog a ragwelwyd (-10%) | 70.2 | -5.5 |
| (3) Gostyngiad ym maint cyfartalog hawliadau mawr tybiedig (o 680k i 580k) | 69.5 | -6.5 |
| (4) Gostyngiad yn y nifer amcanol o hawliadau mawr (o 6.5 i 5.5 fesul blwyddyn digwyddiad) | 69.3 | -6.8 |
| (5) Gostyngiad yn chwyddiant hawliadau tybiedig yn y dyfodol (-1% y flwyddyn) | 66.7 | -10.2 |
| (6) Cyfradd disgownt real ragnodedig ar lifoedd arian parod y tu hwnt i 10 mlynedd wedi cynyddu gan 1% y flwyddyn | 68.8 | -7.4 |
| **Senarios anffafriol ond rhagweladwy** | | |
| (1) Cynnydd yn y nifer amcanol o hawliadau IBNR athreuliol (+10%) | 78.4 | 5.5 |
| (2) Cynnydd yn y nifer o geisiadau maint cyfartalog a ragwelwyd (+10%) | 78.4 | 5.5 |
| (3) Cynnydd ym maint cyfartalog hawliadau mawr tybiedig (o 680k i 780k) | 79.1 | 6.5 |
| (4) Cynnydd yn y nifer amcanol o hawliadau mawr (o 6.5 i 7.5 fesul blwyddyn digwyddiad) | 79.3 | 6.8 |
| (5) Cynnydd yn chwyddiant hawliadau tybiedig yn y dyfodol (+1%) | 82.7 | 11.2 |
| (6) Cyfradd disgownt real ragnodedig ar lifoedd arian parod y tu hwnt i 10 mlynedd wedi'i lleihau gan 1% pellach y flwyddyn | 81.2 | 9.2 |
| **Senarios posibl ond annhebygol** | | |
| (1) + (2) | 82.9 | 11.5 |
| (1) + (5) | 87.2 | 17.3 |
| (7) Cynnydd ym maint cyfartalog hawliadau mawr tybiedig (o £680k i £980k) | 88.7 | 19.4 |
| **Senarios eithafol** | | |
| (1) + (2) + (4) + (5) + (6) + (7) | 128.7 | 73.2 |

# 17 Ymrwymiadau cyfalaf

| | **2016** | 2015 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| **Gwariant cyfalaf** | | |
| Wedi contractio ar ei gyfer ond heb ei ddarparu yn y cyfrifon hyn | – | 779 |

# 18 Rhwymedigaethau wrth gefn

## 18.1 Indemniad

Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Gofrestrfa Tir i indemnio ar gyfer colledion sy'n deillio o wallau neu hepgoriadau yn y gofrestr teitl. Mae hyn yn cynnwys gwallau sy'n deillio o dwyll gan drydydd partïon. Fel yr yswiriwr statudol o deitlau yng Nghymru a Lloegr, ni chyfyngir taliadau indemniad i gamgymeriadau a wnaed gan y Gofrestrfa Tir. Mae'r Gofrestrfa Tir yn darparu ar gyfer yr hawliadau hyn o dan ei Chronfa Indemniad, ar gyfer hawliadau hysbys a hawliadau sydd wedi codi ond sydd heb eu hadrodd (IBNR) (gweler nodyn 16.2) yn seiliedig ar y tebygolrwydd tybiedig y bydd hawliadau'n llwyddiannus.

Fel ar 31 Mawrth 2016, mae gwerth hawliadau indemniad yn yr arfaeth a wnaed i'r Gofrestrfa Tir i'w weld isod. Wedi'i gynnwys yn y cyfanswm hwn yw'r swm o £10.5 miliwn a ddarparwyd yn narpariaeth y Gronfa Indemniad (gweler nodyn 16.2).

**Gwallau neu hepgoriadau**

| | **2016** | 2015 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Camgymeriadau | **10,337** | 3,828 |
| Twyll a ffugio | **11,769** | 13,410 |
| | **22,106** | 17,238 |

## 18.2 Arall

Mae eiddo'r Gofrestrfa Tir yn Chalfont Drive, Nottingham, yn cynnwys cyn Ganolfan Ranbarthol y Llywodraeth (y cyfeirir ato fel arfer fel y 'bunker'). Arferai'r eiddo hwn gael ei ddosbarthu fel ased a ddelir i'w werthu a chyfeiriwyd at rwymedigaeth wrth gefn yn natganiadau ariannol 2014/15. Yn 2015/16 mae'r eiddo wedi cael ei ailddosbarthu fel ased anghyfredol oherwydd nid oes unrhyw arwydd y caiff ei werthu'n fuan.

Roedd y rhwymedigaeth wrth gefn yn 2014/15 ar gyfer cost amcangyfrifedig gwaith adfer. Nid yw'r cynllun presennol ar gyfer y safle yn cynnwys gwaith adfer, felly nid oes unrhyw rwymedigaeth wrth gefn yn 2015/16.

# 19 Nodiadau ar y datganiad llif arian

## 19.1 Cysoni gwarged gweithredu i'r mewnlif arian parod o weithgareddau gweithredu

| | **2016** | 2015 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwarged gweithredu | **41,188** | 47,541 |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | **(1,458)** | (5,347) |
| Costau datblygu Pridiannau Tir Lleol | **(2,265)** | (3,028) |
| Dibrisio eiddo, offer a chyfarpar | **5,229** | 6,123 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | **338** | 514 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anghyfredol | **6,466** | 1,125 |
| Gostyngiad mewn darpariaethau | **(5,952)** | (3,999) |
| Cynnydd mewn stocrestrau | **(2,256)** | (874) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau i'w derbyn | **(246)** | 2,039 |
| Cynnydd mewn symiau i'w talu | **3,429** | 5,138 |
| Cynnydd yn y Gronfa Indemniad | **11,200** | 8,700 |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | **55,673** | 57,932 |

## 19.2 Cysoni'r llif arian parod net i'r symudiad mewn arian parod net

| | **2016** | 2015 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Arian parod net ar ddechrau'r cyfnod | **397,752** | 464,639 |
| Cynnydd(gostyngiad) mewn arian parod yn y cyfnod | **46,119** | (66,887) |
| **Arian parod net ar ddiwedd y cyfnod** | **443,871** | 397,752 |

# 20 Datgeliadau partïon cysylltiedig

Yn unol ag IAS 24 *Datgeliadau partïon cysylltiedig*, fel y'i dehonglir gan FReM, mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu ar drafodion partïon cysylltiedig.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn asiantaeth weithredol, yn gronfa fasnachu ac yn adran o'r llywodraeth. Yn ystod y flwyddyn cafodd nifer o drafodion perthnasol ag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganol eraill. Roedd y rhan fwyaf o'r trafodion hyn gyda'r Arolwg Ordnans, Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Nid yw unrhyw aelodau bwrdd, neu aelodau o'r prif staff rheoli neu bartïon cysylltiedig eraill wedi cael unrhyw ddylanwad dros unrhyw drafodion perthnasol a gyflawnwyd gan y Gofrestrfa Tir.

Roedd Craig Lester, a ymunodd â Bwrdd y Gofrestrfa Tir fel Prif Weithredwr Cynorthwyo ar 11 Ionawr 2016, yn gyfarwyddwr anweithredol yn yr Arolwg Ordnans cyn iddo ymgymryd â'i swydd yn y Gofrestrfa Tir. Dechreuodd y contract ar gyfer darparu gwasanaethau arolwg a data gyda'r Arolwg Ordnans yn 2013 a bydd yn para tan 2023. Nid oedd yn gyfarwyddwr yn yr Arolwg Ordnans ar ddechrau'r contract ac felly nid oedd mewn sefyllfa i ddylanwadu ar drafodaethau contract.

# 21 Targedau ariannol corfforaethol

| | **2016** | | 2015 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Gwirioneddol** | **Targed** | Gwirioneddol | Targed |
| | **%** | **%** | % | % |
| Canran yr enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd | **8.6** | **3.6** | 8.5 | 4.6 |

# 22 Offerynnau ariannol

Mae IFRS 7 *Offerynnau ariannol: datgeliadau* yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau a wyneba endid wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

Nid oes gan y Gofrestrfa Tir unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar incwm o weithgareddau statudol ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Mae adneuon sylweddol yn cael eu dal gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol.

Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau perthnasol wedi'u nodi mewn sterling felly nid yw'r Gofrestrfa Tir yn agored i risg arian gyfred.

# 23 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 *Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd*, mae digwyddiadau ar ôl dyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r cyfrifon wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi. Mae hyn yn cael ei ddehongli fel dyddiad tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

**Digwyddiad nad yw'n addasu ar ôl y cyfnod adrodd**
Roedd canlyniad y refferendwm a gynhaliwyd ar 23 Mehefin o blaid y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae hwn yn ddigwyddiad nad yw'n addasu. Ni ellir gwneud amcangyfrifiad rhesymol o effaith ariannol y digwyddiad hwn.

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau nad ydynt yn addasu ar ôl y cyfnod adrodd.



Sesiwn hyfforddi ar gyfer gweithwyr achos newydd

# Atodiad A

## Maint o waith a llwythi gwaith 2015/16 a 2014/15

### Ceisiadau a dderbyniwyd yn ôl math a dull derbyn

| | 2015/16 | | | 2014/15 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd | Ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein | % y ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein | Cyfanswm ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd | Ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein | % y ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein |
| Cyfanswm ceisiadau/ cynhyrchion | 30,372,360 | 28,224,225 | 92.9 | 28,569,636 | 25,005,653 | 87.5 |
| Diweddariadau cofrestr swmpus | 352,348 | – | – | 1,157,728 | – | – |
| **Cyfanswm ceisiadau ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus** | **30,020,012** | **28,224,225** | **94.0** | **27,411,908** | **25,005,653** | **91.2** |
| | | | | | | |
| Ceisiadau safonol ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus | 4,721,574 | 3,926,879 | 83.2 | 4,724,245 | 3,431,087 | 72.6 |
| Cynhyrchion gwasanaethau rhagarweiniol | 17,096,106 | 16,898,741 | 98.8 | 15,890,630 | 15,580,001 | 98.0 |
| Ceisiadau gwasanaethau ymholiad | 8,202,332 | 7,398,605 | 90.2 | 6,797,033 | 5,994,565 | 88.2 |
| | **30,020,012** | **28,224,225** | **94.0** | **27,411,908** | **25,005,653** | **91.2** |
| Ceisiadau safonol ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus | | | | | | |
| Cofrestriadau cyntaf | 111,309 | – | – | 120,298 | – | – |
| Prydlesi gwaredol cyntaf | 224,529 | 175,592 | 78.2 | 207,087 | 100,234 | 48.4 |
| Trosglwyddiadau o ran o dir cofrestredig | 170,108 | 129,046 | 75.9 | 158,076 | 84,779 | 53.6 |
| Deliadau â'r cyfan gyda thir cofrestredig | 4,215,628 | 3,622,241 | 85.9 | 4,238,784 | 3,246,074 | 76.6 |
| | **4,721,574** | **3,926,879** | **83.2** | **4,724,245** | **3,431,087** | **72.6** |
| Cynhyrchion gwasanaethau rhagarweiniol | | | | | | |
| Copïau swyddogol[1] | 13,882,149 | 13,760,713 | 99.1 | 12,644,809 | 12,493,672 | 98.8 |
| Chwiliadau swyddogol | 2,424,335 | 2,409,063 | 99.4 | 2,240,834 | 2,196,134 | 98.0 |
| Chwiliadau swyddogol o'r map mynegai[1] | 789,622 | 728,965 | 92.3 | 1,004,987 | 890,195 | 88.6 |
| | **17,096,106** | **16,898,741** | **98.8** | **15,890,630** | **15,580,001** | **98.0** |
| Ceisiadau gwasanaethau ymholiad | | | | | | |
| Gweld y gofrestr | 5,325,027 | 5,325,027 | 100.0 | 4,873,717 | 4,873,717 | 100.0 |
| Gweld cynllun teitl | 957,449 | 957,449 | 100.0 | 884,241 | 884,241 | 100.0 |
| Gweld dogfen | 73,125 | 73,125 | 100.0 | 76,520 | 76,520 | 100.0 |
| Gohebiaeth | 334,762 | 214,026 | 63.9 | 283,428 | 160,087 | 56.5 |
| Ymholiadau ffôn | 682,991 | – | – | 679,127 | – | – |
| Lawrlwythiadau PDF MapSearch | 828,978 | 828,978 | 100.0 | – | – | – |
| | **8,202,332** | **7,398,605** | **90.2** | **6,797,033** | **5,994,565** | **88.2** |

Mae'r tabl uchod yn amlinellu ein gweithgareddau trafodaethol am y flwyddyn, ynghyd â chymarebau ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Yn y flwyddyn ariannol hon cwblhawyd mwy na 30 miliwn o geisiadau,

gan fodloni gofynion Deddf Cofrestru Tir 2002. Mae'r rhain yn ffurfio craidd ein gweithgareddau a'r refeniw sy'n gysylltiedig â nhw. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys manylion am ein cynnydd tuag at ddarparu gwasanaeth electronig, mewn perthynas â'r gwahanol fathau o geisiadau rydym yn eu derbyn. Ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus, cynyddodd cyfran y ceisiadau a dderbyniwyd yn electronig o 91.2 y cant i 94 y cant.

Mae diweddariadau cofrestr swmpus yn grwpiau o geisiadau sy'n cael eu cyflwyno i'r Gofrestrfa Tir ac yn effeithio ar nifer fawr o deitlau cofrestredig, megis banc yn newid y cyfeiriad ar gyfer gwasanaeth ar bob un o'i bridiannau cofrestredig. Mae lefelau derbyn ceisiadau o'r fath yn gyfnewidiol eu natur ac felly cânt eu nodi ar wahân i fathau eraill o geisiadau er mwyn osgoi ystumio'r data.

Nodyn: Gall cais am gopi swyddogol arwain at fwy nag un gofrestr a/neu gynllun teitl yn cael ei gyflenwi. Gall cais am chwiliad o'r map mynegai arwain at ddatgelu mwy nag un rhif teitl. Am y rheswm hwn mae nifer y cofrestri/cynlluniau teitl neu nifer y rhifau teitl a ddatgelir yn cael ei ddefnyddio fel metrig yn hytrach na nifer y ceisiadau eu hunain. Cynhyrchion cyfnod penodol yw'r rhain.

# Atodiad B

## Maint o waith a llwythi gwaith Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol 2015/16 a 2014/15

### Yr Adran Pridiannau Tir

Mae'r Adran Pridiannau Tir yn gweithredu o dan awdurdod Deddf Pridiannau Tir 1972.

Mae'r adran yn cadw cofrestri o Bridiannau Tir, gweithrediadau sy'n aros, gwritiau a gorchmynion sy'n effeithio ar dir a llyffetheiriau eraill sydd wedi'u cofrestru yn erbyn enwau perchnogion eiddo sydd heb eu cofrestru o dan y Deddfau Cofrestru Tir. Mae'r adran hefyd yn cynnal y Mynegai o Enwau Perchnogion (IOPN). Gellir chwilio'r mynegai hwn dim ond os oes gennych yr awdurdod priodol ac fe'i defnyddir i bennu a yw unrhyw asedau eiddo yn cael eu dal yn erbyn unigolion neu gwmnïau.

Mae rhai elfennau o gyfrifon cwsmeriaid hefyd yn cael eu rheoli yn yr Adran Pridiannau Tir.

| Math o gais | Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2015/16 | Canran yr amrywiad o'i gymharu â 2014/15 |
|---|---|---|
| Cofrestriadau newydd, cywiriadau ac adnewyddiadau | 42,572 | -20.54 |
| Dileadau | 8,671 | -14.76 |
| Chwiliadau swyddogol | | |
| - Chwiliadau llawn | 172,098 | -2.23 |
| - Chwiliadau wedi'u cyfyngu i ansolfedd | 1,511,711 | +9.96 |
| Copïau swyddfa | 25,490 | -4.08 |
| Cyfanswm | 1,760,542 | +7.28 |

## Yr Adran Credydau Amaethyddol

Mae'r Adran Credydau Amaethyddol yn gyfrifol am gadw cofrestr o fenthyciadau tymor byr gan fanciau o dan Ran II o Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928. Gwarentir y pridiannau hyn ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill y ffermwr.

| Blwyddyn | Cofrestriadau newydd | Dileadau a chywiriadau | Chwiliadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2007/8 | 1,267 | 808 | 4,269 | 6,344 |
| 2008/9 | 1,159 | 917 | 4,120 | 6,196 |
| 2009/10 | 917 | 737 | 3,405 | 5,059 |
| 2010/11 | 737 | 1,153 | 2,688 | 4,578 |
| 2011/12 | 840 | 1,086 | 2,689 | 4,615 |
| 2012/13 | 645 | 1,006 | 3,686 | 5,337 |
| 2013/14 | 772 | 943 | 2,552 | 4,267 |
| 2014/15 | 796 | 810 | 2,551 | 4,157 |
| 2015/16 | 857 | 820 | 2,541 | 4,218 |


# Atodiad C

## Ymateb i'r hinsawdd economaidd

Mae'r graff hwn yn crynhoi perfformiad dros bum blwyddyn ariannol.

### Gwarged/diffyg a gedwir y Gofrestrfa Tir o 2011/12

£'000





Nodyn: Nid yw'r ddarpariaeth IBNR gychwynnol o £45.9m wedi'i chynnwys yng nghostau rhedeg busnes 2011/12, yn y siart hwn, ond ar gyfer blynyddoedd dilynol mae'r symudiad yn y ddarpariaeth wedi'i gynnwys.

Nodyn: Yn unol â'r Strategaeth Fusnes roedd dau ddifidend eithriadol ychwanegol o £100m a dalwyd yn 2013/14 a 2014/15.

### Costau rhedeg busnes y Gofrestrfa Tir o 2011/12

£'000




Nodyn: Nid yw'r ddarpariaeth IBNR gychwynnol o £45.9m wedi'i chynnwys yng nghostau rhedeg busnes 2011/12, yn y siart hwn, ond ar gyfer blynyddoedd dilynol mae'r symudiad yn y ddarpariaeth wedi'i gynnwys.

Nodyn: Yn 2015/16 roedd costau amhariad o £6.5m.

Nodyn: Yn 2015/16 cynyddodd indemniad ac IBNR gan £11.2m.

Nodyn: Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys chwyddiant.

## Datganiadau incwm: pum mlynedd i 2015/16

| | (Ailddatganwyd) 2011/12 £’000 | 2012/13 £’000 | 2013/14 £’000 | 2014/15 £’000 | 2015/16 £’000 | Pum mlynedd £’000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm ffïoedd gweithrediadau parhaus | 359,338 | 347,157 | 381,278 | 297,080 | 295,372 | 1,680,225 |
| Cost gwasanaeth | (289,909) | (227,751) | (227,871) | (236,571) | (238,591) | (1,220,693) |
| Gwarged/(diffyg) gros | 69,429 | 119,406 | 153,407 | 60,509 | 56,781 | 459,532 |
| Costau gweinyddol | (13,722) | (10,515) | (12,053) | (12,968) | (15,593) | (64,851) |
| Gwarged/(diffyg) gweithredu | 55,707 | 108,891 | 141,354 | 47,541 | 41,188 | 394,681 |
| Elw(colled) ar waredaidau o asedau anghyfredol | 5,170 | 3,913 | 66 | (10) | (431) | 8,708 |
| Incwm buddsoddi - llog i'w dderbyn | 1,170 | 1,468 | 1,622 | 1,881 | 1,774 | 7,915 |
| Costau cyllid | (878) | (936) | (953) | (899) | (702) | (4,368) |
| Amorteiddio a dibrisio systemau e-wasanaeth | (4,448) | (4,053) | (5,357) | (3,530) | (3,469) | (20,857) |
| Costau ad-drefnu ailstrwythuro | (21,000) | (10,529) | (1,630) | (5,347) | (1,458) | (39,964) |
| Costau datblygu | – | – | – | (3,028) | (2,265) | (5,293) |
| Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn ariannol | 35,721 | 98,754 | 135,102 | 36,608 | 34,637 | 340,822 |
| Difidend i'w dalu | (13,776) | (25,960) | (126,654) | (119,114) | (13,584) | (299,088) |
| Gwarged/(diffyg) a gedwir am y flwyddyn | 21,945 | 72,794 | 8,448 | (82,506) | 21,053 | 41,734 |
| Enillion/(colledion) ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | (1,608) | 3,363 | 1,373 | (1,074) | (7,817) | (5,763) |
| Gwarged/(diffyg) cynhwysfawr am y flwyddyn ariannol | 20,337 | 76,157 | 9,821 | (83,580) | 13,236 | 35,971 |
| Staff cyfwerth ag amser llawn (cyfartaledd am y flwyddyn ariannol) | 4,588 | 4,325 | 4,042 | 4,033 | 4,035 | |

**Nodiadau**

2011/12: ailddatganwyd yn 2012/13 gydag addasiadau blwyddyn flaenorol ar gyfer newid polisi i gydnabod hawliau indemniad sydd wedi codi ond heb eu hadrodd.

2013/14: difidend arbennig o £100m wedi’i gynnwys mewn difidend i bob Strategaeth Fusnes newydd.

2014/15: difidend arbennig o £100m wedi’i gynnwys mewn difidend i bob Strategaeth Fusnes newydd.

# Atodiad Ch

## Cofnod y Trysorlys

### Cronfa Fasnachu Cofrestrfa Tir EM

### Cofnod Trysorlys EM dyddiedig 24 Ebrill 2012

1. Mae Adran 4(1) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 ("Deddf 1973") yn darparu y bydd Cronfa Fasnachu a sefydlwyd o dan y Ddeddf honno yn dod o dan reolaeth y Gweinidog cyfrifol (neu, os caiff Cronfa Fasnachu ei sefydlu ar gyfer gweithrediadau a gyflawnir gan y sawl a benodir yn unol ag unrhyw ymddeddfiad, yr unigolyn hwnnw, os yw'r Gorchymyn sy'n sefydlu'r Gronfa Fasnachu yn darparu felly yn unol ag adran 1(6)(a) o Ddeddf 1973) ac wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â'r gronfa bydd yn ddyletswydd arno i:
   - (a) Rheoli'r gweithrediadau a gyllidir fel bod refeniw'r gronfa:
     - (i) Yn cynnwys derbyniadau yn bennaf ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod gweithrediadau a gyllidwyd, a
     - (ii) heb fod yn llai na digonol, o gymryd un flwyddyn gyda'r llall, i dalu'r treuliau sydd i'w codi'n briodol ar y cyfrif refeniw; a
   - (b) Cyflawni amcanion ariannol pellach y gall y Trysorlys, o bryd i'w gilydd, drwy gofnod a roddir gerbron Tŷ'r Cyffredin, ddatgan eu bod wedi'u pennu gan y Gweinidog cyfrifol (gyda chydsyniad y Trysorlys) fel rhai y byddai'n ddymunol eu cyflawni.
2. Sefydlwyd Cronfa Fasnachu ar gyfer Cofrestrfa Tir EM ar 1 Ebrill 1993 o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir 1993 (SI 1993 Rhif 938). Mae Erthygl 3(2) o'r Gorchymyn hwnnw yn darparu y bydd y Gronfa Fasnachu yn dod o dan reolaeth y Prif Gofrestrydd Tir. Dyrannwyd asedau ychwanegol i'r Gronfa Fasnachu ar 11 Mawrth 1996 o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir (Asedau Ychwanegol) 1996 (SI 1996 Rhif 750). Ar 13 Hydref 2003, cafodd y Gronfa Fasnachu ei hestyn a'i diwygio o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir (Estyniad a Diwygiad) 2003 (SI 2003 Rhif 2094).
3. Mae Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, sef y Gweinidog cyfrifol at ddiben adran 4(1)(b) o Ddeddf 1973, wedi penderfynu (gyda chydsyniad y Trysorlys) mai amcan ariannol pellach y byddai'n ddymunol i Gofrestrfa Tir EM ei gyflawni yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2017 fydd sicrhau enillion, wedi'u cyfartalu dros y cyfnod cyfan, o isafswm o 3.5 y cant gwirioneddol[1] yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus. Bydd hyn ar ffurf gwarged ar weithgareddau cyffredin ar ôl eitemau eithriadol a llog (i'w talu ac i'w derbyn), ond cyn difidendau, wedi'u mynegi fel canran o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd. Bydd y cyfalaf a ddefnyddiwyd yn cyfateb â'r cyfanswm asedau y bydd y cyfanswm rhwymedigaethau yn cael ei ddidynnu ohono.
4. Mae'r Cofnod hwn yn disodli'r un dyddiedig 15 Rhagfyr 2003.
5. Bydd copi o'r Cofnod hwn yn cael ei roi gerbron Tŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 4(1)(b) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973.

[1] Caiff 3.5 y cant gwirioneddol ei gyfrifo'n flynyddol fel 3.5 y cant ynghyd â'r amcangyfrif chwyddiant diweddaraf am y flwyddyn honno, wedi'i ddarparu gan ONS. Drwy gyfrwng enghraifft barod, am y flwyddyn gyllidol 2012/13 bydd y targed ariannol yn 6.29 y cant. Cyfrifwyd hwn fel (1+3.5 y cant)* (1+2.7 y cant), gyda 2.7 y cant yn amcangyfrif chwyddiant 2012/13 ONS (ffigurau'r Cyfrifon Cenedlaethol gan ONS, http://www.hm-treasury.gov.uk/ data_gdp_fig.htm, 22 Rhagfyr 2011).

Trysorlys EM
24 Ebrill 2012

# Atodiad D

## Data hanesyddol cynaliadwyedd

### Data carbon mewn tunelli

| Blwyddyn | Targed gwastraff flwyddyn ar ôl blwyddyn | Gwastraff gwirioneddol | Canran gostyngiad gwirioneddol dros y waelodlin |
|---|---|---|---|
| 2009/10 (gwaelodlin) | 14,327 | 14,327 | 0 |
| 2010/11 | 13,610 | 13,099 | -9 |
| 2011/12 | 12,894 | 11,211 | -22 |
| 2012/13 | 12,178 | 11,340 | -21 |
| 2013/14 | 11,461 | 9,128 | -36 |
| 2014/15 | 10,745 | 8,656 | -40 |
| 2015/16 | 9,885 | 8,392 | -41 |

Y targed drafft ar gyfer nwyon tŷ gwydr yw lleihau allyriadau gan 31 y cant erbyn Mawrth 2020 dros y data gwaelodlin ar gyfer 2009/10.

Mae allyriadau gros wedi gostwng gan 41 y cant dros y waelodlin a gan 3 y cant dros y flwyddyn flaenorol.

### Gwastraff sy'n codi mewn tunelli

| Blwyddyn | Targed gwastraff flwyddyn ar ôl blwyddyn | Gwastraff gwirioneddol | Canran gostyngiad gwirioneddol dros y waelodlin |
|---|---|---|---|
| 2009/10 (gwaelodlin) | 1,979 | 1,979 | 0 |
| 2010/11 | 1,880 | 1,443 | -27 |
| 2011/12 | 1,781 | 1,689 | -15 |
| 2012/13 | 1,682 | 1,421 | -28 |
| 2013/14 | 1,583 | 959 | -52 |
| 2014/15 | 1,484 | 907 | -54 |
| 2015/16 | 1,484 | 1,106 | -44 |

Mae'r tabl yn dangos y duedd ar gyfer gwastraff sy'n codi yn erbyn targed lleihau Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth o 25 y cant erbyn Mawrth 2020. Cafwyd lleihad o 54 y cant. O'r gwastraff sy'n codi, mae 698 tunnell ohono yn bapur a anfonir i'w brosesu trwy'r ddarpariaeth ailgylchu papur dolen gaeedig o fewn y llywodraeth. Mae'r papur hwn yn cyfateb i 70 y cant o'n cyfanswm gwastraff sy'n codi.

## Lleihau dŵr mewn metrau ciwbig

| Blwyddyn | Targed dŵr flwyddyn ar ôl blwyddyn | Dŵr gwirioneddol | Canran gostyngiad gwirioneddol dros y waelodlin |
|---|---|---|---|
| 2009/10 (gwaelodlin) | 57,214 | 57,214 | 0 |
| 2010/11 | 54,353 | 54,644 | -4 |
| 2011/12 | 51,493 | 37,413 | -35 |
| 2012/13 | 48,632 | 31,230 | -45 |
| 2013/14 | 45,771 | 36,037 | -37 |
| 2014/15 | 42,911 | 38,153 | -33 |
| 2015/16 | 42,911 | 36,396 | -36 |

Cafwyd gostyngiad o 36 y cant mewn defnydd dŵr yn erbyn targed o 25 y cant. Y defnydd fesul gweithiwr staff cyfwerth ag amser llawn ar safleoedd y Gofrestrfa Tir o adrannau eraill y llywodraeth yw 7.7m.

# Atodiad Dd

## Crynodeb o drafodion indemniad 2015/16

| Natur yr hawliad | Nifer yr hawliadau | Colled safonol (£) | Costau (£) | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ystent teitlau cofrestredig | 142 | 354,397 | 206,045 | 7.0 |
| Gwallau/hepgoriadau o gofnodion cofrestr | 84 | 879,250 | 283,979 | 14.5 |
| Gwallau mewn cynlluniau amrywiol | 7 | – | 11,446 | 0.1 |
| Twyll a ffugio | 49 | 5,086,260 | 837,098 | 73.9 |
| Archwiliadau swyddogol o gynlluniau teitl | 9 | 98,400 | 12,060 | 1.4 |
| Gwallau methdaliad | – | – | – | – |
| Chwiliadau swyddogol | 1 | | 2,189 | – |
| Copïau swyddogol | 1 | 500 | 780 | – |
| Gwallau mewn chwiliadau o'r map mynegai (SIMs) | 6 | 500 | 5,445 | 0.1 |
| Gwallau mewn darnau wedi'u ffeilio | 230 | 133 | 42,935 | 0.5 |
| Colli dogfennau/gwallau gweinyddol | 474 | 20,128 | 179,253 | 2.5 |
| Gwallau Pridiannau Tir | – | – | – | – |
| Cyfanswm | 1,003 | 6,439,568 | 1,581,230 | 100.0 |
| Taliad gros | | | £8,020,798 | |
| Llai'r symiau a adenillwyd o dan ein hawliau digolledu statudol | | | £231,298 | |
| Indemniad net | | | £7,789,500 | |



Eich hawliau tir ac eiddo:
wedi eu gwarantu a'u gwarchod

Rydym yn rhoi sicrwydd
Mae gennym unplygrwydd
Rydym yn ysgogi arloesedd
Rydym yn broffesiynol

ISBN 978-1-4741-3315-9